


# Sicrhau ansawdd gwasanaethau teledu ac ar-alw

---

Datganiad ar newidiadau i'r Cod  
Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu a  
diweddariadau i ganllawiau arferion gorau  
Ofcom ar wasanaethau mynediad

## **Datganiad**

Cyhoeddwyd 15 Ebrill 2024



# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Cefndir a'n dull gweithredu .....	5
3. Cod .....	8
4. Canllawiau Cyffredinol .....	13
5. Isdeitlo .....	35
6. Disgrifiadau Sain .....	45
7. Iaith arwyddion.....	51

## Atodiad

A1. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .....	58
--	----

# 1. Trosolwg

- 1.1 Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r DU wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y cynnwys hygyrch ar wasanaethau teledu a fideo ar-alw (VoD). Mae cynulleidfaoedd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bobl anabl, nawr yn disgwyl cymorth ar ffurf isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ('gwasanaethau mynediad' gyda'i gilydd). Mae'n ymddangos y bydd hyn yn parhau, gyda gofynion hygyrchedd fideo ar-alw<sup>1</sup> yn yr arfaeth a datblygiadau sydyn mewn technoleg fel adnabod llais yn ei gwneud hi'n haws byth creu gwasanaethau mynediad. Ond gyda'r cynnydd hwn, daw her – sut mae sicrhau bod y gwasanaethau mynediad hyn yn cyrraedd ansawdd uchel ac yn cyflawni eu pwrpas go iawn?
- 1.2 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i god gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu Ofcom ("y Cod"), sy'n nodi'r gofynion statudol, a'r canllawiau arferion gorau cysylltiedig ("y Canllawiau"), sy'n rhoi argymhellion ar sicrhau ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau mynediad. Mae'r newidiadau'n dilyn ymgysylltu helaeth â grwpiau defnyddwyr, arbenigwyr y diwydiant a hygyrchedd, ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil ansoddol ar raddfa fawr a gomisiynwyd gennym i archwilio disgwyliadau a dewisiadau cynulleidfaoedd anabl.

## Mae'r newidiadau i'r Cod yn cynnwys:

- Eglurhad bod angen i wasanaethau mynediad gyrraedd ansawdd digon uchel i gyfrif tuag at y targedau gorfodadwy
- Disgwyliadau manylach ynghylch cyfathrebu â chynulleidfaoedd am ddarpariaeth gwasanaethau mynediad

## Mae'r newidiadau i'r Canllawiau yn cynnwys:

- Diweddariadau i gynnwys argymhellion i ddarparwyr VoD ac i ystyried gwahanol ffyrdd o wyllo rhaglenni (ee drwy lwyfannau symudol)
- Cynnwys argymhellion ar wasanaethu pobl sydd â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol
- Newid pwyslais tuag at dynnu sylw at ganlyniadau allweddol i gynulleidfaoedd yn hytrach na'r ffordd o'u cyflawni (ac argymhelliad i gynnig dewisiadau personoli lle bo hynny'n bosib)
- Canllawiau ar gyfathrebu'n well â chynulleidfaoedd a gofyn am adborth ganddynt
- Argymhellion i ystyried hygyrchedd drwy gydol y broses o greu a dosbarthu cynnwys, gan gynnwys defnyddio technegau y tu hwnt i wasanaethau mynediad confensiynol (ee ei gwneud hi'n haws clywed deialog) a chynnig/gwneud cais am ffeiliau gwasanaethau mynediad ochr yn ochr â chynnwys sy'n cael ei brynu lle byddai hyn yn osgoi dyblygu gwaith.

---

<sup>1</sup> I'w gyflwyno gan y [Bil Cyfryngau](#)

- Canlyniadau allweddol penodol i gynulleidfaoedd mewn perthynas ag isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.

1.3 Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

## 2. Cefndir a'n dull gweithredu

### Cefndir

---

- 2.1 Mae'r gyfraith yn mynnu bod darlledwyr yn darparu isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ('gwasanaethau mynediad') ar gyfran o'u rhaglenni. Mae isdeitlo ac iaith arwyddion yn helpu pobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar yn bennaf i wyllo teledu, ac mae disgrifiadau sain yn helpu pobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall yn bennaf. Mae'r gofynion wedi'u nodi yng [Nghod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu Ofcom](#) (y 'Cod gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu') neu 'y Cod').
- 2.2 Ar hyn o bryd nid oes gofynion statudol ar gyfer gwasanaethau mynediad ar wasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n cael eu rheoleiddio ('gwasanaethau VoD')<sup>2</sup>. Ond disgwylir iddynt gael eu cyflwyno drwy'r [Bil Cyfryngau](#) newydd<sup>3</sup>. Mae rhagor o fanylion am y prosesau a'r amseroedd disgwylidig ar gyfer cyflwyno ym [Map Ofcom o'r Bil Cyfryngau](#).
- 2.3 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddarparu canllawiau ar sut dylai darlledwyr hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad pobl anabl o deledu, gan gynnwys ar fodloni'r cwotâu statudol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u nodi yn y cod gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu ('y Cod'). Mae angen i ddarlledwyr sy'n rhwym wrth gwtâu sicrhau bod eu gwasanaethau mynediad yn cyrraedd ansawdd digon uchel er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y lefelau gofynnol o isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.
- 2.4 Mae ein Canllawiau Arferion Gorau ('y Canllawiau') yn cynnwys argymhellion ynghylch sicrhau ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau mynediad. Maen nhw wedi'u nodi mewn dogfen ar wahân i'r Cod, ond rydyn ni'n disgwyl i ddarlledwyr eu hystyried wrth fodloni eu cwotâu statudol. Mae gan Ofcom ddyletswydd i annog darlledwyr a darparwyr VoD i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygrychedd gyda'r bwriad o sicrhau bod eu gwasanaethau'n fwy hygrych i bobl anabl yn barhaus ac yn raddol.<sup>4</sup> Rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried ein Canllawiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau.

### Yr adolygiad hwn

---

- 2.5 Ar ôl ymgysylltu'n anffurfiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, ym [mis Gorffennaf 2023](#) fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ar ein cynigion i wneud y canlynol:
- 2.6 gwneud newidiadau i'n Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu, gan gynnwys egluro bod angen i wasanaethau mynediad fod o ansawdd digonol i gyrraedd y targedau gorfodadwy;
- 2.7 diweddarau ein Canllawiau Arferion Gorau, gan gynnwys eu hehangu i gynnwys argymhellion i ddarparwyr gwasanaethau dal i fyny a VoD.
- 2.8 Cawsom 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

---

<sup>2</sup> Darllenwch [Nodiadau cyfarwyddyd Ofcom ar bwy sydd angen hysbysu am wasanaeth ar-alw](#). Mae rhestr o wasanaethau rhaglenni ar-alw y mae Ofcom wedi cael eu hysbysu amdanynt ar gael [yma](#).

<sup>3</sup> Gweler adrannau 368HL – 368HP o'r [Bil Cyfryngau](#).

<sup>4</sup> Gweler ein [Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu](#) (2.3 a 7.2) ac adran 368C(2) o [Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#).

- 6 gan grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr: Yr Elusen Makaton, Mencap (elusen sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu), Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar, Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom a Phwyllgor Cynghori Ofcom ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CCP-ACOD), Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB), a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)
- 6 gan ddarlledwyr a darparwyr VoD: BBC, Ymddiriedolaeth Ddarlledu Iaith Arwyddion Prydain (BSLBT), Channel 4, ITV ac STV, Paramount Global ac S4C
- 1 gan ddarparwr llwyfan: BT<sup>5</sup>
- 3 gan bartion eraill sydd â diddordeb: academyddion yn yr Arsyllfa Galisaidd ar gyfer Hygyrchedd y Cyfryngau (GALMA), Red Bee Media (darparwr gwasanaeth mynediad) a Screen Scotland (rhan o Creative Scotland)
- 4 unigolyn
- 3 ymatebydd cyfrinachol

- 2.9 Fel sail i'r adolygiad, fe wnaethom hefyd gomisiynu astudiaeth ymchwil ansoddol a oedd yn edrych ar ddisgwyliadau a dewisiadau cynulleidfaoedd o ran rhaglenni hygyrch ar draws gwasanaethau teledu a VoD. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar brofiadau o ganfod a gwyllo rhaglenni ag isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion. Roedd yn ymwneud yn bennaf â phobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall, a phobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar, gan gynnwys defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain (BSL), ond roedd hefyd yn cynnwys pobl â chyflyrau gwybyddol. Rydyn ni wedi cyhoeddi canlyniadau'r ymchwil hwn ochr yn ochr â'r datganiad. Er ein bod yn trafod canfyddiadau'r ymchwil ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y datganiad hwn, cynhaliwyd yr ymchwil ar wahân i'r ymgynghoriad. Nid oedd y cyfranogwyr wedi gweld yr ymgynghoriad ac nid ydynt chwaith yn rhoi eu barn ar y cynigion. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n ychwanegu dealltwriaeth werthfawr at yr adolygiad hwn.
- 2.10 Mae'r datganiad hwn yn trafod meysydd o'r Cod a'r Canllawiau yr ydym wedi cael ymatebion arnynt gan randdeiliaid a/neu ddealltwriaeth ychwanegol ohonynt o'n hymchwil<sup>6</sup>. Mae'n egluro unrhyw newidiadau pellach rydyn ni'n eu gwneud i'r Cod a'r Canllawiau. Dylai darllenwyr gyfeirio at yr ymgynghoriad i gael manylion am newidiadau eraill i'r Cod a'r Canllawiau nad ydynt yn cael eu trafod yma.
- 2.11 Rydyn ni'n credu mai'r ffordd orau o roi sylw i rai o'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid yw drwy ein gweithgor arfaethedig (gweler 4.16), gan gynnwys sylwadau ynghylch safoni fformatau technegol ar gyfer gwasanaethau mynediad a datblygiadau mewn technolegau newydd. Mae sylwadau eraill gan randdeiliaid y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, gan gynnwys ceisiadau am newidiadau i ddeddfwriaeth (mater i Lywodraeth y DU). Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ar wahân i'r rhai cyfrinachol, wedi'u cyhoeddi'n llawn ar [ein gwefan](#).

## Nodyn ynghylch iaith

- 2.12 Yn yr ymgynghoriad, roedden ni wedi nodi ein bod fel arfer yn ceisio defnyddio iaith sy'n adlewyrchu'r [model cymdeithasol o anabledd](#) – felly, er enghraifft, cyfeirio at 'bobl anabl' yn

<sup>5</sup> Er ei fod wedi cael ei ailfrandio fel EE TV ers mis Rhagfyr 2023, mae'r datganiad hwn yn cyfeirio'n gyson at yr enw 'BT' a oedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn ei ymateb.

<sup>6</sup> Gweler adroddiad RIDC ar Ddisgwyliadau'r Gynulleidfa o ran Gwasanaethau Mynediad ar draws Teledu a Gwasanaethau Ar-alw.

hytrach na 'phobl ag anabledau'. Roedden ni hefyd wedi cyfeirio at 'golli golwg a chlyw' yn hytrach na 'nam ar y golwg a'r clyw', ond roeddem wedi nodi'n glir y bydd hyn weithiau'n amrywio yn ôl y cyd-destun (er enghraifft, cyfeirio at bobl sydd â chyflyrau gwybyddol). Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad (RNID, RNIB, BSLBT) nad yw 'colli clyw' yn cynrychioli pobl sy'n cael eu geni'n fyddar ac sy'n ystyried eu hunain yn fyddar, ac efallai na fydd 'colli golwg' yn cynrychioli pobl sy'n cael eu geni heb olwg. Dywedodd un ymatebydd unigol y gall 'colli clyw' greu arwyddocâd negyddol, ac awgrymodd ein bod yn defnyddio'r term 'byddardod a thrwm eu clyw'. Awgrymodd RNID ein bod yn defnyddio'r termau 'pobl sy'n colli eu clyw ac sy'n fyddar'. Rydyn ni wedi diweddarau'r iaith yn ein Canllawiau a'n Cod fel y bo'n briodol i gyfeirio at 'pobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar' a 'phobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall'. Nodwn fod dewisiadau unigol o ran terminoleg yn amrywio ac yn datblygu dros amser, a byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn addasu yn unol â hynny. Rydyn ni hefyd wedi disodli'r cyfeiriadau at 'anabledau' gwybyddol a niwroddatblygiadol â 'chyflyrau' i adlewyrchu y gall rhai pobl â chyflyrau niwroamrywiol (fel awtistiaeth) ddefnyddio gwasanaethau mynediad ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl.

## Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

---

- 2.13 Mae'r ddogfen hon yn asesiad effaith fel y'i diffinnir yn adran 7 o [Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#) ('y Ddeddf'). Mae asesiadau effaith yn darparu ffordd werthfawr o asesu gwahanol opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maen nhw'n rhan o'r arferion gorau wrth lunio polisiau.<sup>7</sup>
- 2.14 Rydyn ni wedi ystyried effeithiau tebygol ein penderfyniadau drwy gydol y ddogfen hon, gan ystyried yr effeithiau posib a amlygwyd i ni mewn ymatebion rhanddeiliaid ynghyd â'n hymchwil cynulleidfa gynhwysfawr, a'n hymgysylltiad â diwydiant a grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys ystyried y newid cyffredinol yn ein dull gweithredu ar gyfer y canllawiau i ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol i gynulleidfaoedd (ar wasanaethau darlledu a VoD), yn hytrach na'r dull penodol o'u cyflawni. Yn gryno, dylai'r newid hwn tuag at ddull gweithredu mwy hyblyg annog darparwyr i ddefnyddio eu hadnoddau mewn ffordd sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd yn well (ar draws y gwahanol lwyfannau lle mae rhaglenni'n cael eu darparu). Argymhellion yw'r canllawiau hyn, yn hytrach na gofynion rhwymol, felly nid oes rhaid i ddarparwyr wneud buddsoddiadau y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i fodloni'r gofynion statudol.
- 2.15 Rydyn ni hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i'r Cod, gan gynnwys nodi'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried i benderfynu a yw gwasanaethau mynediad o ansawdd digonol i gyrraedd y targedau. Dylai'r newidiadau hyn fod o fudd i ddarparwyr a chynulleidfaoedd drwy ddarparu rhagor o eglurder ynghylch safonau darparu disgwylidig, yn hytrach na chyflwyno costau ychwanegol i ddarparwyr (gan dybio eu bod eisoes yn bodloni'r safonau gofynnol).
- 2.16 Rydyn ni wedi asesu effaith ein penderfyniadau ar grwpiau cydraddoldeb penodol mewn 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb' yn Atodiad 1.

---

<sup>7</sup> I gael rhagor o wybodaeth am agwedd Ofcom at asesiadau o'r effaith, edrychwch ar y canllawiau, [Better policy-making: Ofcom's approach to impact assessment](#).

## 3. Cod

- 3.1 Ochr yn ochr â'r Canllawiau wedi'u diweddaru, roeddem wedi ymgynghori ar ddiweddariadau arfaethedig i'r Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu, i egluro'r gofynion cyfredol.
- 3.2 Mae fersiwn derfynol y Cod diwygiedig ar gael yn Atodiad 2. Isod, rydyn ni'n nodi'r ymatebion i'n hymgynghoriad a'n rhesymeg dros y newidiadau terfynol a wnaed.

### Safonau Ansawdd

---

#### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 3.3 Er mwyn cyfrannu at gwotâu rhifol, roeddem wedi egluro bod yn rhaid i wasanaethau mynediad gyrraedd ansawdd digonol. Fe wnaethom amlinellu nifer o ffactorau y byddwn yn eu hystyried (fesul achos) yn hyn o beth:
  - Ar gyfer isdeitlau: cywirdeb, cydamseredd, ansawdd darllenadwy, cyflwyniad a disgrifiad o wybodaeth nad yw ar lafar. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'r rhaglenni'n fyw neu wedi'u recordio ymlaen llaw.
  - Ar gyfer disgrifiadau sain: cywirdeb, eglurder a pha mor hawdd yw clywed
  - Ar gyfer iaith arwyddion: cywirdeb, cydamseredd, a gwelededd
- 3.4 Roedden ni hefyd wedi egluro bod diffiniad y Cod o isdeitlo yn cyfeirio at wasanaeth 'yn bennaf ar gyfer pobl sy'n colli eu clyw', i wahaniaethu oddi wrth isdeitlau sy'n cyfieithu llferydd o ieithoedd eraill ar gyfer cynulleidfa sy'n clywed, sydd ddim yn cyfleu gwybodaeth am synau nad ydynt yn ddeialog.

#### Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.5 Er bod llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o bennu y dylid bodloni cwotâu drwy wasanaethau mynediad o ansawdd digon uchel, roedd rhywfaint o bryder (BBC / Red Bee / BSLBT) ynghylch sut byddai hyn yn cael ei asesu'n ymarferol. Dywedodd y BBC y dylai mesurau ansawdd ar gyfer gwasanaethau mynediad gael eu dilysu drwy brofion defnyddwyr. Teimlwyd bod asesu ansawdd yn arbennig o anodd a goddrychol mewn perthynas â Disgrifiadau Sain (Channel 4) ac iaith arwyddion (Channel 4, BSLBT). Roedd Channel 4 hefyd am sicrhau nad oedd y ffocws ar ansawdd yn cael effaith niweidiol ar un o'n nodau eraill – cynyddu'r lefel o rannu ffeiliau gwasanaethau mynediad sy'n bodoli eisoes.
- 3.6 Gofynnodd y BBC hefyd am ddiffiniad manylach o'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio ffactorau perthnasol o ran ansawdd, yn enwedig y termau 'cyflwyniad' a 'chywirdeb', y gallai'r olaf fod yn berthnasol i amrywiaeth o faterion gan gynnwys adnabod siaradwyr ac ystyriaethau gramadegol wrth rannu testun ar draws llinellau.
- 3.7 Roedd ymatebydd unigol yn teimlo bod isdeitlau cyfieithu i raddau helaeth yn cyflawni'r un pwrpas ag isdeitlau ar gyfer pobl fyddar a phobl sy'n colli eu clyw, ac felly ni ddylai ein Canllawiau awgrymu bod isdeitlau cyfieithu ar gyfer pobl sy'n clywed yn unig. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd y BBC nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio isdeitlau yn colli eu clyw.



## Ein barn

- 3.8 Er bod y cyfeiriad at safonau ansawdd yn ychwanegiad newydd at y Canllawiau, mae gwasanaethau mynediad wedi gorfod bod yn addas i'r diben er mwyn bodloni'r cwotâu statudol erioed. Credwn ei bod yn ddefnyddiol pwysleisio'r pwynt hwn, gydag arwydd cliriach o'r ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o bob gwasanaeth mynediad at ei ddiben arfaethedig. Nid ydym yn credu ei bod yn ddefnyddiol mynd i ragor o fanylder yn y cyddestun hwn gan fod y rhestr o ffactorau yn ddangosol ac ar lefel uchel yn unig. Fodd bynnag, rydyn ni wedi diwygio 'cyflwyniad' i 'dull cyflwyno' er eglurder, ac wedi diwygio'r atalnodi i egluro nad yw hyn yn ymwneud yn benodol â gwybodaeth nad yw ar lafar.
- 3.9 Os daw gwasanaethau mynediad o ansawdd a allai fod yn annigonol i'n sylw (er enghraifft drwy gŵyn gan ddefnyddwyr), byddem yn asesu fesul achos, gan gymryd camau lle bo hynny'n briodol, yn enwedig pan fydd problemau ansawdd yn codi'n rheolaidd a/neu'n sylweddol. Ein nod ar gyfer y Cod yw sicrhau bod gwasanaethau mynediad ar wasanaeth penodol yn cyrraedd 'ansawdd digonol' yn gyffredinol i fodloni'r cwotâu statudol, nid atal darlledwyr rhag cynyddu faint o gynnwys hygyrch sydd ar gael. Yn fwy cyffredinol, mae ein Canllawiau'n annog darlledwyr i gydbwysu cynnydd yn nifer ac ansawdd y gwasanaethau mynediad – edrychwch ar 4.116 - 4.125 yn y ddogfen hon am drafodaeth bellach ar ein disgwyliadau o ran y prosesau y dylai darparwyr fod yn eu dilyn i sicrhau ansawdd.
- 3.10 Rydyn ni wedi egluro ein diffiniad o 'isdeitlo' er mwyn osgoi'r awgrym bod pob achos o isdeitlo yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan bobl f/Fyddar a phobl sy'n colli eu clyw, a'r awgrym nad yw isdeitlau cyfieithu yn cael eu defnyddio gan y grwpiau hyn. Pan fyddwn yn defnyddio'r term 'isdeitlo' yn y Cod, rydyn ni'n cyfeirio at wasanaeth 'sy'n addas i'w ddefnyddio gan bobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar'.

## Codi Ymwybyddiaeth

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 3.11 Roedden ni'n cynnig egluro ein disgwyliadau o ran cyfathrebu darlledwyr â chynulleidfa oedd ynghylch argaeledd gwasanaethau mynediad, yn enwedig lle bu tarfu ar wasanaethau mynediad.

### Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.12 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth â'r esboniadau hyn, gyda BSLBT ac RNID ill dau'n argymhell bod BSL yn cael ei chynnwys yn benodol fel ffordd briodol o gyfathrebu. Awgrymodd RNID hefyd, er mwyn i wybodaeth fod yn hygyrch, y dylai fod ar gael mewn Cymraeg neu Saesneg clir ac y dylid tynnu sylw ati ar y prif dudalennau, ar gyfryngau cymdeithasol ac, os oes modd, yn ystod darllediadau.
- 3.13 Gofynnodd Red Bee am eglurder ynghylch y ffyrdd y gellid cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd, a nododd Paramount Global, os na fydd gwasanaethau mynediad ar gael, efallai na fydd darlledwyr yn gallu rhoi eglurder llawn ynghylch amserlenni ar gyfer adfer gwasanaethau.

## Ein barn

- 3.14 Rydyn ni wedi egluro yn y Cod y gallai dulliau effeithiol gynnwys darparu gwybodaeth mewn BSL. Mae newidiadau tebyg wedi cael eu gwneud i'n Canllawiau ynghylch codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys cyfeirio at gyfathrebu mewn iaith glir ac at gyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n credu bod cyfeiriad y Cod at 'dulliau priodol ac effeithiol' yn caniatáu i ddarllenedwyr ddefnyddio eu crebwyll a'u gwybodaeth eu hunain am eu cynulleidfa mewn unrhyw sefyllfa benodol, ac mae ein canllawiau'n rhoi argymhellion manylach. Rydyn ni'n deall na fydd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i ddarllenedwyr bob amser, ond fel y cydnabyddir gan Paramount Global, bwriad y Cod yw sicrhau bod darllenedwyr yn darparu cymaint o wybodaeth â phosib.
- 3.15 Rydyn ni wedi ychwanegu troednodyn at y Cod i atgoffa darllenedwyr o God Perfformiad Technegol Teledu Ofcom sy'n nodi bod yn rhaid i drwyddedeion Sianel 3, trwyddedai Channel 4 a thrwyddedai Channel 5 sicrhau bod presenoldeb a dibynadwyedd unrhyw wasanaethau mynediad wedi'u hamserlennu yn cael yr un flaenoriaeth â sicrhau presenoldeb a dibynadwyedd cydrannau llun a sain y rhaglenni hynny.

## Cymhwyso cwotâu

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 3.16 Fe wnaethom egluro, yn unol â'r dull gweithredu a amlinellwyd mewn [penderfyniad ynghylch torri amodau yn 2022](#), ein bod yn disgwyl i gwotâu statudol gael eu cyflawni gan wasanaeth ar bob llwyfan darparu lle mae'n cael ei reoleiddio, ac na ddylid eu cyfrifo fel cyfartaledd ar draws yr holl llwyfannau darparu.

### Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.17 Er bod Channel 4 yn cydnabod y rhesymeg dros yr eglurhad hwn, roedd yn teimlo y gallai, yn ymarferol, gynyddu'r baich ar ddarllenedwyr mewn perthynas ag adrodd fesul llwyfan. Yn yr un modd, roedd y BBC yn credu nad oedd yn ymarferol i ddarllenedwyr adrodd ar hygyrchedd sianeli sy'n cael eu defnyddio drwy ddyfeisiau trydydd parti penodol lle nad yw'r darllenedwr yn gallu rheoli'r ffordd mae gwasanaethau mynediad yn cael eu cyflwyno. Roedd y BBC hefyd yn cwestiynu sut byddai'r newid hwn yn effeithio ar gyfrifiad cyfran y gynulleidfa.

## Ein barn

- 3.18 Mae'r newidiadau hyn i'r Cod yn darparu eglurhad yn hytrach na newid yn y dull gweithredu: mae cwotâu hygyrchedd darlledu wedi bod yn berthnasol bob amser, dim ots beth yw'r dull darparu.
- 3.19 Fel yr amlinellwyd yn ein penderfyniad yn 2022, mae proses adrodd Ofcom yn cael ei chynnal ar y sail bod allbwn darllenedwr, a'r gwasanaethau mynediad mae'n eu darparu, yn gyson ar draws llwyfannau perthnasol<sup>8</sup> Felly, mae'r adroddiad a gyflwynir yn adlewyrchu'r

---

<sup>8</sup> Mae gwasanaethau darlledu yn cael eu rheoleiddio pan fyddant ar gael drwy [Amserlen Rhaglenni Electronig \(EPG\) sy'n cael ei reoleiddio](#) neu wedi'u lleoli yn y DU ac yn darlledu i wlad sy'n rhan o'r [Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol](#).

ddarpariaeth o wasanaethau mynediad ar bob llwyfan perthnasol (yn hytrach na chyfartaledd darpariaeth gronnus ar draws yr holl llwyfannau hyn).

- 3.20 Byddwn yn parhau ar y sail hon, gyda'r disgwyliad y bydd darlledwyr yn rhoi gwybod i ni os yw'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu'n sylweddol ar draws llwyfannau. Byddem yn disgwyl i ddarlledwyr allu monitro eu hallbwn ar llwyfannau lle mae gwasanaeth yn cael ei reoleiddio<sup>9</sup>.
- 3.21 Yn yr un modd, nid oes newid ymhlyg yn y ffordd mae cyfran y gynulleidfa'n cael ei chyfrifo, a fydd yn parhau i fod yn seiliedig ar gyfran gyfartalog cynulleidfa teledu sy'n cael ei ddarlledu. Ar hyn o bryd mae'r mesur hwn yn seiliedig ar fesuriad teledu darlledu safonol y DU gan Barb<sup>10</sup>, sy'n ystyried lefelau gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu ar draws amrywiaeth o llwyfannau darlledu.

## Cyhoeddiadau argyfwng

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 3.22 Efallai y bydd y Llywodraeth yn mynnu bod Ofcom yn rhoi cyfarwyddyd i ddarlledwyr gynnwys cyhoeddiadau argyfwng yn eu gwasanaethau. Roedden ni wedi cynnig diweddarau'r Cod i egluro, pan fydd hyn yn digwydd, y dylai'r cyhoeddiadau hyn fod ar gael i bobl anabl.

### Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.23 Roedd y BBC yn teimlo y byddai hyn yn rhoi baich ychwanegol ar ddarlledwyr oherwydd natur gwasanaethau mynediad ac anawsterau technegol posibl o ran darparu.

### Ein barn

Mae'r gofyniad hwn yn y Cod yn adlewyrchu gofyniad cyfreithiol<sup>11</sup> nad oes gan Ofcom y pŵer i'w newid. Mae'n ymwneud ag amgylchiadau penodol lle mae'r Llywodraeth yn mynnu bod Ofcom yn cyfarwyddo darlledwyr i gynnwys cyhoeddiad sy'n ymwneud ag argyfwng (gan gynnwys trychineb naturiol).

- 3.24 Mae ein Canllawiau diwygiedig yn cynnwys argymhellion mwy cyffredinol, nad ydynt yn rhwymo, ar ddarparu gwybodaeth hygrych, gan gynnwys argyfyngau cenedlaethol.

## Materion eraill yn ymwneud â'r Cod

---

### Iaith arwyddion

- 3.25 Pwysleisiodd BSLBT y byddent yn hoffi gweld y gofyniad iaith arwyddion o 5% yn cael ei ystyried yn ofyniad sylfaenol, oherwydd gallai pobl fyddar sy'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf fod yn dibynnu'n llwyr ar iaith arwyddion er mwyn gwyllo rhaglenni. Rydyn ni'n cytuno ac yn nodi bod ein Canllawiau arfaethedig yn gwneud hyn yn glir yn 2.10 lle rydyn ni'n dweud y

---

<sup>9</sup> Gweler troednodyn 8.

<sup>10</sup> Gan ddefnyddio Safon Aur Barb, sef cyfran gyfunol 7 diwrnod yr holl wyllo ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu.

<sup>11</sup> [Deddf Cyfathrebiadau 2003](#), adran 336 (3)

dylai targedau 'gael eu hystyried fel safonau sylfaenol yn unig', a'n bod yn annog pob darlledwr a darparwr VoD i gynyddu'r ddarpariaeth cyn belled ag y bo'n ymarferol.

- 3.26 Hefyd, gofynnodd BSLBT pam nad yw'r hyblygrwydd o ran defnyddio'r 'trothwy iaith arwyddion' (paragraff 5.7 o Atodiad 8 i'r ymgynghoriad) yn cael ei ailadrodd mewn perthynas â'r trothwy mwy cyffredinol ar gyfer eithriad rhag gofynion ar sail cyfran y gynulleidfa. Y rheswm am hyn yw bod y 'trothwy iaith arwyddion' yn drothwy penodol sydd ond yn gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ofynion iaith arwyddion – rydyn ni'n caniatáu i ddarlledwyr gyflawni eu gofyniad drwy gyfraniadau i BSLBT o dan y lefel hon. Nid oes trothwy cyfatebol ar gyfer isdeitlo a disgrifiadau sain.
- 3.27 Awgrymodd BSLBT hefyd y dylid ychwanegu at ddiffiniad y Cod o 'iaith arwyddion' i adlewyrchu'r ffaith fod Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Lloegr) wedi'i phasio yn 2022 ac y dylem ystyried newid y gair 'ystumiau' i 'iaith'. Roedden ni wedi cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain yn ein Canllawiau arfaethedig ac rydyn ni bellach wedi ychwanegu cyfeiriad tebyg at ddiffiniadau'r Cod. Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni wedi cadw'r cyfeiriad at 'ystumiau â llaw' gan eu bod dim ond yn rhan o'r disgrifiad o iaith arwyddion yn ei chyfarwydd.

## Cyhoeddi'r Cod

- 3.28 Dywedodd BSLBT y dylai'r Cod fod ar gael mewn BSL. Rydyn ni'n cytuno â'r argymhelliaid hwn a byddwn yn trefnu bod crynodeb BSL o'r Cod ar gael ar ein gwefan.

## Ystyriaethau ychwanegol

- 3.29 Gwnaeth nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad awgrymiadau a fyddai'n golygu bod angen rhagor o ddeddfwriaeth er mwyn eu gweithredu drwy'r Cod. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn orfodol cynnwys gwasanaethau mynediad sydd ar gael ochr yn ochr â gwerthiant cynnwys (NADP), mynnu bod darparwyr gwasanaethau mynediad yn hybu amrywiaeth ymysg eu gweithluoedd (GALMA), a mynnu bod darlledwyr a darparwyr ar-alw yn cynnig rhaglenni yn Makaton i blant ac oedolion sydd ag anghenion cyfathrebu cymhleth (Yr Elusen Makaton). Mae hefyd yn cynnwys awgrym BSLBT mewn perthynas â bodloni cwotâu iaith arwyddion, sef y dylai cynnwys iaith arwyddion sy'n cael ei ddarlledu yn ystod oriau anghymdeithasol gyfrif am lai na'r hyn sy'n cael ei ddarlledu yn ystod oriau brig.
- 3.30 Er bod y meysydd hyn y tu allan i gwmpas y diwygiadau i'r Cod ar hyn o bryd, rydyn ni wedi cynnwys argymhellion cysylltiedig yn ein Canllawiau diwygiedig (gweler adrannau 2.11, 2.13, 2.28 a 5.10 o'r Canllawiau diwygiedig). Rydyn ni'n croesawu trafodaeth bellach ar sut i hybu cynnydd drwy ein gweithgor newydd.
- 3.31 Gweler 2.12 am eglurhad o'r defnydd o derminoleg i ddisgrifio cynulleidfaoedd perthnasol yn y Cod
- 3.32 Nodwn un newid arall sydd wedi cael ei wneud i'r Cod (adrannau 5.4 (b), 5.6 (b) ac A1.1 yn y Cod Diwygiedig) i ddiwygio'r datganiad ein bod yn diweddar Atodiad 1 (sy'n nodi'r trothwyon ar gyfer cyfran cynulleidfaoedd ac iaith arwyddion ar gyfer darlledwyr annomestig) bob blwyddyn. Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, hyd yma ni fu angen diweddarau'r wybodaeth hon ar gyfer unrhyw sianeli trwyddedig. Felly, rydyn ni wedi cyfeirio yn lle hynny at ddiweddarau'r Atodiad 'o bryd i'w gilydd'.

# 4. Canllawiau Cyffredinol

4.1 Crynodeb – Newidiadau i'r Canllawiau Cyffredinol Rydyn ni wedi ehangu ein canllawiau cyffredinol ar wneud rhaglenni'n hygyrch i gynnwys argymhellion ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:

- gwasanaethu pobl sydd â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol
- dewisiadau personoli a dewis i wylwyr (\*gan gynnwys defnyddio mwy nag un gwasanaeth mynediad ar yr un pryd)
- cynyddu argaeledd cynnwys hygyrch lle bo hynny'n bosib, gan gynnwys drwy rannu ffeiliau gwasanaethau mynediad ochr yn ochr â chynnwys \*lle bydd yn lleihau dyblygu gwaith
- dulliau eraill o wneud cynnwys yn hygyrch (ee ei gwneud hi'n haws clywed deialog a \*hygyrchedd hysbysebion)
- sicrhau bod gwybodaeth argyfwng ac adegau o bwysigrwydd cenedlaethol yn hygyrch
- darparu gwasanaethau mynediad yn amserol ar gyfer cynnwys VoD
- nodweddion sy'n ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i wasanaethau mynediad ar wasanaethau VoD (fel hidlyddion a chategoriâu cynnwys) a \*chodi ymwybyddiaeth o sut mae defnyddio nodweddion o'r fath
- ystyried materion hygyrchedd yn gynnar yn y broses cynhyrchu cynnwys
- monitro ansawdd (\*cyn ac ar ôl darlledu) a gofyn am adborth (\*gan gynnwys drwy brofion defnyddwyr)
- \*sicrhau cydnawsedd â thechnolegau cynorthwylol

Mae symbol seren (\*) yn nodi rhai o'r prif newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori.

4.2 Mae fersiwn derfynol y Canllawiau diwygiedig ar gael yn Atodiad 3. Yn y penodau canlynol, rydyn ni'n nodi'r ymatebion i'n hymgyngghoriad a'n rhesymeg dros y newidiadau terfynol a wnaed.

## Ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y Canllawiau

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

4.3 Mae ein Canllawiau blaenorol yn cynnwys cyngor penodol i ddarlledwyr ynghylch sut dylid cyflwyno gwasanaethau mynediad, ac mae rhai ohonynt yn seiliedig ar safonau teledu sydd wedi dyddio. Fodd bynnag, roedden ni'n cynnig y dylai ein Canllawiau newydd ymdrin â hygyrchedd darlledu ac ar-alw, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol i gynulleidfa oedd yn hytrach na'r dull penodol o gyflawni'r canlyniadau hyn (er enghraifft yr egwyddor o wahaniaethu'n glir rhwng siaradwyr mewn isdeitlau, yn hytrach na chanllawiau penodol y dylid defnyddio lliwiau i wneud hyn).

- 4.4 Y tu hwnt i'r adolygiad hwn o'r Canllawiau, fe wnaethom ddweud y byddem yn parhau i bwysu am gynnydd o ran ansawdd gwasanaethau mynediad, gan gynnwys drwy adolygu'r Canllawiau a'r adran hygyrchedd ar ein gwefan yn rheolaidd, a drwy greu gweithgor newydd sy'n cynnull cynrychiolwyr defnyddwyr, darlledwyr a darparwyr VoD.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.5 Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i ehangu'r Canllawiau i gynnwys gwasanaethau ar-alw. Gofynnodd BT am eglurder ynghylch y diffiniad o wasanaethau fideo ar-alw o fewn cwmpas y Canllawiau a dywedodd BSLBT y dylai'r Canllawiau gynnwys IPTV (Teledu Protocol Rhyngryd).
- 4.6 Gofynnodd rhai ymatebwyr am wneud iaith y Canllawiau yn fwy llym (er enghraifft awgrymiadau bod yn 'rhaid' i ddarparwyr ddilyn rhai argymhellion. Ar y llaw arall, awgrymodd eraill y dylid geirio'r Canllawiau mewn ffordd fwy hyblyg (er enghraifft i osgoi nodi y dylai argyfyngau cenedlaethol/adegau o bwysigrwydd cenedlaethol fod ar gael ar bob un o'r tri gwasanaeth mynediad pan nad yw hyn yn ymarferol bob amser).
- 4.7 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n dull gweithredu arfaethedig i ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol i gynulleidfaoedd, gan gytuno nad yw dull gweithredu 'un ateb i bawb' ar gyfer cyflwyno gwasanaethau mynediad yn briodol mwyach. Roedd ein hymchwil hefyd yn dangos bod dewisiadau'n aml yn amrywio o ran sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu cyflwyno mewn rhaglenni (yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno isdeitlau) a bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i bersonoli gwasanaethau mynediad (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil). Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylai'r Canllawiau fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer dewisiadau a datblygiadau personol yn nhirwedd y cyfryngau.
- 4.8 Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr y gallai cysondeb o ran cyflwyniad fod yn ddefnyddiol o hyd mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft o ran dewis ffont (CCP-ACOD, RNID) a labelu gwybodaeth nad yw ar lafar (CCP-ACOD), a dywedodd NADP y dylid cael fformat diodyn safonol ar gyfer isdeitlau. Ar ben hynny, dywedodd RNIB fod rhyngwynebau defnyddwyr cyfarwydd yn gallu bod yn fwy hygyrch yn aml, yn enwedig i bobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol neu bobl sy'n llai hyderus yn defnyddio technoleg a rhyngwynebau digidol, ac y dylem annog y diwydiant i gytuno ar rhyngwynebau defnyddwyr a dulliau rhyngweithio safonol ar gyfer nodweddion mynediad. Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil hefyd wedi mynegi awydd am ragor o gysondeb o ran argaeledd a chyflwyniad offer llywio ar gyfer dod o hyd i gynnwys hygyrch ar draws gwahanol wasanaethau (gweler adran 3.2.2 o'n hymchwil).
- 4.9 Ar ben hynny, dywedodd y BBC fod y canllawiau newydd yn debygol o arwain at ansawdd gwasanaethau mynediad yn gwaethygu'n sylweddol oherwydd bydd darparwyr yn cael hyblygrwydd ychwanegol, er enghraifft mewn perthynas â chyfnewid gwasanaethau mynediad rhwng darparwyr.
- 4.10 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid adolygu'r Canllawiau'n rheolaidd ac roeddent yn croesawu'r gweithgor arfaethedig. Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno cael rhagor o fanylion ynghylch sut byddai Ofcom yn mesur llwyddiant y mesurau newydd (Screen Scotland, BSLBT) a sut gellid sicrhau ymgynghoriad ystyrlon â chynulleidfaoedd (Screen Scotland). Dywedodd CCP-ACOD fod angen i Ofcom a darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio hefyd weithio gyda gwneuthurwyr dyfeisiau i sicrhau bod taith y cwsmer i gael gafael ar wasanaethau VoD a theledu yn hygyrch.

## Ein barn

- 4.11 Rydyn ni'n credu bod y Canllawiau'n berthnasol i unrhyw ddarparwr cynnwys tebyg i deledu. Yn fwy penodol, rydyn ni'n annog darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio i ystyried ein Canllawiau wrth ddatblygu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer hygyrchedd<sup>12</sup>. Dylai darlledwyr hefyd ystyried y Canllawiau hyn wrth ddarparu gwasanaethau mynediad i gyrraedd y targedau statudol.
- 4.12 Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu pa ddarparwyr sydd o fewn cwmpas rheoleiddio (er enghraifft mae'r Llywodraeth wedi [ymgyngori'n](#) ddiweddar ynghylch a ddylid ehangu cwmpas yr EPGs sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU yng ngoleuni twf gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy brotocol rhyngwladol). Fodd bynnag, mae Ofcom yn gallu eithrio darlledwyr rhag y targedau statudol, gan ystyried ffactorau fel cost a budd i'r gynulleidfa.
- 4.13 Yn y Canllawiau, ein nod yw defnyddio iaith sy'n adlewyrchu statws y Canllawiau hyn fel set o argymhellion yn hytrach na gofynion rhwymol (er enghraifft, 'dylai darparwyr' neu 'rydyn ni'n annog'). Yn gyffredinol, rydyn ni wedi defnyddio iaith ychydig yn fwy cadarn wrth ddarparu argymhellion mewn perthynas ag isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, o'i gymharu â dulliau eraill o wneud rhaglenni'n hygyrch (nad ydynt yn cyfrannu at y cwotâu statudol). Nod y Canllawiau hyn yw helpu darparwyr i wella hygyrchedd eu gwasanaethau'n raddol ac, yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod angen dileu agweddau o'n hargymhellion oherwydd nad ydynt yn ymarferol ar hyn o bryd ar draws pob gwasanaeth a/neu lwyfan. Dylai darparwyr ddefnyddio dull cymesur o fabwysiadu'r argymhellion, sydd hefyd yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddynt ac anghenion/dewisiadau eu cynulleidfa oedd penodol.
- 4.14 Yn gyffredinol, rydyn ni wedi penderfynu cadw ein dull o ganolbwyntio'r Canllawiau ar ganlyniadau allweddol i gynulleidfa oedd, yn hytrach nag argymell dulliau cyflwyno penodol. Nid ydym yn cytuno y bydd dull gweithredu mwy hyblyg yn arwain at waethygu ansawdd gwasanaethau mynediad – nid yw canllawiau penodol iawn yn briodol mwyach gan fod rhaglenni'n cael eu darparu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ar wahanol lwyfannau a dyfeisiau (ee setiau teledu clyfar, ffonau symudol), ac mae'r canllawiau hyn yn fwy tebygol o gael effaith yn ymarferol wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol. Er bod ein canllawiau'n argymell bod ffeiliau gwasanaethau mynediad yn cael eu rhannu fel rhan o gytundebau caffael cynnwys lle bo hynny'n ymarferol, rydyn ni wedi nodi'n glir na ddylai hyn ddigwydd ar draul bodloni safonau ansawdd (gweler 4.45 am ragor o fanylion)
- 4.15 Fodd bynnag, yn y Canllawiau newydd, rydyn ni wedi ceisio darparu rhagor o enghreifftiau o ffyrdd hygyrch a/neu gyffredin o gyflwyno a dangos gwasanaethau mynediad (er enghraifft defnyddio ffontiau a symbolau i ddangos cerddoriaeth mewn isdeitlau) ar gyfer unrhyw ddarparwyr neu gynulleidfa oedd a allai fod yn llai cyfarwydd â'r arddulliau hyn. Rydyn ni hefyd yn bwriadu trafod meysydd lle gallai rhagor o gysondeb fod yn ddefnyddiol yn y gweithgor (er enghraifft cyflwyniad rhyngwynebau defnyddwyr).

---

<sup>12</sup> Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i annog darlledwyr a gwasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n cael eu rheoleiddio i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer hygyrchedd – gweler ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu (2.3 a 7.2) ac adran 368C(2) o [Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#). Yn ein cod newydd ar gyfer gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu, rydyn ni wedi ychwanegu ein bod yn annog darlledwyr i gyfeirio at ein canllawiau arferion gorau i gael cyngor ar ddatblygu eu cynlluniau gweithredu (gweler 7.3 yn ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer teledu)

- 4.16 Rydyn ni'n disgwyl i'r gweithgor helpu i hwyluso ymgynghoriad rhwng cynrychiolwyr defnyddwyr a darparwyr er mwyn i'r arferion gorau barhau i ddatblygu yn unol â blaenoriaethau'r gynulleidfa. Er bod y gweithgor yn debygol o fod yn cynnwys darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio yn bennaf, byddwn yn ceisio cynnwys partïon eraill sy'n ymwneud â thaith y cwsmer mewn sgysiau perthnasol, gan gynnwys gwneuthurwyr dyfeisiau.
- 4.17 Ar ben hynny, rydyn ni'n disgwyl ystyried mesurau posib i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys hygyrch wrth weithredu gofynion perthnasol yn y [Bil Cyfryngau](#) pan fydd yn dod yn gyfraith. Bydd y rhain yn cynnwys gofynion hygyrchedd newydd ar rai gwasanaethau VoD (gan gynnwys gofynion i sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael am y cymorth i bobl anabl) ynghyd â gofynion newydd ar rai darparwyr llwyfannau (yn debygol o gynnwys setiau teledu clyfar poblogaidd a blychau pen-set) i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl. Rydyn ni'n disgwyl ymgynghori ar Godau newydd sy'n nodi sut gall darparwyr perthnasol gydymffurfio â'r gofynion hyn ([gweler map gweithredu'r Bil Cyfryngau](#)).
- 4.18 Rydyn ni'n bwriadu parhau i adolygu ein dull o fonitro ansawdd gwasanaethau mynediad, drwy ymgynghori â'r gweithgor. Nodwn fod y Bil Cyfryngau yn cynnwys darpariaethau a fydd yn mynnu bod darparwyr VoD perthnasol yn adrodd i Ofcom bob blwyddyn ar y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau ansawdd a defnyddioldeb y dulliau o wneud eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl.

## Deall cynulleidfaoedd

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.19 Roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr wneud eu rhaglenni'n fwy hygyrch i bobl ag anableddau eraill, ar wahân i bobl ddall a phobl sy'n colli eu golwg, a phobl F/fyddar a phobl sy'n colli eu clyw. Er mai'r grwpiau olaf hyn yw prif ffocws y Canllawiau hyn o hyd, rydyn ni am annog darparwyr i ystyried anghenion a dewisiadau cynulleidfaoedd ag anableddau eraill, fel anableddau gwybyddol, niwroddatblygiadol a chymhleth<sup>13</sup>.
- 4.20 Roedden ni hefyd wedi annog darparwyr i ystyried manteision ehangach gwasanaethau mynediad i bob gwyliwr. Er enghraifft, cynulleidfaoedd yn defnyddio isdeitlau wrth wyllo mewn amgylcheddau swnllyd neu gyhoeddus, neu blant yn eu defnyddio i wella lefelau llythrennedd.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.21 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein dull o ehangu cwmpas y Canllawiau i gynnwys pobl ag anableddau ar wahân i golli golwg/clyw. Fodd bynnag, dywedodd Channel 4, er ei fod yn credu'n gryf mewn gwneud rhaglenni'n hygyrch i gynulleidfa mor eang â phosib, dylai darlledwyr edrych ar y canllawiau hyn i gael cyngor manwl ar y gwasanaethau mynediad craidd sy'n cael eu rheoleiddio a'i bod yn bwysig cofio am y prif gynulleidfaoedd y mae'r gwasanaethau'n cael eu creu ar eu cyfer.

---

<sup>13</sup> [Roedd rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020](#) yn gwneud newidiadau i'n dyletswyddau rheoleiddio. Bellach mae gan Ofcom ddyletswydd i ddarparu canllawiau ar sut mae hybu dealltwriaeth a mwynhad pobl anabl o deledu yn gyffredinol ac yn benodol gan bobl sy'n colli eu golwg a/neu eu clyw.



- 4.22 Dywedodd yr Elusen Makaton fod bwlch o hyd o ran bodloni anghenion yr 1.5 miliwn o bobl ag awtistiaeth, anabledau dysgu a heriau cyfathrebu cymhleth eraill, ac roedd yn argymhell ystyried yr anghenion hyn wrth ddylunio gwasanaethau mynediad.
- 4.23 Roedd ein hymchwil yn archwilio sut mae cynulleidfaoedd sydd â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol yn defnyddio gwasanaethau mynediad i wella eu hymgysylltiad â chynnwys, a'u dealltwriaeth ohono. Er enghraifft, roedd isdeitlau yn cael eu defnyddio gan gyfranogwyr yn y grwpiau hyn i'w helpu i ddilysu'r hyn roedden nhw'n ei glywed, i gadw gwybodaeth, a/neu i wella eu darllen neu eu sillafu. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn defnyddio disgrifiadau sain er mwyn deall yn well beth oedd yn digwydd yn weledol yn y rhaglen, er enghraifft drwy adnabod emosiynau neu iaith y corff (gweler Adran 3.1.4 o'n hymchwil am ragor o fanylion).
- 4.24 Yn fwy cyffredinol, cyfeiriodd S4C at fantais isdeitlau o ran helpu cyfran o'u cynulleidfa i ddysgu Cymraeg.

## Ein barn

- 4.25 Mae ein canllawiau'n canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethu pobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar, a phobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall, gan bwysleisio y dylid canolbwyntio'n bennaf ar y grwpiau hyn wrth ddarparu gwasanaethau mynediad i fodloni'r cwotâu statudol. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig cynnwys cyflyrau eraill yn y canllawiau, yn enwedig gan fod gan rai cynulleidfaoedd sydd â chyflyrau synhwyraidd gyflyrau gwybyddol hefyd o bosib (yn enwedig cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran o ystyried bod nifer yr achosion o gyflyrau golwg a chlyw yn cynyddu gydag oedran).
- 4.26 Mae ein hymchwil yn rhoi cipolwg defnyddiol ar sut mae pobl â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol yn defnyddio gwasanaethau mynediad, a'u dewisiadau yn hynny o beth. Rydyn ni'n gobeithio y gall fod yn sbardun ar gyfer gweithgarwch yn y diwydiant i archwilio dewisiadau ymhellach ymysg y rheini sydd ag amrywiaeth o anabledau.
- 4.27 Rydyn ni wedi cynnal ein canllawiau arfaethedig i ddarparwyr ystyried anghenion pobl ag anabledau eraill ar wahân i gyflyrau golwg a chlyw. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu dolen o'r adran hon o'r canllawiau at ein hymchwil cynulleidfa i gael rhagor o wybodaeth am fanteision gwasanaethau mynediad i bobl â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol.
- 4.28 Er bod y drefn reoleiddio dim ond yn ymwneud â darparu gwasanaethau mynediad i bobl anabl, gall ein canllawiau dynnu sylw at fanteision ehangach gwasanaethau mynediad i bob gwylwr. Rydyn ni wedi ychwanegu y gallai isdeitlau hefyd helpu pobl sy'n dysgu iaith newydd (fel yr archwiler yn yr erthygl ymchwil hon<sup>14</sup> ac y crybwyllwyd gan S4C).

## Dewis a phersonoli

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.29 Gan fod anghenion a dewisiadau unigolion anabl yn debygol o amrywio, roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr gynnig dewisiadau personoli (er enghraifft mewn perthynas â maint a chyflwyniad isdeitlau) a dewis i wylwyr (fel darparu cyflwyniadau dewisol i raglenni â

<sup>14</sup> Gweler Patrícia Albergaria Almeida, Patrícia Dinis Costa, Foreign Language Acquisition: The Role of Subtitling, *Procedia - Social and Behavioral Sciences*, Cyfrol 141, 2014, Tudalennau 1234-1238, ISSN 1877-0428, <https://doi.org/10.1016/j.sbspro.2014.05.212>

disgrifiadau sain) lle bo hynny'n ymarferol, gan sicrhau ar yr un pryd bod y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio. Rydyn ni'n argymhell defnyddio gosodiadau diofyn neu awtomatig, lle mae dewisiadau hygyrchedd yn cael eu cofio.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.30 Yn gyffredinol, roedd grwpiau defnyddwyr yn cefnogi ein hargymhellion ynghylch darparu opsiynau personoli ar gyfer gwasanaethau mynediad. Cyfeiriodd RNID at ganfyddiadau o'i [arolwg Subtitle It](#), er enghraifft bod 67% o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig newid maint isdeitlau ar eu teledu a bod 72% o ddefnyddwyr BSL yn teimlo ei bod yn bwysig gallu newid maint y dehonglydd ar eu teledu a'u ffôn symudol.
- 4.31 Dangosodd ein hymchwil werth personoli i gyfranogwyr, gan gynnwys ar gyfer cyflwyno isdeitlau, disgrifiadau sain (lefelau sain) ac iaith arwyddion (maint). Roedd gan lawer wahanol ddewisiadau o ran cyflwyniad gwasanaethau mynediad ac roedd hi'n well ganddynt allu personoli'r gwasanaethau mynediad i gyd-fynd â'u hanghenion unigol (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil am ragor o fanylion). Roedd hi hefyd yn well gan gyfranogwyr bod gwasanaeth neu lwyfan yn cofio eu dewis o wasanaeth mynediad a'u dewisiadau personoli.
- 4.32 Dywedodd NADP y gall gosodiadau teledu fod yn gymhleth i gynulleidfaeod hŷn ac y dylai dewis syml, diofyn fod ar gael ac y byddai modd personoli drwy adeiladu arno.
- 4.33 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at heriau o ran darparu dewisiadau personoli ar lwyfannau penodol. Dywedodd Channel 4 fod angen archwilio'r gallu i bersonoli gwasanaethau hygyrchedd ar deledu sy'n cael ei ddarparu ar y cyd â gwneuthurwyr dyfeisiau, gan ei fod allan o ddwylo darparwyr.
- 4.34 Dywedodd y BBC ei bod hi'n rhy gynnar cynnwys cyfryngau seiliedig ar wrthrychau yn y Canllawiau a mynegodd bryderon ynghylch systemau'n gallu cyfnewid dewisiadau defnyddwyr o ran hygyrchedd a phersonoli a bod hynny'n cael ei ddefnyddio i adnabod unigolion.
- 4.35 Hefyd, roedd ein hymchwil wedi canfod bod rhai cyfranogwyr yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth mynediad ar yr un pryd (gweler adran 3.2.2 o'n hymchwil). Er enghraifft, roedd rhai defnyddwyr BSL yn defnyddio isdeitlau ac iaith arwyddion ar yr un pryd i ddilysu eu dealltwriaeth o'r cynnwys, ac roedd rhai cyfranogwyr sy'n colli eu golwg a'u clyw yn defnyddio disgrifiadau sain ochr yn ochr ag isdeitlau.

## Ein barn

- 4.36 Rydyn ni'n cydnabod nad oes gan ddarparwyr bob amser yr opsiwn i ddarparu adnoddau personoli, yn enwedig ar lwyfannau teledu sy'n cael eu darlledu, ac nad yw cyfryngau seiliedig ar wrthrychau heb gostau masnachol a chymhlethdod<sup>15</sup>. Fodd bynnag, dylai ein Canllawiau edrych tua'r dyfodol a hybu datblygiadau mewn technoleg i helpu i gyflawni canlyniadau allweddol i gynulleidfaeod. Er bod y Canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at ddarlledwyr a darparwyr ar-alw, rydyn ni'n cydnabod bod llawer o'r cyfrifoldeb dros ddatblygiad technolegol yn ymestyn i wneuthurwyr dyfeisiau/meddalwedd ac rydyn ni'n disgwyl eu cynnwys yn y gweithgor lle bo hynny'n berthnasol (gweler 4.16 uchod).
- 4.37 Rydyn ni'n ymwybodol o bryderon preifatrwydd mewn perthynas â chasglu data defnyddwyr ar ofynion hygyrchedd a dewisiadau personoli. Dylai darparwyr geisio eu cyngor eu hunain

---

<sup>15</sup> [Adroddiad cyfryngau seiliedig ar wrthrychau \(ofcom.org.uk\)](#)

yn hyn o beth ac rydyn ni wedi atgoffa darparwyr y dylent fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan gyfraith diogelu data wrth gasglu'r data hwn.

- 4.38 Yng ngoleuni canfyddiadau ein hymchwil, rydyn ni wedi annog darparwyr i geisio caniatáu i wylwyr ddefnyddio mwy nag un gwasanaeth mynediad ar yr un pryd ar raglen benodol.

## Nifer y rhaglenni hygyrch

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.39 Roedden ni'n cynnig annog darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau mynediad cyn belled ag y bo modd, gan ystyried y ffordd orau o gydbwysu eu buddsoddiad rhwng ansawdd a nifer y rhaglenni hygyrch. Roedden ni'n credu y gallai cynnwys ffeiliau gwasanaethau mynediad fel rhan o brosesau caffael/gwerthu cynnwys helpu i gynyddu argaeledd cynnwys hygyrch.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.40 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ein hymchwil am weld rhagor o gynnwys â disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ar gael ar draws gwasanaethau teledu a VoD (gweler adran 3.4.1 o'n hymchwil). Mewn ymateb i'n hymgyngoriad, awgrymodd BSLBT y gallai ein canllawiau annog darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth o gynnwys â disgrifiadau sain ac iaith arwyddion yn benodol.
- 4.41 Fodd bynnag, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at heriau cynnwys ffeiliau gwasanaethau mynediad mewn cynigion caffael cynnwys gan nad yw'r ffeiliau hyn yn gallu cael eu defnyddio gan y darparwr caffael ar eu ffurf bresennol yn aml. Dywedodd Channel 4 y gall yr ail-weithio sydd ei angen i ffeiliau o'r fath olygu nad oes llawer o wahaniaeth rhwng hynny a'r gwaith o greu ffeiliau gwasanaethau mynediad o'r newydd. Dywedodd y BBC a BT y dylid cytuno ar fformatau technegol ar gyfer ffeiliau gwasanaethau mynediad ar lefel diwydiant. Dywedodd BT y dylai ein Canllawiau gynnwys argymhelliad i'r diwydiant gydweithio ar safoni.
- 4.42 Mewn perthynas â disgrifiadau sain, nododd RNIB y gallai fod angen ailolygu traciau sy'n cael eu caffael i gadw at reolau'r trothwy neu i fewnosod hysbysebion, ond y byddai rhannu sgrïpt ac amseru disgrifiadau sain ochr yn ochr â gwasanaethau mynediad (gan ddefnyddio fformat ffeil testun wedi'i amseru sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer traciau isdeitlo o bosib) yn lleihau'r gwaith dyblyg. Dywedodd RNIB hefyd y dylai Ofcom argymhell bod traciau a sgrïptiau gwasanaethau mynediad a ddefnyddir i'w creu fod ar gael ar delerau FRAND (Teg, Rhesymol a Heb Wahaniaethu).
- 4.43 O ran iaith arwyddion, nododd BSLBT fod iaith arwyddion yn amrywio rhwng gwledydd ac felly efallai y bydd angen cyfieithu rhaglenni sy'n cael eu caffael o wlad arall i BSL o hyd. Dywedodd RNIB fod darlledwyr wedi wynebu rhwystrau rhag creu sioeau ag iaith arwyddion oherwydd nad oedd cytundebau caffael yn caniatáu mwy nag un fersiwn o raglen sy'n cael ei chynnal ar lwyfannau VoD, ac roedd yn awgrymu y dylai'r Canllawiau gydnabod y dylai cytundebau caffael ganiatáu creu fersiynau ag iaith arwyddion.

## Ein barn

- 4.44 Nodwn y gall ystyriaethau ynghylch buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau mynediad fod yn wahanol i ddarlledwyr sydd eisoes yn darparu isdeitlau ar bron pob un o'u rhaglenni o'i gymharu â ddarlledwyr llai, nad ydynt yn darparu unrhyw isdeitlau eto. Fodd bynnag, rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried canfyddiadau ein hymchwil ynghylch cyfranogwyr sy'n dymuno gweld rhagor o gynnwys â disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.
- 4.45 Credwn y dylai ystyriaethau hygyrchedd fod yn rhan annatod o negodi cytundebau cynnwys. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno bod caffael ffeiliau dim ond yn ddefnyddiol pan fydd yn lleihau gwaith dyblyg, ac rydyn ni wedi diweddarau ein Canllawiau i hybu rhannu ffeiliau yn yr amgylchiadau hyn yn unig. Rydyn ni hefyd wedi cydnabod efallai y bydd angen i ddarparwyr olygu rhai o'r ffeiliau sy'n cael eu caffael er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'u gwasanaeth ac yn bodloni safonau ansawdd.
- 4.46 Yn unol â chyngor RNIB, rydyn ni hefyd wedi ychwanegu y gallai cynnwys sgriptiau ac amseru fel rhan o ffeiliau gwasanaethau mynediad helpu i leihau gwaith dyblyg.
- 4.47 Ein nod yw canolbwyntio ein Canllawiau ar ganlyniadau allweddol yn hytrach na rhoi cyngor penodol ar sut y dylid eu cyflawni. Felly, nid ydym yn credu mai diben ein Canllawiau yw rhoi cyngor ar delerau cytundebau masnachol nac ar safoni fformatau. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod amrywiaeth fformatau ffeiliau yn dal yn rhwystr rhag cynyddu faint o gynnwys hygyrch sydd ar gael ar wahanol wasanaethau a llwyfannau, ac rydyn ni'n bwriadu galluogi trafodaethau ar draws y diwydiant ar safoni.
- 4.48 Hyd yn oed pan nad oes ffeiliau gwasanaethau mynediad ar gael gyda chynnwys, rydyn ni'n credu y dylai darparwyr barhau i ystyried anghenion hygyrchedd wrth negodi cytundebau, er enghraifft drwy sicrhau bod modd creu fersiynau ychwanegol ag iaith arwyddion o raglenni ar gyfer llwyfannau VoD neu ddarlledu. Rydyn ni wedi diweddarau ein Canllawiau i adlewyrchu hyn.

## Mathau o raglenni hygyrch

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.49 Roedden ni wedi annog darparwyr i ystyried ffyrdd ychwanegol o wella hygyrchedd eu rhaglenni y tu hwnt i ddarparu'r gwasanaethau mynediad angenrheidiol, fel gwneud rhaglenni yn Makaton a'i gwneud hi'n haws clywed deialog.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.50 Soniodd ymatebwyr am fanteision dulliau amgen o wneud rhaglenni'n hygyrch, gan gynnwys ei gwneud hi'n haws clywed deialog a theilwra lefelau sain mewn rhaglenni (RNID, NADP, ymatebydd unigol). Cyfeiriodd y BBC hefyd at eu canllawiau cynhyrchu sydd wedi llwyddo i'w gwneud hi'n haws clywed lleferydd o ran arddull cymysgu ac ansawdd sain cyffredinol. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, cyfeiriodd rhai darparwyr at y cyfyngiadau presennol mewn technoleg o ran caniatáu i ddefnyddwyr addasu lefelau sain rhaglenni. Hefyd, dywedodd Channel 4 y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â chreu ffrydiau sain ychwanegol o'r fath fod yn rhwystr rhag eu mabwysiadu'n ehangach.
- 4.51 Dywedodd yr Elusen Makaton y dylid cael amrywiaeth ehangach o raglenni yn Makaton wedi'u targedu at unigolion o bob grŵp oedran, gan gynnwys plant hŷn ac oedolion ag

anghenion cyfathrebu cymhleth. Fodd bynnag, dywedodd BSLBT a'r Elusen Makaton y dylem egluro mai rhaglen gyfathrebu yw Makaton yn hytrach nag iaith, a dywedodd Channel 4 y gallai'r cyfeiriad at Makaton achosi dryswch ynghylch yr hyn sy'n cyfrif tuag at y targedau iaith arwyddion.

- 4.52 Ar wahân i wneud rhaglenni'n hygyrch, dywedodd NADP a GALMA y dylai cynnwys perthnasol arall fod ar gael, gan gynnwys cyhoeddiadau rhaglenni, hysbysebion a rhagflasau rhwng cynnwys wedi'i amserlennu.

## Ein barn

- 4.53 Fel yr amlinellwyd uchod, dylai'r Canllawiau hyn edrych tua'r dyfodol a hybu datblygiadau mewn technoleg (er enghraifft ar gyfer addasu lefelau sain) er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod angen i ddarparwyr fabwysiadu dull gweithredu cymesur ac nad oes ganddynt adnoddau diderfyn. Rydyn ni wedi ychwanegu canllaw arferion gorau'r BBC ar gyfer cymysgu sain at ein rhestr o adnoddau allanol (gweler 4.132).
- 4.54 Er ein bod yn dymuno annog pobl i ddefnyddio Makaton a systemau arwyddion eraill yn wirfoddol, credwn mai BSL ddylai fod yr iaith ddiofyn ar gyfer cyrraedd y targedau statudol ar gyfer iaith arwyddion (gweler 5.11 yn y Canllawiau). Rydyn ni wedi egluro bod Makaton yn rhaglen gyfathrebu sy'n defnyddio llyferydd, arwyddion a symbolau (ac na ddylid drysu rhwng Makaton a BSL). Rydyn ni hefyd wedi egluro ei fod ar gyfer pobl o bob oed sydd ag anawsterau dysgu a chyfathrebu, er mwyn annog darparwyr i ystyried cynnig Makaton ar draws ystod ehangach o raglenni.
- 4.55 Mae'r cwotâu hygyrchedd darlledu yn berthnasol i'r holl gynnwys teledu ac eithrio hysbysebion (ac unrhyw gynnwys arall sydd wedi'i eithrio)<sup>16</sup>. Fodd bynnag, ein nod yw annog darparwyr i ystyried profiad cyfan defnyddwyr wrth gael gafael ar gynnwys a'i wlyio. Felly, rydyn ni wedi ychwanegu hysbysebion fel enghreifftiau pellach o ystyriaethau ehangach ar gyfer gwella hygyrchedd teledu. Gwyddom fod ISBA (Cymdeithas Gorfforedig Hysbysebwr Prydain), elusennau fel RNIB ac RNID, a rhai darlledwyr eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant hysbysebu i gefnogi hygyrchedd hysbysebion teledu (mae dolen yn ein Canllawiau at ganllaw [hysbysebu hygyrch](#) ISBA)

## Technoleg newydd

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.56 Roedden ni wedi dweud ein bod yn agored i ddefnyddio gwahanol dechnolegau i gynhyrchu gwasanaethau mynediad, ond y dylai darparwyr sicrhau bod mabwysiadu technolegau newydd yn gwella ansawdd gwasanaethau mynediad, yn hytrach na'i leihau.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.57 Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr sut y gallai datblygu technolegau newydd effeithio ar y gwaith o gynhyrchu gwasanaethau mynediad yn y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriodd llawer o

---

<sup>16</sup> Mae Adran 405 o'r [Ddeddf Cyfathrebiadau](#) yn darparu bod 'rhaglen' yn cynnwys hysbyseb ac, mewn perthynas â gwasanaeth, unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth hwnnw. Mae adran 303(13) yn eithrio hysbysebion o ystyr rhaglen at ddiben yr adran honno.

ymatebwyr at y manteision a'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig drwy ddatblygu technolegau newydd (er enghraifft, drwy leihau oedi mewn rhaglenni byw ag isdeitlau o bosib neu drwy gynyddu faint o gynnwys hygyrch sydd ar gael), er bod y rhan fwyaf yn cydnabod bod rôl bwysig o hyd i fewnbwn dynol a rheolaeth ansawdd ar draws y tri gwasanaeth mynediad. Cyfeiriodd rhai (BSLBT, Red Bee Media, NADP, ymatebydd unigol) hefyd at bwysigrwydd cydweithio agos â grwpiau defnyddwyr perthnasol wrth i dechnoleg ddatblygu. I gael rhagor o fanylion am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddatblygiadau technolegol, edrychwch ar ein [hymatebion cyhoeddedig](#).

- 4.58 Roedden ni hefyd wedi edrych ar y defnydd o dechnolegau newydd yn ein hymchwil cynulleidfa, er enghraifft barn cyfranogwyr ar ddefnyddio lleisiau synthetig ar gyfer disgrifiadau sain (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil am ragor o fanylion).
- 4.59 Mewn perthynas â'n canllawiau arfaethedig, sef y dylai technolegau newydd 'wella ansawdd gwasanaethau mynediad', dywedodd ITV efallai nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng mabwysiadu technoleg newydd ac ansawdd, ac y gallai'r angen i 'wella' ansawdd gyfyngu ar arloesi. Dywedodd y BBC y dylai Ofcom ddarparu mwy o eglurder ynghylch disgrifiadau o ran ansawdd, ac addasrwydd gwahanol atebion technolegol (er enghraifft, ail-siarad ac ASR pur<sup>17</sup> ar gyfer isdeitlo) mewn gwahanol amgylchiadau, gan gynnwys cyd-destun byw o'i gymharu â recordio ymlaen llaw.

## Ein barn

- 4.60 Rydyn ni'n cytuno ag ITV na ddylid disgwyl i dechnolegau newydd 'wella' ansawdd bob amser; er y gallai rhai technolegau newydd wella agweddau ar ansawdd, gall eraill gynnig lefelau tebyg o ansawdd ond darparu arbedion effeithlonrwydd sy'n caniatáu rhagor o gynnwys hygyrch. Felly, rydyn ni wedi diwygio ein Canllawiau i nodi y dylai darparwyr sicrhau nad yw mabwysiadu technolegau newydd yn arwain at wasanaethau mynediad o ansawdd is. Rydyn ni hefyd yn parhau i atgoffa darlledwyr bod angen i wasanaethau mynediad gyrraedd ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at y targedau statudol.
- 4.61 Fel yr amlinellwyd uchod, rydyn ni'n bwriadu edrych ar ddatblygiadau mewn technoleg a'r effeithiau posib ar ansawdd fel rhan o'r gweithgor arfaethedig. Yn unol â'n dymuniad i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na'r ffyrdd o'u cyflawni, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol nodi'r defnydd o dechnolegau penodol mewn amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, rydyn ni wedi defnyddio'r canllawiau i atgoffa darparwyr y gall gwahanol fathau o raglenni olygu bod angen gwahanol ddulliau gweithredu, er enghraifft blaenoriaethu cywirdeb dros oedi wrth ddarparu gwybodaeth bwysig (gweler 5.26).
- 4.62 Mae ein canllawiau eisoes yn annog darparwyr i ymgynghori'n rheolaidd â'u cynulleidfa oedd a/neu grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl i lywio eu darpariaeth. Dylai hyn gynnwys ymgynghori ar ddefnyddio technolegau gwahanol a/neu newydd, yn enwedig lle mae effaith ar ansawdd neu gyflwyniad gwasanaethau mynediad.

---

<sup>17</sup> Ystyr ASR (Adnabod Llais Awtomatig) yw defnyddio technoleg Dysgu Peiriannol neu Ddeallusrwydd Artiffisial i brosesu lleferydd pobl mewn fformat ysgrifenedig.

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.63 Roedden ni'n cynnig ychwanegu at ein Canllawiau blaenorol ar ddewis ac amserlennu rhaglenni, sef y dylai darparwyr flaenoriaethu gwneud achlysuron o bwysigrwydd cenedlaethol yn hygyrch gydag isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain.
- 4.64 Roedden ni'n cynnig ychwanegu y dylai darparwyr wneud pob ymdrech i ychwanegu gwasanaethau mynediad at raglenni ar-alw cyn gynted ag y byddant ar gael.
- 4.65 Roedden ni hefyd yn cynnig, pan fydd cyfres o raglenni'n dechrau gyda gwasanaethau mynediad, y dylai darparwyr wneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl raglenni yn y gyfres dan sylw yn hygyrch.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.66 Roedd nifer o ymatebwyr (darparwyr a grwpiau defnyddwyr) am gael rhagor o eglurder gan Ofcom ynghylch ystyr 'adegau o bwysigrwydd cenedlaethol'. Rhoddodd RNIB ac RNID enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a ddylai fod yn gymwys yn eu barn nhw, a oedd yn cynnwys cyhoeddiadau arwyddocaol gan y Llywodraeth, digwyddiadau chwaraeon mawr (gan gynnwys y digwyddiadau a restrir yng Nghod Ofcom ar Chwaraeon), digwyddiadau diwylliannol ar raddfa fawr, digwyddiadau sy'n sbarduno gŵyl banc ychwanegol a digwyddiadau byw ar y teledu. Awgrymodd Channel 4 y gellid ehangu 'adegau o bwysigrwydd cenedlaethol' i adegau neu ddigwyddiadau sy'n bwysig iawn o ran brand i'r darparwr, a allai annog darparwyr i geisio gwneud eu holl ganghennau rhaglenni'n hygyrch, gan sicrhau bod unrhyw ddiffiniad yn cynrychioli diddordebau gwahanol grwpiau oedran a chynulleidfaoedd amrywiol o ran genre. Dywedodd S4C y gallai 'adegau' o bwysigrwydd cenedlaethol fod yn bwysicach i gynulleidfaoedd rhai darlledwyr nag eraill.
- 4.67 Cyfeiriodd rhai darparwyr at gyfyngiadau o ran eu gallu i ychwanegu disgrifiadau sain a/neu iaith arwyddion at ddigwyddiadau byw ar y teledu, gan ddweud eu bod yn ystyried yr hyn sy'n cael ei ddarparu gan ddarlledwyr mawr eraill wrth flaenoriaethu darpariaeth.
- 4.68 Roedd grwpiau defnyddwyr (RNIB ac RNID) yn croesawu'r argymhelliad i ddarparwyr wneud pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys teledu yn hygyrch cyn gynted ag y bydd ar gael ar wasanaethau VoD. Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil a oedd yn defnyddio disgrifiadau sain yn dweud eu bod yn rhwystredig gyda rhai darlledwyr yn darparu disgrifiadau sain yn hwyr ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu llwytho i fyny i'w gwasanaeth dal i fyny (gweler adran 3.4.1 o'n hymchwil). Tynnodd rhai sylw at y ffaith, pan fydd cyfresi cyfan ar gael ar-lein, mai dim ond ar ôl i bennod gael ei darlledu ar y teledu y mae disgrifiadau sain wedi cael eu hychwanegu'n aml.
- 4.69 Dywedodd RNID y dylai defnyddwyr BSL allu cael gafael ar y fersiwn ar-alw ag iaith arwyddion ar yr un pryd ag y mae'r fersiwn heb iaith arwyddion yn cael ei llwytho i fyny, yn hytrach nag aros i'r fersiwn ag iaith arwyddion fod ar gael ar deledu sy'n cael ei ddarlledu (a all fod yn hwyrach). Cytunodd y BBC y dylai darlledwyr wneud eu gorau i gyflawni hyn ond nododd y gall fod goblygiadau sylweddol o ran cost a logisteg. Dywedodd RNID hefyd y dylid annog gwasanaethau ar-alw sy'n cael eu rheoleiddio i gadw cynnwys ag iaith arwyddion ar eu gwasanaeth am gyn hired â phosib.

- 4.70 O ran dewis rhaglenni'n ehangach, dywedodd RNID y dylai fod yn flaenoriaeth cynnwys iaith arwyddion ar raglenni sydd â chymeriadau byddar. Dywedodd fod cynrychiolaeth ar deledu prif ffrwd yn arwyddocaol i aelodau o'r gymuned Fyddar ond yn aml nid yw'r sioeau ar gael gyda dehongliad BSL.
- 4.71 Roedd ymatebydd unigol yn credu y dylai pob rhaglen mewn cyfres gynnwys disgrifiadau sain, yn hytrach na dim ond cyfres ddiweddaraf rhaglen.

## Ein barn

- 4.72 Rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried yr enghreifftiau o 'adegau o bwysigrwydd cenedlaethol' sydd wedi'u darparu gan RNIB ac RNID. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen i ddarparwyr fabwysiadu dull cymesur, gan ystyried y budd tebygol i'w cynulleidfa benodol a'r adnoddau/gallu technegol sydd ar gael. Gall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn bwysigrwydd cenedlaethol newid dros amser a gall disgwyliadau amrywio yn ôl gwasanaeth. Felly, er nad ydym yn credu ei bod yn briodol nodi enghreifftiau o 'adegau o bwysigrwydd cenedlaethol' yn y Canllawiau, gallwn drafod hyn ymhellach yn y gweithgor (gweler 2.11).
- 4.73 Nid ydym chwaith yn bwriadu ehangu'r diffiniad o 'adegau o bwysigrwydd cenedlaethol' i nodi digwyddiadau o bwysigrwydd mawr i'r 'brand', a allai awgrymu cynnwys sydd o bwysigrwydd tymor hirach i ddarparwyr (yn hytrach na chynulleidfaoedd). Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno y dylai darparwyr ystyried blaenoriaethu'r agweddau hynny ar allbwn eu sianel sydd bwysicaf i'w cynulleidfaoedd. Felly, rydyn ni wedi diwygio'r argymhellion yn yr adran hon i nodi y dylai darparwyr ofyn am gyngor gan grwpiau anabledd/'arbenigwyr ac ystyried dewisiadau cynulleidfaoedd' wrth flaenoriaethu rhaglenni (yn ogystal ag ystyried yr ystyriaethau eraill a nodir yn ein Canllawiau).
- 4.74 Rydyn ni'n cytuno y dylai cynulleidfaoedd allu gwyllo cynnwys ag iaith arwyddion ar-alw cyn gynted ag y bydd y fersiwn wreiddiol yn cael ei llwytho i fyny ar gyfer gwyllo ar-alw, yn enwedig gan fod cynnwys ag iaith arwyddion yn cael ei ddarlledu yn oriau mân y bore yn aml. Ar gyfer rhaglenni ag iaith arwyddion, rydyn ni wedi egluro y dylai darparwyr sicrhau bod fersiwn ag iaith arwyddion o raglen ar-alw ar gael ar yr un pryd â rhaglen heb iaith arwyddion. Mae faint o amser mae cynnwys ag iaith arwyddion yn aros ar wasanaeth yn fater rydyn ni'n disgwyl ei ystyried ymhellach fel rhan o'n hymgyngoriad ar y Cod i roi'r rheoliadau hygyrchedd VoD ar waith, gan gynnwys y targed arfaethedig newydd ar gyfer iaith arwyddion (gweler yr adran Cefndir).
- 4.75 Rydyn ni'n cytuno â'r RNID y dylai rhaglenni sy'n cynnwys cymeriadau b/Byddar fod yn hygyrch drwy gyfrwng iaith arwyddion lle bo hynny'n bosib ac rydyn ni'n credu bod yr egwyddor hon hefyd yn berthnasol yn fwy cyffredinol i helpu i sicrhau bod pobl ag anghenion mynediad yn gallu gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y sgrin (er enghraifft dylai rhaglen sy'n cynnwys actorion sy'n colli eu golwg neu sy'n ddall fod yn flaenoriaeth ar gyfer ychwanegu disgrifiadau sain). Felly, rydyn ni wedi ychwanegu at yr ystyriaethau ar gyfer blaenoriaethu rhaglenni i nodi y dylai darparwyr wneud pob ymdrech i ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys actorion/cyfranogwyr â gofynion hygyrchedd.
- 4.76 Rydyn ni'n cydnabod y rhwystredigaeth pan fydd lefelau gwasanaethau mynediad yn amrywio ar draws cyfresi o gynnwys, gan gydnabod y costau posib i ddarparwyr o ran cynnig gwasanaethau mynediad yn ôl-weithredol ar gyfresi rhaglenni mawr iawn (er enghraifft operâu sebon). Beth bynnag, mae ein canllawiau'n argymhell y dylai'r holl raglenni sy'n rhan



o gyfres fod yn hygyrch ac rydyn ni wedi egluro bod hyn yn berthnasol dim ots a ydynt yn ymddangos ar wasanaethau darlledu a/neu VoD.

## Argyfyngau cenedlaethol

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

4.77 Roedden ni'n cynnig ehangu ein canllawiau i nodi y dylid isdeitlo gwybodaeth sy'n cael ei darlledu am argyfyngau cenedlaethol a lleol er mwyn datgan y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar lafar ac ar ffurf iaith arwyddion. Fe wnaethom ddweud y dylai isdeitlau sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig fel dolenni a rhifau ffôn fod ar y sgrin yn ddigon hir i gynulleidfaeodd ysgrifennu'r manylion.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.78 Er bod grwpiau defnyddwyr a darparwyr yn cefnogi'r canllawiau arfaethedig ar sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei darlledu am argyfyngau cenedlaethol yn hygyrch, mynegodd rhai darparwyr bryderon ynghylch ymarferoldeb cyflawni hyn, er enghraifft oherwydd nad oes ganddynt y gallu parhaol i ddarparu cyfieithiad BSL neu ddisgrifiadau sain byw, ac roedden nhw am weld rhagor o hyblygrwydd yn y Canllawiau.
- 4.79 Dywedodd Channel 4 y gallai fod yn well bod cyhoeddiadau mewn argyfwng yn hygyrch i bobl ddall a phobl sy'n colli eu golwg drwy'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad, yn hytrach na darparu disgrifiadau sain (oherwydd efallai na fydd digon o le yn y trac sain i ychwanegu disgrifiadau sain neu efallai y byddai'n anymarferol cynhyrchu ffeil disgrifiadau sain ar amser yn dibynnu ar natur yr argyfwng).
- 4.80 Dywedodd RNID y dylai'r canllawiau ei gwneud hi'n glir y dylid darparu iaith arwyddion mewn BSL a bod angen i isdeitlau gyrraedd y safon uchaf bosib er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac nad oes dryswch.
- 4.81 Awgrymodd NADP fod y canllawiau'n mynd ymhellach, drwy argymhell bod dolenni neu rifau ffôn pwysig yn cael eu dangos yn glir ar y sgrin, yn hytrach na dim ond fel isdeitlau, a allai ddiflannu cyn i'r gwyliwr ysgrifennu'r wybodaeth i lawr.

### Ein barn

- 4.82 Rydyn ni'n dal yn credu y dylai gwneud gwybodaeth am argyfyngau cenedlaethol yn hygyrch fod yn flaenoriaeth allweddol. Ystyr 'ar lafar' yw y dylid egluro gwybodaeth weledol allweddol, p'un ai drwy integreiddio gwybodaeth berthnasol yng nghyhoeddiad y rhaglen neu ddarparu trac disgrifiadau sain ar wahân. Ystyr 'arwyddo' yw iaith arwyddion (lle mai BSL yw'r iaith ddiodyn) – rydyn ni wedi ychwanegu troednodyn at y defnydd cyntaf o 'arwyddo' yn y Canllawiau i egluro ei ddiffiniad.
- 4.83 Rydyn ni hefyd yn atgoffa darlledwyr, fel y nodir yn y Cod gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu, ei bod yn rhaid iddynt wneud unrhyw gyhoeddiad mewn argyfwng y mae Ofcom wedi'u cyfarwyddo i'w wneud ar gais y Llywodraeth yn hygyrch. Mae'r gofyniad hwn wedi'i nodi mewn deddfwriaeth (gweler 3.2-3.4). Rydyn ni'n cytuno y gall sicrhau cywirdeb isdeitlau fod yn arbennig o bwysig ar gyfer cyhoeddiadau mewn argyfwng (ynghyd â rhaglenni eraill lle mae gwybodaeth arbennig o bwysig yn cael ei chyfleu i gynulleidfaeodd). Mae cyfaddawd yn aml rhwng sicrhau cywirdeb a lleihau'r oedi mewn rhaglenni ag isdeitlau

byw, ac felly rydyn ni wedi ychwanegu llinell at yr adran isdeitlau i nodi y gallai fod yn briodol blaenoriaethu cywirdeb isdeitlau ar gyfer rhai rhaglenni, lle mae gwybodaeth arbennig o bwysig yn cael ei chyfleu i gynulleidfaoedd (fel cyhoeddiadau mewn argyfwng neu newyddion). Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer isdeitlo rhifau neu ddolenni perthnasol. Er ei bod yn bosib y bydd darparwyr hefyd yn dymuno cynnwys y wybodaeth hon ar y sgrin fel graffigyn, rydyn ni eisoes wedi argymhell bod yr isdeitlau'n aros ar y sgrin am ddigon o amser i'r wybodaeth gael ei hysgrifennu, ac felly'n ystyried bod hyn yn ddigonol.

## Codi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau mynediad

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.84 Roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr sicrhau bod eu cynulleidfaoedd yn ymwybodol o wasanaethau mynediad fel nodwedd gyffredinol ac mewn perthynas â'r argaeledd ar wasanaethau, llwyfannau a rhaglenni penodol. Fe wnaethom ddweud y dylent godi ymwybyddiaeth drwy amrywiaeth o ddulliau fel cyhoeddiadau ar yr awyr a gwybodaeth ar-lein. Roedden ni wedi dileu'r gofyniad rhagnodol o'r Canllawiau, sef y dylai rhaglenni ag isdeitlau gynnwys label 'isdeitlau' ar y sgrin ar ddechrau'r rhaglen.
- 4.85 Fe wnaethom ddarparu canllawiau ar gyfathrebu â chynulleidfaoedd pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le o ran darparu gwasanaethau mynediad, gan bwysleisio'r angen i gyfathrebu â chynulleidfaoedd perthnasol drwy amrywiaeth o ddulliau effeithiol.
- 4.86 Roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr ddarparu gwybodaeth (cyn y pwynt gwerthu) ynghylch i ba raddau mae eu gwasanaethau ar gael ar wahanol llwyfannau a dyfeisiau.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.87 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion i ddarparwyr godi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau mynediad ymysg eu cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, roedd rhai (S4C, NADP, RNID) yn anghytuno â'n cynnig i ddileu'r argymhelliad i ddarparwyr ddangos y gair 'isdeitlau' ar ddechrau rhaglen ag isdeitlau, a dywedodd RNID y gallai'r gair 'isdeitlau' fod yn ddefnyddiol o hyd i rai cynulleidfaoedd hŷn os ydynt wedi arfer ei ddefnyddio. Yn yr un modd, dywedodd un ymatebydd unigol, wrth gyflwyno rhaglen, y dylai'r sawl sy'n cyhoeddi ddweud ar lafar a oes disgrifiadau sain ar gael.
- 4.88 Er bod y wybodaeth hon ar gael ar yr EPG, roedd NADP yn cydnabod bod achosion lle mae'r EPG wedi rhoi gwybod am hyn yn anghywir. Roedd hefyd yn cyfeirio at arolwg (DTV4All) a oedd wedi canfod bod mwy o bobl yn dweud eu bod yn aros tan i'r rhaglen ddechrau i weld a oedd isdeitlau, yn hytrach na chyfeirio at y Canllaw Teledu.
- 4.89 Dywedodd un ymatebydd unigol y dylai darparwyr hysbysebu pryd y bydd fersiwn hygyrch o raglen ar gael ar eu llwyfannau VoD. Dywedodd RNID hefyd, pan fydd fersiynau prif ffrwd o raglenni ar gael ar adegau brig a bod fersiwn ag iaith arwyddion yn cael ei darlledu'n ddiweddarach, y tu allan i'r oriau gwyllo brig, y dylid cynghori darlledwyr i gyfeirio gwylwyr at y fersiwn ag iaith arwyddion neu at y cynnwys ag iaith arwyddion sydd wedi'i lwytho i fyny ar lwyfan VoD.
- 4.90 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n hargymhelliad ynghylch rhybuddio cynulleidfaoedd os bydd tarfu, a hynny mewn ffordd sy'n hygyrch iddynt (CCP-ACOD, Channel 4, NADP, RNID).

Nododd rhai ymatebwyr (BSLBT, RNID) y dylai gwybodaeth berthnasol hefyd fod mewn BSL ac mewn Cymraeg neu Saesneg clir (RNID).

- 4.91 Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r ychwanegiad arfaethedig, sef bod gwasanaethau am dâl yn cynnwys gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau mynediad cyn i bobl brynu. Cyfeiriodd RNID at eu hadroddiad [Subtitle It](#) a oedd wedi canfod bod 90% o'r bobl a holwyd yn teimlo y dylai gwasanaethau tanysgrifio ar-alw orfod dweud wrth gynulleidfaoedd faint o'u rhaglenni sydd ag isdeitlau cyn iddynt dalu, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

## Ein barn

- 4.92 Roedd ein canllawiau eisoes yn cynnig bod darparwyr yn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau mynediad drwy gyhoeddiadau achlysurol ar yr awyr. Yng ngoleuni adborth gan ymatebwyr, rydyn ni wedi disodli hyn â 'cyhoeddiadau ar yr awyr a thestun ar y sgrin'. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys dangos y gair 'isdeitlau' ar ddechrau rhaglen i ddangos presenoldeb isdeitlau, neu gyhoeddiad ar lafar bod disgrifiadau sain ar gael ar y rhaglen honno. Er ei bod yn bosib y bydd rhai darparwyr yn dymuno dangos i gynulleidfaoedd yn y modd hwn, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol gwneud yr argymhelliad hwn yn un rhagnodol gan fod y wybodaeth eisoes yn cael ei nodi ar lwyfannau VoD a drwy'r EPG18, gan ganiatáu i gynulleidfaoedd gael gwybod cyn ymgysylltu â'r rhaglen a yw'n hygyrch ai peidio.
- 4.93 Rydyn ni'n cytuno y byddai o fudd i gynulleidfaoedd pe bai darparwyr yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw fersiynau hygyrch eraill o raglen er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli allan os byddant yn cael eu darlledu ar adeg arall neu'n cael eu llwytho i fyny i'w llwyfan ar-alw. Rydyn ni wedi diwygio ein Canllawiau i annog darparwyr i roi gwybod i gynulleidfaoedd os bydd fersiwn hygyrch yn cael ei darlledu ar ddyddiad/amser gwahanol, neu'n cael ei llwytho i fyny i wasanaeth VoD.
- 4.94 Mae'n hanfodol bod pob cynulleidfa yn gallu cael gafael ar wybodaeth am argaeledd gwasanaethau mynediad a gwybodaeth sy'n ymwneud â tharfu ar y ddarpariaeth. Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd Byddar, mae'n bwysig bod darparwyr hefyd yn ystyried darparu cyfathrebiadau mewn BSL (yn enwedig pan fydd y wybodaeth yn arbennig o berthnasol i gynulleidfaoedd Byddar, er enghraifft os oes tarfu ar wasanaeth iaith arwyddion). Rydyn ni wedi diwygio ein Canllawiau i argymhell bod darparwyr yn ystyried y grŵp cynulleidfa yr effeithir arno ac yn teilwra cyfathrebiadau yn unol â hynny, er enghraifft drwy gynnwys cyfathrebiadau mewn iaith arwyddion neu Gymraeg/Saesneg clir. Gweler hefyd y newidiadau cysylltiedig i ofynion y Cod ar godi ymwybyddiaeth, a drafodir yn 3.14-3.16.

## Defnyddioldeb / Llywio i gynnwys hygyrch

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.95 Fe wnaethom ddarparu argymhellion newydd ar gyfer darparwyr VoD, gan eu hannog i ystyried nodwedddion fel hidlo a chategorïau cynnwys sy'n ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i

---

<sup>18</sup> Mae'r Cod yn mynnu bod darlledwyr yn darparu gwybodaeth gywir ac amserol am wasanaethau mynediad sydd ar gael i weithredwyr EPG sy'n rhestru eu gwasanaethau. Mae'r [Cod](#) EPG yn mynnu bod darparwyr EPG yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn rhestrau.

raglenni hygyrch. Roedden ni'n cynnig y dylai gwasanaethau mynediad fod yn hawdd eu troi ymlaen/diffodd drwy ddefnyddio symbolau neu, lle bo'n briodol, signalau clywadwy.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.96 Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein hargymhellion ynghylch ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i gynnwys, er enghraifft drwy hidlyddion neu categorïau cynnwys. Tynnodd BT sylw hefyd at bwysigrwydd defnyddwyr yn deall sut i sefydlu gwasanaethau hygyrchedd a defnyddio adnoddau llywio.
- 4.97 Dywedodd cyfranogwyr yn ein hymchwil eu bod yn teimlo bod adnoddau llywio (fel categorïau cynnwys a dewisiadau hidlo) ac adnoddau personoli yn ddefnyddiol, ac roedden nhw'n dymuno eu gweld ar gael yn gyson ar draws gwasanaethau VoD (gweler adran 3.2.2 o'n hymchwil). Fodd bynnag, nid oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o'r nodweddion hyn ac roedden nhw'n teimlo y dylai darparwyr wneud rhagor i'w hyrwyddo. Roedden nhw'n awgrymu bod darparwyr yn cynnig tiwtorialau (a thiwtorialau fideo) neu ganllawiau ar ble i ddod o hyd i adnoddau llywio a sut i'w defnyddio, yn ogystal â chyfathrebiadau rheolaidd dros e-bost i danysgrifwyr i roi gwybod iddynt am y nodweddion a'r canllawiau.
- 4.98 Ar ben hynny, roedd y cyfranogwyr yn dymuno gweld darparwyr yn defnyddio symbolau amlwg y gellir eu hadnabod i ddangos bod gwasanaethau mynediad ar gael ar-alw, gan ddweud y dylid defnyddio'r un symbolau ar draws llwyfannau.

## Ein barn

- 4.99 Roedd ein hymchwil yn tynnu sylw at y ffaith nad yw darparu gwasanaethau mynediad ac adnoddau i ddod o hyd i gynnwys hygyrch yn ddigonol os nad yw cynulleidfaoedd yn gwybod sut mae eu defnyddio neu ddod o hyd iddynt. Rydyn ni wedi diweddarau ein canllawiau i annog darparwyr i wella'r ddealltwriaeth o sut mae dod o hyd i raglenni hygyrch drwy adnoddau llywio (fel hidlo) a symbolau adnabod, yn ogystal â sut mae defnyddio'r nodweddion personoli sydd ar gael. Mae angen ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i ganllawiau ar sut mae defnyddio nodweddion hygyrchedd, a gwneud y canllawiau hynny'n hygyrch, gan ystyried yr ystod lawn o gynulleidfaoedd anabl.
- 4.100 Ar ben hynny, ac er mwyn sicrhau bod y symbolau sy'n cael eu defnyddio yn cael eu adnabod gan ddefnyddwyr, rydyn ni wedi ychwanegu y dylai darparwyr ddefnyddio symbolau amlwg, 'adnabyddus'. Fel yr amlinellwyd uchod, rydyn ni'n disgwyl ystyried ymhellach y mater o gysondeb o ran sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu dangos ar wasanaethau ar-alw fel rhan o'n hymgyngoriad ar god hygyrchedd ar-alw newydd (gweler [map gweithredu Bil Cyfryngau Ofcom](#)).
- 4.101 Rydyn ni am annog darparwyr i feddwl am ffyrdd arloesol o gyrraedd cynulleidfaoedd anabl ac o godi ymwybyddiaeth o adnoddau i ddod o hyd i gynnwys hygyrch a'i bersonoli. Yng ngoleuni ein hymchwil, rydyn ni wedi ychwanegu at ein rhestr o wahanol ddulliau cyfathrebu i gynnwys fideos hyrwyddo, tiwtorialau fideo ar-lein a gwybodaeth mewn e-byst i danysgrifwyr/defnyddwyr.
- 4.102 Er bod cysondeb o ran cyflwyniad rhyngwynebau defnyddwyr y tu hwnt i gwmpas y Canllawiau hyn, rydyn ni'n parhau i gefnogi ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion hyn. Rydyn ni wedi cynnwys dolen at [ganllawiau hygyrchedd](#) a defnyddioldeb y Grŵp Teledu Digidol (DTG) yn y rhestr o ffynonellau allanol (gweler 4.137) ac, fel yr amlinellwyd uchod, mae'r [Bil Cyfryngau](#) yn cyflwyno gofynion newydd ar rai darparwyr llwyfannau. Fel yr

esboniwyd uchod, rydyn ni hefyd yn bwriadu defnyddio ein gweithgor i drafod safoni posibl o ran llywio i gael mynediad at wasanaethau.

## Hygyrchedd ac Amrywiaeth wrth Gynhyrchu

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.103 Roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr a gwneuthurwyr cynnwys ystyried materion hygyrchedd yn gynnar yn y broses gomisiynu a chynhyrchu – fel sicrhau bod testun ar y sgrin mewn rhaglenni yn amlwg. Roedden ni hefyd yn hybu rhagor o gydweithio rhwng arbenigwyr hygyrchedd a thimau cynhyrchu cynnwys.
- 4.104 Roedden ni'n argymhell y dylai timau sy'n rhan o'r gwaith o wneud rhaglenni hygyrch adlewyrchu amrywiaeth eu cynulleidfaoedd er mwyn deall a bodloni eu hanghenion a'u dewisiadau'n llawn ac yn effeithiol.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.105 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n hargymhelliad y dylid ystyried materion hygyrchedd yn gynnar yn y broses gynhyrchu. Dywedodd GALMA y gall cydlynwyr mynediad fod yn ychwanegiad pwysig i oruchwylio'r holl faterion hygyrchedd ar draws cynyrchiadau. Er bod Paramount Global yn cytuno â'r egwyddor, roedd yn nodi, yn ymarferol, nad yw bob amser yn bosib nodi a fydd rhaglen yn addas ar gyfer disgrifiadau sain nes ei bod wedi'i chynhyrchu.
- 4.106 Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil yn credu y byddai'n haws cael lefel manylder disgrifiadau sain yn iawn pe baent yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r broses gynhyrchu o'r dechrau, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i ddisgrifwyr sain o blot a dewisiadau artistig y rhaglen (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil).
- 4.107 Roedd Channel 4 yn cefnogi'r argymhelliad am ragor o gydweithio rhwng y timau cynhyrchu ac arbenigwyr hygyrchedd, ond roedd yn awgrymu y dylai'r cydweithio hwn ddigwydd hefyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch amserlennu mewn perthynas â rhaglenni â disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, yn enwedig lle gallai'r rhaglenni fod yn berthnasol iawn i'r cynulleidfaoedd y mae'r gwasanaethau hynny wedi'u hanelu atynt. Roedd BSLBT hefyd yn cytuno â'n cynigion, gan nodi, er bod cydweithio ag arbenigwyr mynediad yn bwysig, y dylai'r timau cynhyrchu gynnwys pobl ag anabledau (er enghraifft cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, cyflwynwyr sy'n defnyddio iaith arwyddion). Gofynnodd GALMA i'n canllawiau fynd ymhellach drwy argymhell bod pobl anabl yn cael eu hyfforddi ar gyfer rolau mynediad.
- 4.108 Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig amrywiaeth yn gyffredinol (Channel 4, RNIB, RNID, ymatebydd unigol). Ar y llaw arall, roedd ITV yn anghytuno, ar y sail nad yw'n ymddangos bod amrywiaeth timau sy'n rhan o'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni hygyrch yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chanlyniadau hygyrchedd gwell i gynulleidfaoedd.
- 4.109 Awgrymodd y BBC y dylai Ofcom gyhoeddi gofynion cynhyrchu ar draws y diwydiant ynghylch cynyrchiadau cyfryngau hygyrch, a'u hanelu at gynhyrchwyr yn hytrach na darlledwyr a darparwyr VoD. Dywedodd Channel 4 y gallai adnoddau ar wahân ar draws y diwydiant ar gyfer comisiynwyr a chwmnïau cynhyrchu ddarparu arweiniad ar sicrhau bod rhaglenni'n cael eu dylunio gyda meddylfryd dylunio cynhwysol, ac awgrymodd bod Ofcom

yn ymgynghori â'r Prosiect Mynediad Teledu, cynghrair o ddeg darlledwr a ffrydiwr sy'n gweithio tuag at gynhwysiad anabledd gwell y tu ôl i'r camera.

## Ein barn

- 4.110 Rydyn ni'n deall y gallai fod angen gwneud rhai dewisiadau o ran hygyrchedd ar ôl creu'r cynnwys ei hun, ond cyn belled ag y bo modd, rydyn ni am annog darparwyr i ystyried materion hygyrchedd ac anghenion cynulleidfaoedd anabl o'r cychwyn cyntaf i liniaru'r problemau hyn yn nes ymlaen. Er enghraifft, drwy ymgorffori'r elfennau disgrifiadol sain yn y rhaglen os yw'n llai addas ar gyfer disgrifiadau sain traddodiadol (gweler 4.6-4.7 yn y Canllawiau).
- 4.111 Rydyn ni'n cytuno y dylai darparwyr feddwl am faterion hygyrchedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch amserlennu rhaglenni. Credwn fod hyn eisoes yn cael ei gynnwys yn ein hargymhelliad y dylai darparwyr ofyn am gyngor gan grwpiau anabledd ynghylch y ffordd orau o sicrhau'r manteision gorau posib i bobl anabl wrth ddewis ac amserlennu rhaglenni hygyrch (gweler 2.17 yn y Canllawiau).
- 4.112 Rydyn ni'n cydnabod bod angen ystyried hygyrchedd y tu hwnt i'r rhai sy'n creu'r cynnwys ei hun, er enghraifft gan dimau comisiynu, neu dimau sy'n ymwneud â dylunio rhyngwyneb llwyfannau. Felly, rydyn ni wedi diwygio ein canllawiau ar amrywiaeth i gynnwys timau sy'n rhan o 'bob cam gwneud a dosbarthu'.
- 4.113 Rydyn ni'n cytuno y dylai pobl anabl gael eu hyfforddi ar gyfer rolau teledu, gan gynnwys rolau gwasanaethau mynediad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, ac rydyn ni'n credu bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein hargymhelliad i dimau adlewyrchu eu cynulleidfaoedd. Rydyn ni hefyd yn hybu cyflogi pobl anabl yng ngweithluoedd y diwydiant teledu drwy [ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad](#).
- 4.114 Rydyn ni'n anghytuno â sylwadau ITV nad yw canlyniadau hygyrch yn gysylltiedig â chael timau amrywiol yn gwneud y rhaglenni. Credwn y gall timau sy'n cynnwys pobl â phrofiad bywyd o anabledau ddeall anghenion a dewisiadau cynulleidfaoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad yn well. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hagwedd gyffredinol at amrywiaeth mewn darlledu. Credwn fod cynnwys pobl o bob cefndir, ar bob cam o'r broses o wneud rhaglenni, yn hanfodol ar gyfer cysylltu â chynulleidfaoedd.
- 4.115 Er bod y Canllawiau hyn yn cynnwys argymhellion sy'n gallu bod yn berthnasol i gynhyrchwyr yn ogystal â darparwyr, nid oes gennym berthynas reoleiddiol uniongyrchol â chynhyrchwyr yn hyn o beth ac felly nid ydym mewn sefyllfa i ddarparu canllawiau manwl ar ofynion cynhyrchu. Fodd bynnag, rydyn ni'n mynd ati i edrych ar ffyrdd o gydweithio ymhellach a rhannu'r arferion gorau gyda chomisiynwyr a chwmnïau cynhyrchu naill ai drwy ein gweithgor hygyrchedd a/neu ein hymgysylltiad presennol â'r Prosiect Mynediad Teledu drwy ein gwaith ehangach ar [amrywiaeth ym maes darlledu](#).

## Monitro Ansawdd a Hyfforddiant

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.116 Roedden ni'n cynnig ehangu ein Canllawiau i annog darparwyr i ystyried defnyddio adnoddau meintiol (yn ogystal ag adborth gan wylwyr) i helpu i asesu ansawdd eu gwasanaethau mynediad. Roedden ni hefyd yn cynnig annog darparwyr i gadw golwg ar

gynnydd yn erbyn y nodau sydd wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer hygrychedd (gweler 2.4).

- 4.117 Roedden ni wedi tynnu argymhelliad o'n Canllawiau blaenorol, sef 'dylai darlledwyr sicrhau bod isdeitlau ar gyfer rhaglenni wedi'u recordio ymlaen llaw yn cael eu hadolygu er cywirdeb cyn darlledu' ar y sail mai dim ond un o nifer o ffyrdd o sicrhau ansawdd yn ymarferol yw adolygiad llawn cyn darlledu.
- 4.118 Roedden ni hefyd yn cynnig y dylai pobl sy'n gwneud gwasanaethau mynediad (gan gynnwys isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion) gael hyfforddiant priodol.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.119 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr (gan gynnwys RNID, CCP-ACOD, GALMA, NADP, Channel 4) yn cefnogi ein hychwanegiadau arfaethedig at y Canllawiau ar fonitro ansawdd. Dywedodd RNID eu bod yn gobeithio y byddai darparwyr yn rhannu canlyniadau monitro ansawdd er mwyn bod yn atebol. Gofynnodd cwpl o ymatebwyr (GALMA a BSLBT) am ragor o fanylion ynghylch a fyddai darparwyr yn cael eu cymell/sut byddai darparwyr yn cael eu cymell i adrodd ar gynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer hygrychedd.
- 4.120 Dywedodd BSLBT nad oes model meintiol swyddogol ar hyn o bryd i asesu rhaglenni ag iaith arwyddion ond y dylid cael model cadarn i osgoi arwyddion sarhaus, cam-gyfieithu ac ati.
- 4.121 Dywedodd y BBC na ddylai'r canllawiau ar gyfer yr angen am adolygiadau cyn darlledu ar gyfer cywirdeb fod wedi cael eu dileu, oherwydd mae gwaith monitro ansawdd ar ôl darlledu yn debygol o gynnwys archwiliadau dirybudd yn unig ac nid yw'n amnewidiad digonol. Dywedodd fod adolygu cyn darlledu yn arbennig o bwysig o ystyried y cynnydd yn y defnydd o Adnabod Llais Awtomatig (ASR), sy'n gysylltiedig â chywirdeb is. Fodd bynnag, roedd yn credu bod monitro ar ôl darlledu yn ddefnyddiol ar gyfer isdeitlau byw.
- 4.122 Er bod grwpiau defnyddwyr yn cefnogi ein cynnig ar gyfer hyfforddiant yn gyffredinol, gofynnodd RNID am ragor o fanylion am yr hyn y byddem yn ei ystyried yn 'briodol'. Ar y llaw arall, dywedodd NADP mai mater i'r darparwr yn y pen draw yw sicrhau bod pobl yn ddigon medrus i gyrraedd safonau a'i bod hi'n bwysicach bod mesurau ansawdd yn cael eu gosod a'u cyflawni'n gyson.

## Ein barn

- 4.123 Rydyn ni'n bwriadu trafod dulliau o fonitro ansawdd, gan gynnwys defnyddio modelau meintiol, yn y gweithgor. Byddwn yn parhau i adolygu ein dull o gadw golwg ar gynnydd ar draws y diwydiant, gan ystyried y gofynion arfaethedig yn y Bil Cyfryngau (gweler 2.2).
- 4.124 Credwn y dylid rhoi'r un flaenoriaeth i sicrhau ansawdd gwasanaethau mynediad â'r cynnwys golygyddol (gan gynnwys sain a lluniau). Er ein bod wedi penderfynu dileu'r argymhelliad y dylid adolygu isdeitlau er mwyn sicrhau cywirdeb cyn darlledu, yn lle hynny rydyn ni wedi ychwanegu argymhellion mwy cyffredinol, sef y dylai darparwyr sicrhau bod prosesau ar waith i adolygu ansawdd gwasanaethau mynediad ar gyfer cynnwys sydd wedi'i recordio ymlaen llaw cyn darlledu, ynghyd ag adolygiadau ar ôl darlledu. Gall hyn fod yn berthnasol i bob gwasanaeth mynediad ac mae'n rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr cynnwys ystyried rhaglenni mewn gwahanol gyd-destunau (er enghraifft byw, wedi'u recordio ymlaen llaw) heb ddarparu cyngor rhy gyfarwyddol.
- 4.125 Yn unol â'n dull gweithredu i ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol i gynulleidfaoedd, nid ydym yn bwriadu pennu model hyfforddi penodol na chynnig canllawiau rhy rhagnodol ar

sut dylai darparwyr hyfforddi staff sy'n rhan o'r gwaith o greu gwasanaethau mynediad. Yn hytrach, credwn y dylai darparwyr sicrhau bod eu hyfforddiant yn eu galluogi i gyrraedd y safonau ansawdd sydd wedi'u hamlinellu yn ein Canllawiau.

## Ceisio adborth

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.126 Roedden ni'n cynnig y dylai llwybrau adborth/cwyno fod ar gael ar bob cam o'r broses, gan gynnwys darparu amrywiaeth o lwybrau cwyno ac ymateb mewn iaith glir.
- 4.127 Roedden ni hefyd yn argymhell bod darparwyr yn gofyn am adborth yn rhagweithiol, yn hytrach na dibynnu ar gwynion yn unig, er enghraifft drwy ymgynghori ag elusennau anabledd a sefydlu sesiynau adborth cynulleidfaoedd.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.128 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion, gyda'r BBC yn dweud y dylid ategu hyn â phrofion defnyddwyr i sicrhau bod llwybrau cwyno yn hygyrch i gynulleidfaoedd yn ymarferol. Argymhellodd NADP y dylid profi dulliau newydd o gyflwyno isdeitlau gyda phobl f/Fyddar a phobl sy'n colli eu clyw.
- 4.129 Tynnodd RNID ac BSLBT sylw at bwysigrwydd sicrhau bod llwybrau cwyno ar gael i ddefnyddwyr BSL, gan argymhell bod darparwyr yn ymgysylltu'n weithredol â defnyddwyr BSL, er enghraifft drwy gyfweiliadau defnyddwyr a grwpiau ffocws gyda dehonglwyr BSL.

### Ein barn

- 4.130 Rydyn ni'n cytuno bod profion defnyddwyr yn ffordd bwysig a defnyddiol o gael adborth gan gynulleidfaoedd ar unrhyw newidiadau a sicrhau eu bod yn hygyrch cyn eu rhoi ar waith. Rydyn ni wedi ychwanegu anogaeth i ddarparwyr brofi nodweddion gyda chynulleidfaoedd anabl, fel mathau o ffontiau a rhyngwynebau defnyddwyr.
- 4.131 Rydyn ni'n annog darparwyr yn gryf i ystyried anghenion defnyddwyr BSL wrth sicrhau hygyrchedd llwybrau cwyno/adborth a cheisio adborth, oherwydd efallai y byddai'n well gan rai unigolion Byddar gyfathrebu mewn BSL. Rydyn ni wedi diweddarau ein Canllawiau i bwysleisio pwysigrwydd cyfieithu llwybrau cwynion i iaith arwyddion a sicrhau hygyrchedd wrth geisio adborth gan gynulleidfaoedd anabl, er enghraifft drwy ddarparu dehonglwyr iaith arwyddion.

## Ffynonellau/canllawiau allanol

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.132 Roedden ni'n cynnig cynnwys rhestr o ffynonellau/canllawiau allanol ar ein gwefan, yn cynnwys canllawiau ac enghreifftiau o arloesi ac arferion da o ran hygyrchedd.
- 4.133 Roedden ni wedi cynnwys rhestr gychwynnol yn ein hymgyngoriad, gan ofyn i ymatebwyr roi sylwadau ar ein ffynonellau ac awgrymu unrhyw ychwanegiadau.



## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.134 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai rhestr o adnoddau allanol yn ddefnyddiol, a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'n cael ei chynnal a'i diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu bod darlledwyr yn datblygu eu gwasanaethau mynediad yn barhaus wrth i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd a thechnoleg ddatblygu (BBC a NADP).
- 4.135 Cafwyd rhai argymhellion ar gyfer adnoddau i'w hychwanegu, gan gynnwys y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (BLSBT); Y Pecyn Adnoddau ar gyfer Cynhwysiad a Hygyrchedd gan FWD-DOC, y pecyn cymorth 'Demistifying Access', ac 'Accessibility as a conversation' (GALMA); Safonau ITU ac ISO (NADP) ac adroddiad Subtitle It RNID. Mae Mencap hefyd wedi atodi ei ganllaw Make It Clear at ei ymateb – mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cyfathrebiadau hygyrch ar gyfer pobl ag anabledau dysgu.

### Ein barn

- 4.136 Rydyn ni wedi cynnwys rhestr o adnoddau allanol ar dudalen newydd ar ein gwefan. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd wrth inni barhau i ymgysylltu â darparwyr a rhanddeiliaid hygyrchedd eraill (gweler y dudalen we newydd).
- 4.137 Rydyn ni wedi cynnwys rhai o'r adnoddau a gafodd eu crybwyll mewn ymateb i'n hymgyngoriad, a rhai eraill yr ydym wedi dod yn ymwybodol ohonynt ers hynny, yn ein rhestr wedi'i diweddarau.

## Ystyriaethau eraill

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 4.138 Yn ein Canllawiau blaenorol, ni wnaethom ddarparu unrhyw ganllawiau ar gyfer defnyddio technoleg gynorthwyol, fel dangosyddion Braille a darllenwyr sgrin.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 4.139 Tynnodd y BBC sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau mynediad ar gael i bobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol, fel dangosyddion Braille. Nodwyd nad yw isdeitlau ond yn dod i gysylltiad â thechnoleg gynorthwyol pan fyddant yn cael eu darparu fel testun wedi'i amseru, yn hytrach na'u plannu yn y ddelwedd fideo.
- 4.140 Roedd hefyd yn dweud y dylid ategu ein canllawiau sy'n nodi y dylai testun ar y sgrin gael ei ddarllen yn uchel (gweler 4.6-4.7 yn y Canllawiau) ag argymhelliad bod y testun hwn yn cael ei isdeitlo, sy'n caniatáu i dechnoleg gynorthwyol adnabod y testun.
- 4.141 Dywedodd y BBC hefyd, lle bo modd, y dylai'r sgrïpt testun wedi'i amseru ar gyfer y disgrifiad sain fod ar gael i'r chwaraewr cleient er mwyn i'r gwyliwr allu dewis ffordd arall o'i ddefnyddio, er enghraifft drwy ei anfon i'w dangosydd Braille yn hytrach na'i glywed.

### Ein barn

- 4.142 Rydyn ni'n cytuno y dylai darparwyr fynd ati i wneud eu rhaglenni'n hygyrch i gynulleidfaoedd a allai fod yn defnyddio technolegau cynorthwyol fel darllenwyr sgrin a dangosyddion Braille, gan gynnwys pobl sy'n ddall ac yn fyddar. Rydyn ni wedi ychwanegu y dylai darparwyr ystyried sut i wneud eu rhaglenni a'u rhyngwynebau defnyddwyr yn

gydnaws â thechnolegau cynorthwyol, ac rydyn ni wedi cynnwys yr enghreifftiau a amlinellwyd uchod. Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac yn annog darparwyr i gymryd unrhyw fesurau priodol eraill.

# 5. Isdeitlo

## Crynodeb – Newidiadau i'r canllawiau Isdeitlo

- argymell y dylid cysoni isdeitlau â'r sain yn gyffredinol, \*ond y gallai rhywfaint o aralleirio fod yn briodol pan fydd y ddeialog yn gyflym iawn
- argymell oedi cyfartalog (4.5 eiliad) mewn isdeitlau byw i gymell cynnydd
- argymell y dylai isdeitlau fod yn hawdd eu darllen, yn hawdd eu gweld yn erbyn y cefndir ac yn nodi gwybodaeth nad yw ar lafar, \*wedi'i ategu gan enghreifftiau o sut mae cyflawni hyn (ee ffontiau a symbolau hygyrch ar gyfer cerddoriaeth)
- argymell bod isdeitlau yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio a'i ffafrio gan gynulleidfa darged y rhaglen ar gyfer ei hiaith ar lafar. Rydyn ni wedi dweud y bydd hyn yn yr un iaith â'r brif iaith ar lafar fel arfer \* pan fydd yn cael ei defnyddio gan gynulleidfa darged y rhaglen, oni bai fod ymgynghoriad â defnyddwyr anabl yn awgrymu y byddai'n well ganddynt iaith wahanol (er enghraifft efallai byddai'n well ganddynt isdeitlau Saesneg ar rai rhaglenni Cymraeg ar lafar)

Mae symbol seren (\*) yn nodi rhai o'r prif newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori.

## Cywirdeb, Cysoni a Chyflymder Isdeitlau

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 5.1 Fe wnaethom ddweud y dylai darparwyr geisio sicrhau bod isdeitlau mor gywir â phosib er mwyn sicrhau nad yw anghywirdeb yn effeithio ar ddealltwriaeth neu fwynhad gwylwyr o raglenni.
- 5.2 Roedden ni'n cynnig disodli'r cyfeiriad at gyflymderau isdeitlau penodol â'r egwyddor y dylid cysoni isdeitlau â'r sain mor agos â phosib yn gyffredinol.
- 5.3 Roedden ni'n cydnabod efallai na fyddai hyn yn briodol ym mhob sefyllfa ac fe wnaethom ddweud y dylai darparwyr gofio genre'r rhaglen a'r gynulleidfa(oedd) arfaethedig a/neu debygol ar gyfer eu rhaglenni, gan gynnwys pobl â chyflymder darllen is.
- 5.4 Roedden ni hefyd yn cynnig dileu rhai o'r canllawiau mwy penodol o'r Canllawiau blaenorol a oedd, yn ein barn ni, yn perthyn i'r egwyddor gyffredinol o wneud gysoni isdeitlau â llais, er enghraifft na ddylai isdeitlau gario drosodd i newidiadau mewn saethiadau ac y dylai ymddangosiad a diflaniad isdeitlau gyd-fynd â dechrau a diwedd llais yn y drefn honno.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 5.5 Tynnodd cyfranogwyr yn ein hymchwil sylw at bwysigrwydd bod isdeitlau'n gywir, gan nodi bod gwallau sillafu, gwallau gramadegol, diffyg atalnodi ac anghywirdebau eraill mewn isdeitlau nid yn unig wedi achosi rhwystredigaeth, ond mewn rhai achosion, wedi eu rhwystro rhag deall (gweler adran 3.3.2 o'n hymchwil am ragor o fanylion).
- 5.6 Roedd nifer o ddarparwyr, NADP, ymatebwyr unigol a'n cyfranogwyr ymchwil yn cefnogi'r syniad bod isdeitlau wedi'u haralleirio yn llai ffafriol ar y cyfan nag isdeitlau gair am air sy'n

cael eu cysoni â'r sain. Roedd NADP yn teimlo nad yw isdeitlau wedi'u golygu'n drwm yn darparu mynediad cyfartal at gynnwys. Dywedodd cyfranogwyr yr ymchwil nad oedd isdeitlau wedi'u haralleirio yn caniatáu iddynt ddilysu eu dealltwriaeth o'r cynnwys yn ddigonol (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil). Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn gyd-ddibynnol ar ddarllen gwefusau wrth wyllo cynnwys, yn ogystal â phobl ag anhwylderau prosesu sain. Dywedodd NADP hefyd fod isdeitlau cydamserol yn galluogi pobl â rhywfaint o glyw i newid yn fwy rhydd rhwng darllen gwefusau a sain. Dywedodd y BBC fod ei ymchwil ei hun yn dangos bod gwyro oddi wrth isdeitlau gair am air yn tarfu ar y profiad gwyllo (a dywedodd na ddylid defnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar isdeitlau cyfieithu ar gyfer isdeitlau trwm eu clyw gan fod gwahaniaethau cysyniadol allweddol).

- 5.7 Nododd rhai o'n cyfranogwyr ymchwil ar draws carfannau y gallai cysoni gwael olygu eu bod yn cael eu tynnu o brofiad ymdrochol mewn drama neu ffilm, neu fod llinell glo yn cael ei chyflwyno'n gynnar (gweler adran 3.3.2 o'n hymchwil).
- 5.8 Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr ymchwil yn ffafrio isdeitlau gair am air, roedden nhw hefyd yn derbyn y gellid cyfiawnhau isdeitlau wedi'u haralleirio mewn rhai achosion ar gyfer rhaglenni gyda deialog a digwyddiadau cyflym iawn (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil). Yn yr un modd, roedd RNID yn cefnogi'r egwyddor y dylai isdeitlau gyfateb i'r llais o fewn rheswm, ond na ddylai hyn fod ar draul darllenadwyedd ac y bydd rhai cyd-destunau lle gallai fod yn rhaid cyfaddawdu ar gysoni er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu darllen yr isdeitlau. Dywedodd GALMA y bydd yr argymhelliad presennol, sef bod isdeitlau yn cyfateb i gyflymder y llais, heb gyfradd isdeitlo uchaf, yn arwain at isdeitlau anhygyrch. Roedd yn argymhell cyflymder isdeitlo uchaf o 200 gair y funud (wpm) neu fwy ac isafswm amser arddangos isdeitlau o 1 eiliad. Dywedodd fod hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil mewn nifer sylweddol o astudiaethau. Roedd yn cyfeirio at ymchwil<sup>19</sup> a oedd wedi canfod bod gwylwyr yn dechrau hepgor geiriau pan fyddant yn cael cyflymderau isdeitlo cyflym (dros 20 nod yr eiliad (cps)), a dywedodd fod pobl yn gallu deall deialog ar lafar ar gyflymder uwch nag y gallant ddarllen isdeitlau ar yr un pryd ag edrych ar luniau a darllen gwefusau o bosib.
- 5.9 Roedd Sky hefyd yn cefnogi 1 eiliad fel isafswm amser arddangos (yn hytrach na therfynau geiriau neu nodau) i sicrhau bod digon o amser i ddarllen isdeitlau gair am air yn hawdd.
- 5.10 Roedd cyflymder isdeitlau yn peri heriau i rai o'n cyfranogwyr ymchwil, yn bennaf y rhai ag anableddau gwybyddol neu ddysgu, dyslecsia, pobl sy'n colli eu golwg a'u clyw, yn ogystal â rhai defnyddwyr BSL (yr oedd rhai ohonynt yn llai rhugl yn Saesneg). Dywedodd rhai eu bod yn ffafrio isdeitlau arafach gyda llai o eiriau ac iaith haws (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil). Dywedodd BSLBT ei fod am gael rhagor o eglurder ynghylch sut gallai darlledwr ddarparu ar gyfer pobl â chyflymder darllen arafach heb beryglu'r argymhelliad 'dylai isdeitlau fod yn rhai gair am air'. Dywedodd y BBC y gall gwasanaethau VoD ddarparu dewisiadau chwarae ar gyflymder amrywiol, gan ei gwneud hi'n bosib arafu'r cynnwys ar gyfer pobl sydd angen hynny.
- 5.11 Roedd y BBC yn credu y dylid cadw'r canllawiau ar sicrhau nad yw isdeitlau yn cario drosodd i newidiadau mewn saethiadau, gan fod hyn yn dal yn bwysig i wylwyr a'i fod yn ystyriaeth ychwanegol at gysoni â llais.

---

<sup>19</sup> Kruger, J., Wisniewska, N., & Liao, S. (2022). Why subtitle speed matters: Evidence from word skipping and rereading. *Applied Psycholinguistics*, 43(1), 211-236. doi:10.1017/S0142716421000503

## Ein barn

- 5.12 Rydyn ni'n dal yn credu, yn gyffredinol, bod isdeitlau gair am air sy'n cyd-fynd â'r sain yn cynnig y mynediad mwyaf cyfartal at gynnwys, ac mae ein hymchwil yn cefnogi eu defnydd i lawer o wylwyr. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno na ddylai hyn atal golygu ysgafn lle mae cyflymder y ddeialog yn uchel iawn ac mae dealltwriaeth yn hollbwysig. Felly, rydyn ni wedi ychwanegu y dylai isdeitlau fod yn ddarllenadwy hefyd ac y gallai rhywfaint o aralleirio fod yn briodol mewn amgylchiadau cyfyngedig, er enghraifft ar gyfer genres rhaglenni pan fydd y ddeialog yn gyflym iawn.
- 5.13 Mae'r pwynt lle gall isdeitlau fod yn rhy gyflym i fod yn ystyrllon i wylwyr yn faes dadleuol. Er bod GALMA yn cefnogi cyfradd isdeitlo uchaf ac isafswm amser arddangos ar gyfer gwasanaethau mynediad, rydyn ni'n gwybod bod rhywfaint o ymchwil yn dod i gasgliadau gwahanol (er enghraifft ymchwil y BBC). Rydyn ni hefyd yn deall y gall y cyflymder priodol ar gyfer isdeitlau amrywio yn dibynnu ar natur y rhaglen (er enghraifft lefel y gweithgarwch ar y sgrin a natur y ddeialog) a bod angen i is-deitlwyr wneud penderfyniadau proffesiynol, cynnil. Felly, rydyn ni wedi penderfynu peidio â darparu ffigurau penodol yn y Canllawiau ond yn hytrach canolbwyntio ar yr egwyddor y dylai isdeitlau fod yn hawdd eu darllen ar gyflymderau uchel, fel yr amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, er mwyn helpu darparwyr i wneud penderfyniadau yn y maes hwn, rydyn ni wedi ychwanegu ymchwil perthnasol ar gyflymderau isdeitlo at y rhestr o adnoddau allanol.
- 5.14 Yng ngoleuni canfyddiadau ein hymchwil ar gysoni, rydyn ni wedi ychwanegu na ddylai isdeitlau ymddangos yn rhy fuan cyn i wybodaeth bwysig gael ei chyfleu ar lafar a bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyflwyno llinellau clo, er enghraifft mewn rhaglenni comedi neu sioeau gemau/cwisiau.
- 5.15 Rydyn ni'n cytuno â'r BBC y gall osgoi cario drosodd i newidiadau mewn saethiadau fod yn ystyriaeth ychwanegol at gysoni. Fodd bynnag, nodwn y gallai fod angen cario drosodd i newidiadau mewn saethiadau mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd y ddeialog yn cario drosodd. Rydyn ni felly wedi ychwanegu y dylai isdeitlau aros ar y sgrin yn ddigon hir i'w darllen, ond nid am gyhyd nes eu bod yn tynnu sylw neu'n cario drosodd i newidiadau mewn saethiadau, lle bo modd.
- 5.16 Fel y gwelir yn ein hymchwil, gall isdeitlau cyflymach fod yn fwy problemus i rai pobl, er enghraifft pobl â chyflyrau gwybyddol neu ddefnyddwyr BSL sy'n llai rhugl yn Saesneg. Rydyn ni eisoes yn annog darparwyr i ystyried y gynulleidfa darged ar gyfer eu rhaglenni, er enghraifft gallai isdeitlau (a/neu ddeialog) wedi'u golygu, arafach fod yn briodol ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl sy'n debygol o ddarllen yn arafach. Gall dewisiadau personoli, sydd hefyd yn cael ei argymhell gennym, helpu darparwyr i fodloni anghenion gwahanol hefyd. Yn unol â chynghor y BBC, rydyn ni hefyd wedi ychwanegu anogaeth i ddarparwyr VoD ystyried cynnig dewisiadau addasu cyflymder chwarae lle bo hynny'n bosib er mwyn caniatáu i gynulleidfaoedd arafu cyflymder y rhaglen ac isdeitlau.

## Rhaglenni Byw

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 5.17 Roedden ni'n argymhell y dylai isdeitlau byw gynnwys oedi o ddim mwy na 4.5 eiliad ar gyfartaledd, gan gydnabod ar yr un pryd y gallai hyn fod yn fwy heriol ar rai mathau o

raglenni, fel rhaglenni sgwrsio cyflym neu raglenni chwaraeon. Roedd hyn yn newid o'r Canllawiau blaenorol a oedd yn argymhell uchafswm oedi o 3 eiliad ar gyfer isdeitlau byw.

- 5.18 Fe wnaethom ddarparu rhai argymhellion i ddarlledwyr leihau oedi ac anghywirdebau cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys cael gafael ar ddeunydd wedi'i sgrïptio a pharatoi geirfa arbennig.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 5.19 Yn gyffredinol, roedd gan gyfranogwyr ein hymchwil ddisgwyliadau is o ran ansawdd a chywirdeb isdeitlau byw a'u cysondeb â'r sain, o'i gymharu ag isdeitlau ar raglenni wedi'u recordio ymlaen llaw. Fodd bynnag, roedden nhw'n mynegi rhwystredigaeth ynghylch oedi, gwallau sillafu ac anawsterau wrth ddilyn y testun sy'n sgrïolio. Roedd rhai wedi osgoi defnyddio isdeitlau wrth wyllo rhaglenni byw fel y newyddion a chwaraeon byw, ac eraill wedi osgoi gwyllo rhaglenni byw yn gyfan gwbl oherwydd bod y problemau hyn yn gyffredin, ac yn gwyllo cynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw yn unig (gweler adrannau 3.3.1 a 3.3.2 o'n hymchwil).
- 5.20 Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch ein hargymhelliad arfaethedig y dylai isdeitlau byw gynnwys oedi o ddim mwy na 4.5 eiliad ar gyfartaledd. Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi'r newid hwn (gan gynnwys GALMA, Channel 4 a Paramount Global), roedd eraill yn anghytuno. Dywedodd Sky, yn dibynnu ar y genre, fod oedi rhwng 4.5 a 6.5 yn fwy realistig, a dywedodd un ymatebydd unigol ei fod yn ffafrio trothwy uchaf yn hytrach na chyfartaledd targed. Dywedodd NADP na ddylai'r oedi fod yn fwy na thair eiliad a chyfeiriodd at ymchwil gan Brifysgol Roehampton, a oedd wedi nodi mai oedi oedd y flaenoriaeth uchaf i gyfranogwyr a oedd yn fyddar neu'n colli eu clyw o ran isdeitlau byw ar y teledu<sup>20</sup>. Dywedodd NADP fod nifer o ffactorau sy'n gallu lleihau oedi rhaglenni byw, ond ar y llaw arall, mae'r defnydd cynyddol o ailsiarad, yn hytrach nag Adroddwyr Llais i Destun (STTRs), wedi cynyddu'r oedi. Nododd RNID y gallai'r cyfaddawdau rhwng cywirdeb ac oedi leihau wrth i dechnoleg wella.
- 5.21 Dywedodd NADP y gall ansawdd a chywirdeb isdeitlau leihau'n gyflymach mewn rhaglenni byw ac argymhellodd ddefnyddio SSTRs ar gyfer darllediadau sy'n cynnwys lleferydd cyflymach, fel rhaglenni sgwrsio byw neu eitemau newyddion. Dywedodd RNID y gallai cywirdeb fod yn bwysicach nag oedi mewn rhai genres rhaglenni (er enghraifft darllediadau newyddion neu gyhoeddiadau'r Llywodraeth sy'n rhannu gwybodaeth bwysig â'r cyhoedd).
- 5.22 Dywedodd GALMA y dylem ystyried argymell cyfradd cywirdeb sylfaenol o 98% ar gyfer isdeitlau byw gan ddefnyddio'r model NER a oedd, yn ôl GALMA, yn gyson â chanfyddiadau ymchwil sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr a [deddfwriaeth](#) ac [arferion presennol](#) yn Ewrop, Awstralia a Gogledd America.
- 5.23 Dywedodd cyfranogwyr yn ein hymchwil wrthym ei fod yn gallu tynnu sylw pan fydd isdeitlau ar deledu byw yn ymddangos ar y sgrin fel isdeitlau sy'n sgrïolio yn hytrach na bloc o destun, ac yn cael eu cywiro'n fyw ar yr awyr (gweler adran 3.3.2 o'n hymchwil). Ar ben hynny, nododd y BBC fod isdeitlau byw weithiau'n gallu dod mewn 'hyrddiau', lle mae systemau meddalwedd yn rasio drwy eiriau'n llawer cyflymach na'r sain wreiddiol er mwyn

---

<sup>20</sup> [Moore, Z. 2022. Training professional respeakers to subtitle live events in the UK: A participative model for access and inclusion \(tt.195-197\)](#)

dal i fyny. Gall yr arfer hwn wneud isdeitlau'n anoddach eu dilyn. Dywedodd y BBC y dylid cadw ein hargymhelliad yn y Canllawiau blaenorol y dylai isdeitlau byw lifo'n llyfn.

- 5.24 Dywedodd ITV y dylem ddiwygio'r canllawiau o 'dylid hefyd defnyddio isdeitlau bloc mewn isdeitlau byw lle bo hynny'n bosib' i 'dylid defnyddio isdeitlau bloc wedi'u paratoi mewn isdeitlau byw lle bo hynny'n bosib ac nad yw'n cynyddu oedi isdeitlo'. Dywedodd Sky hefyd y byddai defnyddio isdeitlau bloc ar gyfer cynnwys byw yn cynyddu'r oedi.

## Ein barn

- 5.25 Rydyn ni'n cydnabod bod ansawdd isdeitlau byw yn faes sy'n peri pryder penodol i wylwyr – dywedodd rhai cyfranogwyr yn ein hymchwil eu bod yn osgoi gwyllo rhaglenni ag isdeitlau byw yn gyfan gwbl (gweler adran 3.3.2 o'n hymchwil. Er ein bod yn cytuno bod modd gwella oedi ar deledu, mae angen i'r cyfartaledd rydyn ni'n ei argymell fod yn realistig i'w gyflawni er mwyn cymell gwelliant ar draws y diwydiant. Fel sy'n cael ei egluro yn ein hymgyngoriad (gweler tudalen 24 yr [ymgyngoriad](#)), rydyn ni'n credu bod oedi o 4.5 eiliad ar gyfartaledd (cymedr) ar draws rhaglenni byw yn cyd-fynd â'r oedi gorau a gyflawnwyd gan rai darlledwyr unigol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r lefel darged hon wrth i dechnoleg ddatblygu i sicrhau ei bod yn parhau i gymell cynnydd.
- 5.26 Rydyn ni'n cytuno â'r RNID y gallai fod yn ddefnyddiol blaenoriaethu cywirdeb dros oedi lle mae gwybodaeth arbennig o bwysig yn cael ei chyfleu. Nodwn hefyd y gallai effaith oedi ar wylwyr amrywio yn dibynnu ar y math o raglen (er enghraifft gallai fod yn anoddach dilyn isdeitlau ar raglen sgwrsio/dadlau byw neu sylwebaeth chwaraeon lle mae nifer o bobl yn siarad dros ei gilydd weithiau). Felly, rydyn ni wedi ychwanegu y gallai fod yn briodol blaenoriaethu cywirdeb ar rai rhaglenni fel cyhoeddiadau mewn argyfwng neu'r newyddion.
- 5.27 Rydyn ni'n credu y dylai darparwyr ystyried pa ddull isdeitlo sydd fwyaf priodol ar gyfer mathau penodol o raglenni (gan gynnwys y rhai â deialog gyflym) i sicrhau ansawdd digonol i wylwyr. Er ein bod wedi ymatal rhag argymell defnyddio technolegau penodol ar gyfer gwahanol fathau o raglenni byw yn unol â'n dull gweithredu cyffredinol (gweler uchod), rydyn ni wedi ychwanegu y gallai gwahanol ddulliau isdeitlo (er enghraifft ailsiarad, STTR ac ati) fod yn fwy addas ar gyfer gwahanol fathau o raglenni, yn dibynnu ar gyflymder deialog ac effaith y dull ar gywirdeb ac oedi.
- 5.28 Yn unol â phwynt y BBC ynghylch isdeitlau byw yn dod mewn 'hyrddiau', rydyn ni wedi cadw'r frawddeg o'r Canllawiau blaenorol sy'n argymell y dylai isdeitlau lifo mor llyfn â phosib mewn rhaglenni byw. Hoffwn egluro mai ein hargymhelliad yw bod darlledwyr yn defnyddio isdeitlau bloc wedi'u paratoi ymlaen llaw ar raglenni ag isdeitlau byw lle bo hynny'n bosib, yn hytrach na chreu isdeitlau bloc yn ystod rhaglenni a allai gynyddu oedi.
- 5.29 Rydyn ni'n bwriadu trafod ffyrdd o wella ansawdd isdeitlau byw (gan gynnwys defnyddio gwahanol dechnolegau a mesurau i leihau oedi) fel rhan o'r gweithgor. Ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o dystiolaeth ar lefelau cywirdeb cyraeddadwy a mesuradwy ar gyfer darlledwyr yn y DU i argymell cywirdeb sylfaenol penodol ar draws pob math o raglen.

## Disgrifiadau sain a cherddoriaeth

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 5.30 Roedden ni'n cynnig disodli canllawiau penodol ar y dull o adnabod siaradwyr a sain (er enghraifft, y dylid nodi siaradwyr â lliwiau, a cherddoriaeth â'r arwydd #) â'r egwyddor y

dylid nodi siaradwyr yn glir, ac y dylid disgrifio effeithiau sain/cerddoriaeth yn glir. Fe wnaethom ddweud y dylai effeithiau sain a disgrifiadau cerddoriaeth fod yn benodol, yn hytrach na chyffredinol, ac mor glir â phosib (er enghraifft disgrifio tŷn y llais a naws cerddoriaeth).

- 5.31 Roedden ni hefyd yn cynnig y dylid isdeitlo geiriau caneuon lle bo hynny'n bosib, ac y dylid egluro oedi annisgwyl neu ddeialog anghlywadwy. Fe wnaethom ddweud y gellid defnyddio atalnodi, llythrennau italig neu briflythrennau i ddangos pwyslais neu emosiwn.
- 5.32 Roedden ni'n cynnig dileu'r argymhelliad i ddangos isdeitlau yn llorweddol i gyfeiriad unrhyw effeithiau sain.

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 5.33 Dywedodd CCP-ACOD, er mwyn osgoi dryswch, y dylid cyfathrebu'n glir â chynulleidfaoedd ynghylch unrhyw newidiadau i'r canllawiau ar labelu gwybodaeth nad yw ar lafar yn gyson. Yn yr un modd, nododd y BBC fod dealltwriaeth dda o'r ffaith fod y symbol hashnod (#) yn golygu cerddoriaeth ymysg defnyddwyr isdeitlau a dywedodd fod ein Canllawiau'n nodi y gellir defnyddio'r symbol hwn neu nodyn cerddorol i ddynodi cerddoriaeth, ac na ddylid ei ddefnyddio at ddibenion eraill ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn glir (er enghraifft wrth ddisgrifio hashnod). Dywedodd y BBC hefyd y dylai'r canllawiau annog darlledwyr i archwilio potensial systemau cyflwyno isdeitlau modern, er enghraifft nodi emosiynau gan ddefnyddio 'emojis'. Yn ein hymchwil, roedd hoff dewisiadau pobl yn amrywio o ran sut dylid nodi siaradwyr gwahanol (er enghraifft defnyddio cysylltnodau neu liwiau). Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'n cyfranogwyr yn credu bod nodyn cerddorol yn symbol mwy adnabyddus i nodi cerddoriaeth na hashnodau. Er bod lleiafrif y cyfranogwyr yn ffafrio hashnodau, roedd llawer yn cysylltu hashnod â neges ar X (Twitter gynt), nid â cherddoriaeth. Roedd llawer o'r cyfranogwyr am weld nodiadau cerddorol yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws teledu sy'n cael eu darlledu a llwyfannau VoD (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil).
- 5.34 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â chynnig Ofcom i argymell disgrifiadau sain a cherddoriaeth penodol, er bod y BBC yn dweud mai mater o farn olygyddol oedd hyn yn y bôn. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr ein hymchwil am gael disgrifiadau byrrach, mwy manwl a dealladwy yn hytrach na rhai generig (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil am ragor o fanylion).
- 5.35 Dywedodd NADP y dylid isdeitlo geiriau caneuon hyd diwedd y rhaglen, yn hytrach nag enwi'r artist a theitl y gân yn unig. Dywedodd fod dangos geiriau yn helpu'r gwyliwr i adnabod y gân a deall y rheswm posib dros ei ddewis i ategu'r cynnwys. Dywedodd ymatebydd arall y dylem argymell bod geiriau caneuon yn cael eu cyflwyno gyda theitl y gân ac enw'r artist.
- 5.36 Roedd y BBC yn anghytuno â'n cynnig i ddileu'r argymhelliad i ddangos isdeitlau yn llorweddol i gyfeiriad unrhyw effeithiau sain. Dywedodd y dylid cadw hyn er mwyn i ddefnyddiwr gwasanaethau mynediad allu pennu cyfeiriad effeithiau sain o'r isdeitlau. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd unigol o blaid dileu'r argymhelliad hwn. Dywedodd y dylai isdeitlau fod yng nghanol y sgrin, ond gall effeithiau sain ac isdeitlau eraill symud y safle i'r chwith neu i'r dde.



## Ein barn

- 5.37 Gan ystyried canfyddiadau ein hymchwil, rydyn ni'n credu bod ein canllawiau sy'n argymhell y dylai disgrifiadau sain a cherddoriaeth fod yn benodol, yn hytrach na generig, yn dal yn briodol. Rydyn ni'n credu bod hyn yn ddigon hyblyg i ddarparwyr ystyried dewisiadau eu cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio eu barn greadigol (yn eu defnydd o ddisgrifiadau ysgrifenedig ac wrth ddefnyddio symbolau/cyflwyniadau isdeitlau).
- 5.38 Er ein bod yn annog darparwyr i ystyried y ffaith fod cyfranogwyr ein hymchwil yn ffafrio defnyddio'r symbol nodyn cerddorol, rydyn ni'n deall nad yw'r symbol hwn yn cael ei gefnogi ar lwyfannau teledu darlledu traddodiadol ac felly bod y symbol # yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol. Rydyn ni wedi ychwanegu'r symbolau hashnod (#) a nodyn cerddoriaeth (♯) fel enghreifftiau o ffyrdd o ddangos cerddoriaeth at y Canllawiau. Rydyn ni hefyd wedi nodi'n glir bod atalnodi, llythrennau italig neu briflythrennau yn ddulliau 'sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin' o ddangos pwyslais neu emosiwn, yn hytrach na rhestr gyfyngedig.
- 5.39 Mae'r Canllawiau eisoes yn nodi y dylid isdeitlo geiriau caneuon lle bo hynny'n bosib. Gall dewisiadau cynulleidfaoedd amrywio o ran a ddylid nodi teitlau caneuon ac enwau artistiaid, ond rydyn ni'n deall y gallai'r dechneg hon fod yn ddefnyddiol pan nad oes lle i ychwanegu'r geiriau llawn oherwydd deialog sy'n croesi neu effeithiau sain. Rydyn ni wedi ychwanegu teitlau caneuon ac enwau artistiaid fel enghreifftiau o sut gallai darparwyr ddewis cyflwyno caneuon.
- 5.40 Yn unol â'n dull o ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol, nid ydym yn credu ei bod yn briodol pennu y dylid dangos isdeitlau yn llorweddol i gyfeiriad sain. Fodd bynnag, rydyn ni wedi egluro y dylid dangos cyfeiriad synau oddi ar y sgrin mewn rhyw ffordd, heb bennu sut mae gwneud hyn (ee drwy symud safle isdeitlau neu ryw ffordd arall).

## Cyflwyno isdeitlau

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 5.41 Roedden ni'n cynnig disodli canllawiau penodol ar gyflwyniad isdeitlau gyda'r egwyddor y dylai isdeitlau fod yn hawdd eu darllen, yn hawdd eu gweld yn erbyn y cefndir, ac yn cael eu gosod mewn trefn sy'n osgoi cuddio ceg y siaradwr/gwybodaeth hanfodol arall.
- 5.42 Fe wnaethom ddweud y dylai isdeitlau ac isdeitlau gael eu rhannu'n doriadau ieithyddol rhesymegol.
- 5.43 Fe wnaethom ddweud y dylai darparwyr ystyried gwahanol feintiau sgrin wrth bennu maint a safle isdeitlau, ac ystyried dewisiadau personoli i helpu i fynd i'r afael â gwahanol anghenion a dewisiadau.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 5.44 Er bod grwpiau defnyddwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y gallu i bersonoli isdeitlau'n ddefnyddiol (gweler yr adran dewis a phersonoli uchod), roeddwn nhw hefyd yn dweud y dylem ddarparu canllawiau manylach ar gyflwyniad isdeitlau. Er enghraifft, dywedodd NADP y dylid cael fformat isdeitlau diofyn safonol (sy'n cynnwys ffont diofyn safonol sy'n seiliedig ar ffontiau isdeitlau teledu cyfredol a chefnidir du cadarn) oherwydd efallai na fydd rhai pobl yn dymuno personoli'r gosodiadau neu fod yn gallu gwneud hynny, gan gynnwys rhai gwylwyr hŷn. Dywedodd yr RNIB, os oes modd personoli maint ffont, y dylai darparwyr

geisio sicrhau bod y dewis ffont mwyaf yn ddarllenadwy i bobl sy'n rhannol ddall. Dywedodd yr RNIB y dylai darparwyr allu amcangyfrif y maint hwn drwy wneud tybiaethau rhesymol ynghylch maint sgrin a phellter gwyllo. Soniodd y BBC ac RNID am ddarllenadwyedd isdeitlau i bobl sy'n rhannol ddall. Hefyd pwysleisiodd RNID pa mor bwysig yw gallu personoli maint ffontiau i bobl sy'n gwyllo cynnwys fideo ar ddyfeisiau tabled a ffonau clyfar.

- 5.45 Dywedodd y BBC hefyd y dylem ddarparu canllawiau manylach ar gyflwyniad isdeitlau, gan awgrymu rhestr o ffontiau wrth gefn 'adnabyddus a derbyniol' gan Ofcom ac argymhell yn erbyn defnyddio ffontiau poblogaidd 'addas i'r we' fel Arial, oherwydd ei bod hi'n hysbys bod ganddynt lyffiau y gellir drysu rhyngddynt. Dywedodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol diffinio'r ffyrdd yr ydym yn asesu a yw isdeitlau yn 'hawdd eu darllen' ai peidio, gan awgrymu y dylid cymhwyso gofynion cyferbyniad lliw Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) i gyflwyniad diofyn (hy heb ei bersonoli) testun yn erbyn y cefndir, ac y dylai'r cefndir fod yn solid yn hytrach na thryloyw.
- 5.46 Dywedodd y BBC hefyd y byddai'n croesawu esboniad o'r newid o "doriadau ieithyddol naturiol" i "doriadau ieithyddol rhesymegol", ac a fwriedir unrhyw newid mewn ystyr yn hyn o beth. Roedd gan rai cyfranogwyr yn ein hymchwil anghenion a dewisiadau unigol iawn ynghylch sut dylid cyflwyno isdeitlau. Roedd llawer o'r cyfranogwyr wedi mynegi'n ddigymhell eu bod yn ffafrio ffontiau sans serif<sup>17</sup> (ond roedd lleiafrif yn ffafrio ffontiau o fath serif). Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr o blaid gallu ehangu maint ffont isdeitlau ac roedd llawer hefyd wedi mynegi angen am ddewisiadau personoli ehangach, gan gynnwys y gallu i newid y math o ffont, y lliw, yr afloywder, y cefndir a'r safle. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer pobl sy'n colli eu golwg a'u clyw, neu sydd â chyflyrau gwybyddol neu niwroddatblygiadol. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon ynghylch pa mor hawdd oedd cael gafael ar adnoddau personoli isdeitlau gyda dewisiadau ehangach (gweler adran 3.3.3 o'n hymchwil am ragor o fanylion).
- 5.47 Dywedodd Paramount Global nad oes gan ddarparwyr cynnwys bob amser reolaeth dros gyflwyniad isdeitlau ar lwyfannau trydydd parti.

## Ein barn

- 5.48 Yn ein hymchwil, roedd amrywiaeth o hoff ddewisiadau o ran ffontiau penodol ar draws carfannau (er enghraifft ffontiau sans-serif), heb hoff ddewis penodol o ran cysondeb (er enghraifft defnyddio un ffont diofyn ar draws darparwyr). Nid oes gennym ddigon o dystiolaeth (nac yn credu ei bod hi'n briodol) i argymhell un ffont diofyn ar gyfer isdeitlau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydyn ni wedi darparu arweiniad pellach ar nodweddion allweddol ffontiau hygyrch: rhoi Tiresias a Helvetica fel enghreifftiau a chynnwys dolen at yr adnoddau allanol i ganllaw arddull gan Gymdeithas Dyslecsia Prydain, sy'n cynnwys cyngor ar ffontiau darllenadwy. Roedden ni eisoes wedi nodi yn y Canllawiau arfaethedig y dylai ffontiau ddefnyddio siapiau a nodau syml nad yw'n hawdd drysu rhyngddynt, gan gynnwys ar gyfer nodau tebyg (er enghraifft priflythyren i a llythyren fach l) ac rydyn ni wedi ychwanegu y dylid hefyd osgoi llythrennau sy'n adlewyrchu ei gilydd (er enghraifft llythrennau bach b a d).
- 5.49 Nid oes gennym ddigon o dystiolaeth ynghylch a yw'n ymarferol i'r opsiwn ffont mwyaf fod yn ddarllenadwy i bobl sy'n rhannol ddall ar draws pob math o ddyfais. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno y dylai darparwyr anelu at hynny lle bo modd ac rydyn ni wedi ychwanegu nodyn atgoffa bod maint ffontiau mwy yn arbennig o bwysig i bobl sy'n ddall ac yn fyddar. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu troednodyn at ein canllawiau sy'n cyfeirio at Ganllawiau Hygyrchedd

Cynnwys y We am arweiniad pellach ar sicrhau bod lliwiau isdeitlau yn cyferbynnu'n ddigonol â'r cefndir.

- 5.50 Ni fwriadwyd newid mewn ystyr drwy newid y derminoleg o "doriadau ieithyddol naturiol" i "doriadau ieithyddol rhesymegol" yn y Canllawiau, ond rydyn ni'n credu bod y geiriad newydd yn cyfleu'r syniad o doriadau semantig ac ieithyddol eraill yn gliriach.
- 5.51 Rydyn ni'n gwerthfawrogi y gallai darparwyr fod â llai o reolaeth dros gyflwyniad isdeitlau ar rai llwyfannau trydydd parti. Fel yr amlinellwyd uchod, rydyn ni'n bwriadu hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr a phartion eraill sy'n rhan o daith y cwsmer drwy'r gweithgor.

## Iaith isdeitlau

---

### Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud

- 5.52 Roedden ni'n cynnig y dylai isdeitlau fod yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan gynulleidfa darged y rhaglen ar gyfer ei hiaith ar lafar. Roedden ni wedi dweud bod hyn fel arfer yr un iaith â phrif iaith y rhaglen ar lafar (er enghraifft, byddem yn disgwyl gweld isdeitlau Cymraeg ar raglenni Cymraeg).

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 5.53 Nodwn fod S4C yn darparu cymysgedd o isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gyfer eu rhaglenni. Mae tîm RNID yng Nghymru wedi dweud wrthym mewn sgwrs ddilynol yr hoffent weld cymaint o ddewis â phosib i'r gymuned f/Fyddar yng Nghymru o ran iaith isdeitlau ar raglenni Cymraeg, gan awgrymu y byddai o fudd i'r ddau ddewis iaith fod ar gael ar chwaraewyr ar-alw. Yn yr un modd, gofynnodd Cyngor Cymru i Bobl Fyddar am adborth gan eu haelodau a oedd yn credu'n gyffredinol y dylid cael dewis o isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar raglenni Cymraeg.
- 5.54 Dywedodd tîm RNID yng Nghymru hefyd fod llythrennedd a rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar (ac yn wir Saesneg) yn amrywio ymysg cymunedau B/byddar a cholli clyw gwahanol garfannau yng Nghymru.
- 5.55 Awgrymodd y BBC ein bod yn egluro y dylai rhaglenni ieithoedd tramor gynnwys isdeitlau trwm eu clyw yn iaith ddisgwylidiedig y gynulleidfa, yn hytrach nag iaith y rhaglen. Roedden nhw hefyd yn nodi bod angen ystyried isdeitlau trwm eu clyw ar gyfer synau nad ydynt ar lafar o ran dewis iaith.
- 5.56 Dywedodd RNID y dylid ei gwneud hi'n glir i gynulleidfa oedd pan fydd cymeriadau'n newid rhwng ieithoedd mewn sioeau. Cynigiodd NADP, os bydd rhywun yn siarad mewn iaith arall heb gyfieithu, y dylai'r isdeitlau fod yn yr iaith honno, heb eu cyfieithu, os nad oes cyfieithiad yn cael ei ddarparu yn y sain

### Ein barn

- 5.57 Rydyn ni'n cydnabod y gall anghenion a dewisiadau'r cymunedau b/Byddar yng Nghymru o ran iaith isdeitlau amrywio ac y gall gwahanol ieithoedd isdeitlau fod yn briodol ar wahanol fathau o raglenni. Fodd bynnag, nodwn hefyd y gall cynnig dewis o fwy nag un iaith is-deitl olygu anawsterau technolegol a/neu gost ychwanegol i ddarparwyr. **Rydyn ni wedi diwygio ein Canllawiau i nodi y dylai iaith yr isdeitlau fod yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio a'i ffafrio**

**gan gynulleidfa darged y rhaglen yn y DU.** Mae hyn fel arfer yr un iaith â phrif iaith y rhaglen ar lafar, pan fydd yr iaith honno'n cael ei defnyddio gan y gynulleidfa darged, ond nid oes rhaid i hynny fod yn wir os yw ymgynghoriad â defnyddwyr anabl yn awgrymu y byddai'n well gan gynulleidfa'r DU gael iaith wahanol (er enghraifft efallai byddai'n well ganddynt isdeitlau Saesneg ar rai rhaglenni Cymraeg).

- 5.58 Rydyn ni wedi egluro y dylai rhaglenni ieithoedd tramor a fyddai, beth bynnag, yn cael eu cyfieithu, gynnwys isdeitlau ar gyfer cynulleidfa anabl yn y DU (gan nodi bod isdeitlau ar gyfer pobl F/fyddar neu sy'n colli eu clyw yn cynnwys mwy o wybodaeth nag isdeitlau cyfieithu). Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu y dylai'r isdeitlau anelu at ddarparu profiad cyfatebol drwy ei gwneud hi'n glir pan fydd cymeriadau'n newid rhwng ieithoedd mewn rhaglenni ac yn siarad mewn iaith dramor na fyddai'n cael ei chyfieithu fel arall.

# 6. Disgrifiadau Sain

## Crynodeb – Newidiadau i'r Canllawiau Disgrifiadau Sain

cydnabod gwahanol ddulliau gweithredu ac arddulliau ar gyfer disgrifiadau sain sy'n briodol i'r genre/math o raglen

cefnogi disgrifiadau o nodweddion gweledol ar wahân i'r rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'r plot, gan gynnwys nodweddion amrywiaeth

hybu hygyrchedd ar gyfer mathau o raglenni sy'n llai addas ar gyfer disgrifiadau sain traddodiadol, fel y newyddion, yn ogystal â nodweddion hygyrchedd ychwanegol fel cyflwyniadau sain \*ar gyfer genres penodol a gwybodaeth gyd-destunol na ellir ei chodi o'r rhaglen

Mae symbol seren (\*) yn nodi rhai o'r prif newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori.

## Dull gweithredu ar gyfer disgrifiadau sain/arddulliau disgrifiadau sain

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 6.1 Roedden ni'n cynnig dileu'r argymhelliad y dylai disgrifiadau sain fod yn 'anymwthiol ac amhersonol', ac yn hytrach, byddwn yn annog darparwyr i ystyried gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer disgrifiadau sain (fel arddulliau mwy traddodiadol neu greadigol), gan ystyried anghenion a dewisiadau eu cynulleidfa benodol, a genre'r rhaglen. Fe wnaethom annog darparwyr i ofyn am adborth gan gynulleidfaedd ac addasu eu harddull yn unol â hynny.
- 6.2 Roedden ni hefyd yn cynnig y dylai disgrifiadau sain osgoi disgrifio dros y prif drac sain yn gyffredinol oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol ac roedden ni'n annog darparwyr i ystyried dewisiadau personoli er mwyn galluogi cynulleidfaedd i addasu cydbwysedd y lefelau sain rhwng y disgrifiadau sain a'r prif drac sain.
- 6.3 Fe wnaethom ddweud y dylai disgrifiadau sain fod yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan gynulleidfa darged y rhaglen ar gyfer ei hiaith ar lafar.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 6.4 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i annog darparwyr i addasu arddull disgrifiadau sain yn dibynnu ar y genre a'r cynulleidfa. Roedd grwpiau defnyddwyr (RNIB a CCP-ACOD) yn cytuno y dylai darparwyr ofyn am fewnbwn gan gynulleidfaedd mewn perthynas ag arddull a thôn disgrifiadau sain. Awgrymodd RNIB un ffordd i ddarparwyr ofyn am fewnbwn gan gynulleidfaedd ynghylch disgrifiadau sain, sef elusennau yn gofyn i'w haelodau am adborth. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod disgrifiadau sain uwch<sup>21</sup> yn

<sup>21</sup> Cafodd disgrifiadau sain uwch eu disgrifio gan RNIB fel defnyddio sain ofodol ac effeithiau sain i leihau neu ddileu'r angen am ddisgrifiadau sain ar lafar.

darparu profiad llawer cyfoethocach, ond y bydd angen disgrifiadau sain traddodiadol o hyd ar ddefnyddwyr heb y gallu i chwarae sain ofodol<sup>22</sup>.

- 6.5 Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil am i arddull disgrifiadau sain gyd-fynd â genre a naws y rhaglen, er enghraifft drwy ychwanegu cyffyrddiad ysgafn ar gyfer rhaglenni comedi, neu fwy o donau mynegiannol a bywiog ar gyfer rhaglenni plant. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn teimlo na ddylai'r dôn fod yn rhy fynegiannol i'r graddau ei bod yn amharu ar gynnwys y rhaglen (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil).
- 6.6 Tynnodd BT Group sylw at yr angen i gydbwysu amrywiaeth ag ansawdd, symlrwydd a chyfyngiadau costau busnes, a nododd Channel 4 yr her o wneud disgrifiadau sain yn greadigol ac yn ymdrochol pan gaiff ei greu yn bennaf ar ôl y broses o gynhyrchu rhaglenni. Roedd yn awgrymu ein bod yn annog gwneuthurwyr rhaglenni i ystyried ffyrdd o wella disgrifiadau sain yn y cam comisiynu a chynhyrchu. Nododd Channel 4 a'r BBC hefyd y gallai fod yn anymarferol ac yn gostus i ddarparwyr sicrhau bod sawl math o disgrifiadau sain ar gael ar gyfer yr un cynnwys.
- 6.7 Pwysleisiodd un ymatebydd unigol bwysigrwydd bod acenion y disgrifwyr sain yn cyfateb i rai'r actorion yn y rhaglen a/neu ei chyd-destun, gan awgrymu bod lleisiau Prydeinig yn cael eu defnyddio ar gyfer rhaglenni'r DU a lleisiau Americanaidd ar gyfer y rhai sy'n tarddu o'r Unol Daleithiau. Fodd bynnag, roedd ein hymchwil wedi canfod, er bod cyfranogwyr yn gyffredinol yn hoffi bod acenion disgrifwyr sain yn cyd-fynd â'r rhaglen, nid oedd hyn yn flaenoriaeth i gyfranogwyr, cyhyd â bod yr acenion yn ddealladwy (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil).
- 6.8 Roedd rhai ymatebwyr (Red Bee Media, RNIB) yn cwestiynu ein hargymhelliad y dylai disgrifiadau sain osgoi disgrifio dros y prif drac sain yn gyffredinol. Dadleuodd y ddau fod adegau lle mae elfennau gweledol rhaglen yn cael blaenoriaeth dros y prif drac sain neu fân ddeialog hyd yn oed.
- 6.9 Roedd Red Bee Media ac RNIB hefyd yn cwestiynu ein defnydd o'r term 'trac sain'. Dywedodd RNIB fod 'trac sain' yn cynnwys cerddoriaeth gefndir, ond mai ychydig iawn o gynnwys sy'n dawelwch llwyr. Roedd felly'n cynnig y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r brif ddeialog, wedi'i dilyn gan effeithiau sain sy'n gysylltiedig â'r plot ac yna effeithiau sain eraill, a cherddoriaeth gefndir.
- 6.10 Roedd darlledwyr (BBC, Channel 4, Paramount Global) o blaid personoli ac annog y diwydiant i arloesi yn y maes hwn. Fodd bynnag, tynnodd Channel 4 sylw at y cymhlethdodau i ddarparwyr o ran darparu dewisiadau personoli gan fod llawer o lwyfannau'n cyflwyno'r disgrifiadau sain fel ail drac wedi'i gymysgu ymlaen llaw, yn hytrach na gosod trac disgrifiadau sain yn unig.
- 6.11 O ran iaith disgrifiadau sain, gofynnodd y BBC am eglurder y byddai rhaglenni ieithoedd tramor wedi'u hanelu at gynulleidfa Saesneg (ac wedi'u hisdeitlo yn Saesneg o bosib) yn cael eu disgrifio yn Saesneg, ac y byddai rhaglen Gymraeg wedi'i hanelu at gynulleidfa Gymraeg yn cael ei disgrifio yn Gymraeg.

---

<sup>22</sup> Mae [sain ofodol](#) yn ffordd o greu sain mewn 360 gradd o amgylch gwrandäwr.

## Ein barn

- 6.12 Rydyn ni'n dal yn credu y dylid addasu arddull disgrifiadau sain i ddewisiadau'r gynulleidfa a natur y rhaglen sy'n cael ei disgrifio. Rydyn ni'n cydnabod bod angen i ddarparwyr fabwysiadu dull cymesur o ddarparu gwahanol arddulliau disgrifiadau sain gan ystyried costau.
- 6.13 Nid ydym yn disgwyl i ddarparwyr gynnig mwy nag un math o ddisgrifiadau sain ar gyfer yr un rhaglen, ond yn hytrach rydyn ni'n annog ystyriaeth o ddewisiadau cynulleidfaoedd wrth ddewis arddull disgrifiadau sain ar gyfer mathau penodol o raglenni. Rydyn ni'n cytuno â Channel 4 y gallai ystyried sut mae gwella disgrifiadau sain yn gynharach yn y broses gynhyrchu ganiatáu arddulliau mwy creadigol (er enghraifft rhai sydd wedi'u cyfyngu llai gan fylchau presennol yn y ddeialog) ac rydyn ni eisoes yn hybu ystyriaeth gynnar o anghenion hygyrchedd yn yr adran Hygyrchedd wrth Gynhyrchu yn y Canllawiau.
- 6.14 Rydyn ni'n cytuno ag ymatebwyr y dylai disgrifiadau sain flaenoriaethu'r wybodaeth sydd o'r diddordeb mwyaf i'w cynulleidfaoedd targed, hyd yn oed os yw hyn yn golygu disgrifio dros y brif ddeialog mewn rhai amgylchiadau. Rydyn ni wedi diweddarau ein Canllawiau i adlewyrchu'r flaenoriaeth hon, gan nodi bod rhai achosion lle gallai fod angen i ddeialog groesi, er enghraifft os yw'r wybodaeth sy'n cael ei disgrifio o ddiddordeb uwch i gynulleidfaoedd na'r ddeialog. Mae hyn yn cynnwys disodli'r cyfeiriad at 'drac sain' â 'deialog', sy'n adlewyrchu ein neges arfaethedig yn fwy cywir.
- 6.15 Rydyn ni'n cydnabod nad oes gan ddarparwyr reolaeth lawn dros ddarparu adnoddau personoli ar gyfer lefel sain disgrifiadau sain (er enghraifft pan fydd y llwyfan yn mynnu bod disgrifiadau sain yn cael eu cymysgu ymlaen llaw â'r prif drac sain). Fodd bynnag, mae datblygiadau mewn cyfryngau 'seiliedig ar wrthrychau' yn ehangu'r posibilïadau o anfon cynnwys fel asedau digidol ar wahân ac rydyn ni am annog darparwyr i archwilio'r opsiynau hyn lle bo hynny'n ymarferol. Rydyn ni wedi diwygio'r Canllawiau i argymhell bod darparwyr yn ystyried y posibilrwydd o addasu lefelau sain mewn disgrifiadau sain 'lle bo hynny'n bosib'.
- 6.16 Rydyn ni wedi egluro yn y Canllawiau i nodi y dylai iaith disgrifiadau sain fod yn yr iaith a ddisgwylir gan gynulleidfa darged y rhaglen yn y DU. Credwn fod y geiriad hwn yn adlewyrchu ein hystyr arfaethedig yn well, gan roi cyfrif am y senarios a ddisgrifir gan y BBC uchod.

## Disgrifio gwybodaeth y tu hwnt i'r plot

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 6.17 Roedden ni'n cynnig y dylai disgrifiadau sain ddisgrifio gwybodaeth weledol sy'n berthnasol i'r plot. Fodd bynnag, er mwyn rhoi profiad cyfatebol o'r rhaglen i bobl ddall a phobl sy'n colli eu golwg, mae ein Canllawiau wedi'u diweddarau yn cynnig y dylai disgrifiadau sain hefyd ddisgrifio synau nad oes modd eu hadnabod yn hawdd, oedi heb esboniad mewn deialog, a dyfarniadau ansoddol i gyfleu ystyr neu hiwmor (er enghraifft disgrifio crys fel un hyll os yw hynny'n allweddol i jôc).
- 6.18 Yn ogystal â hyn, roedd ein Canllawiau arfaethedig hefyd yn dweud y dylai disgrifiadau sain hefyd fod yn sensitif i nodweddion gwledol eraill y tu hwnt i'r rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'r plot – gan gynnwys nodweddion amrywiaeth. Roedden ni hefyd yn cynnig

atgoffa darparwyr i osgoi rhagdybio nodweddion diofyn (er enghraifft drwy ddisgrifio lliw croen dim ond ar gyfer cymeriadau o gefndiroedd ethnig lleiafrifol).

## Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 6.19 Roedd ein hymchwil wedi canfod bod cyfranogwyr yn ffafrio disgrifiadau sain sy'n cynnwys disgrifiadau manylach, gan gynnwys ymddangosiad, iaith y corff, gwybodaeth ar y sgrin ac emosiynau. Fodd bynnag, roedden nhw'n mynegi rhwystredigaeth gyda disgrifiadau sain a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddiangen, er enghraifft agweddau y gellir eu cael drwy wrando'n uniongyrchol ar drac sain y rhaglen (fel drysau'n cau'n glep neu danio gwn) – gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein hanogaeth arfaethedig i ddisgrifio nodweddion amrywiaeth (Channel 4, Paramount Global, S4C, ymatebydd unigol). Gofynnodd S4C am ragor o ganllawiau ar hyn. Fodd bynnag, awgrymodd RNIB y dylai disgrifiadau sain ddisgrifio nodweddion amrywiaeth ac ethnigrwydd dim ond os yw hyn yn debygol o sefyll allan i gynulleidfaedd sy'n gweld. Er enghraifft, os oedd drama gyfnod yn cynnwys cast mwy amrywiol nag o'r blaen. Roedden nhw'n awgrymu y gallai disgrifiadau o nodweddion ethnigrwydd a/neu amrywiaeth cymeriad unigol fod yn fwy addas ar gyfer cyflwyniadau sain neu wefannau cymar pan nad ydynt yn berthnasol i'r plot.
- 6.20 Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn ein hymchwil yn teimlo bod y disgrifiad o nodweddion amrywiaeth yn bwysig ar gyfer tynnu sylw at amrywiaeth aelodau'r cast ar y teledu. P'un ai bod y manylion hyn yn cael eu hystyried yn uniongyrchol berthnasol i'r plot ai peidio, dywedodd cyfranogwyr fod cael y disgrifiadau hyn yn caniatáu iddynt gael profiad cyfatebol o'r cynnwys i wylwyr sy'n gweld a'i fod yn helpu pobl sydd â nodweddion cyffredin i'r cymeriadau ar y sgrin i deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil).

## Ein barn

- 6.21 Rydyn ni'n cydnabod canfyddiadau'r ymchwil sy'n dangos bod cyfranogwyr yn ffafrio peidio â defnyddio disgrifiadau sain gor-ddisgrifiadol, sy'n disgrifio'n ddiangen yr effeithiau sain y gall cynulleidfaedd dall ac sy'n colli eu golwg eu cael beth bynnag drwy wrando ar y ddeialog a'r effeithiau sain. Rydyn ni wedi ychwanegu y dylai disgrifiadau sain osgoi disgrifio gwybodaeth sy'n glir o'r ddeialog a'r effeithiau sain, fel drysau'n cau'n glep neu danio gwn.
- 6.22 Rydyn ni'n dal yn credu y dylai darparwyr ystyried cynnwys nodweddion amrywiaeth yn y disgrifiad sain, o ystyried yn benodol bod cyfranogwyr yn ein hymchwil yn eu gwerthfawrogi. Mae'r hyn sy'n sefyll allan i gynulleidfaedd yn dibynnu ar gefndir unigolyn ac i ba raddau y mae'n gweld ei hun wedi'i gynrychioli ar y sgrin, felly ni ellir trin cynulleidfaedd sy'n gweld a phobl sy'n colli eu golwg fel un grŵp unffurf. O ystyried pwysigrwydd cynrychiolaeth ar y sgrin o bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ac ymdrechion y diwydiant darlledu i wneud gwelliannau yn hyn o beth, rydyn ni'n credu bod gwybodaeth o'r math hwn o ddiddordeb i bob cynulleidfa – p'un a ydynt yn gweld neu beidio – ac na ddylai pobl ddall a phobl sy'n colli eu golwg gael eu heithrio o hyn.
- 6.23 Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y gall fod yn anodd gosod disgrifiadau manylach yn y bylchau yn y prif drac sain, felly efallai y bydd cyflwyniadau sain yn lle mwy addas i ddarparu gwybodaeth fanylach am amrywiaeth (gweler isod).



## Nodweddion hygrychedd sain ychwanegol

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 6.24 Roedd ein Canllawiau arfaethedig yn argymhell defnyddio cyflwyniadau sain<sup>23</sup> a disgrifiadau sain estynedig<sup>24</sup> fel ffordd o ddarparu manylion ychwanegol nad oes lle i'w darparu yn y bylchau mewn deialog rhaglenni.
- 6.25 Rydyn ni hefyd yn cydnabod y gallai rhai rhaglenni fod yn llai addas ar gyfer disgrifiadau sain traddodiadol nag eraill (er enghraifft rhaglenni newyddion neu sioeau gemau sy'n llawn deialog). Roedden ni'n cynnig bod darparwyr yn ystyried integreiddio disgrifiadau ar gyfer pobl sy'n colli eu golwg yn y rhaglen fel rhan o'r broses gynhyrchu (er enghraifft cyflwynwyr yn darllen testun ar y sgrin mewn sioeau cwis, neu ddefnyddio trosleisio ar gyfer segmentau ieithoedd tramor).

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 6.26 O ran ein hargymhellion ynghylch cyflwyniadau sain, nododd Paramount Global y byddai'n her i ddarlledwyr llinol gynnwys y cyflwyniadau hyn ar ddechrau'r rhaglen pan nad oes llawer o le ar gael yn y prif drac sain. Nododd na fyddai modd darparu cyflwyniadau sain ar wasanaethau llinol ar hyn o bryd.
- 6.27 Roedd llawer o gyfranogwyr yn ein hymchwil yn cefnogi'r defnydd o gyflwyniadau sain, yn enwedig ar gyfer genres rhaglenni gyda chymeriadau rheolaidd fel cyfresi teledu, dramâu ac operâu sebon. Fodd bynnag, dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar nodweddion ffisegol ac amrywiaeth yn hytrach na gwybodaeth gyd-destunol y gellid ei chael drwy wrando ar y cynnwys (gweler adran 3.4.4 o'n hymchwil).
- 6.28 Dywedodd Red Bee Media fod disgrifiadau sain estynedig yn gallu bod yn fwy defnyddiol ar gyfer cynnwys penodol, er enghraifft hysbysebion, nag ar raglenni hirach.
- 6.29 Yn gyffredinol, roedd ein hymatebwyr o blaid disgrifiadau integredig (Channel 4, RNIB, Paramount Global). Dywedodd y BBC nad yw bob amser yn bosib trosleisio allbwn newyddion oherwydd ei natur amserol (ac y gall weithiau fod yn angenrheidiol yn olygyddol i lais cyfraniadau mewn iaith dramor aros yr un fath). Yn yr achosion hyn, mae'n ystyried a ellir cyfleu neges allweddol y capsion ar lafar mewn manau eraill yn y rhaglen.

### Ein barn

- 6.30 Fel arfer, mae cyflwyniadau sain ar gael ar-lein drwy lwyfannau VoD y darparwyr neu ar gyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, mae ITV wedi darparu cyflwyniadau sain ar gyfer ei raglen 'Trigger Point' sydd ar gael ar sianel [YouTube](#) ITV ac fel ITV Short ar ITV X). Rydyn ni wedi egluro y dylai cyflwyniadau sain fod ar gael ar-lein.

---

<sup>23</sup> Gellir gwrandao ar gyflwyniadau sain cyn y prif raglenni i osod y cyd-destun ac i alluogi cynulleidfaoedd i gasglu gwybodaeth gyd-destunol neu weledol berthnasol am ymddangosiad y cymeriadau a/neu'r lleoliad lle bydd y gweithgarwch yn digwydd.

<sup>24</sup> Mae disgrifiadau sain estynedig yn caniatáu i'r rhaglen a'r trac sain gael eu rhewi i greu lle ar gyfer disgrifiadau hirach pan fo angen. Roedd ein canllawiau wedi'u diweddarau yn nodi y dylai darparwyr ystyried cynnig disgrifiadau sain estynedig fel nodwedd ddewisol y gellir ei rhoi ar waith a'i diffodd er mwyn galluogi dewis.

- 6.31 Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu argymhelliad bod disgrifiadau sain yn cael eu defnyddio ar gyfer genres penodol, ac i ddisgrifio gwybodaeth gyd-destunol berthnasol na ellir ei chael o'r rhaglen.
- 6.32 Er ein bod yn darparu trosleisio fel enghraifft o sut mae gwneud rhaglen yn fwy hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg a/neu bobl ddall, rydyn ni hefyd yn annog darparwyr i ystyried yn ehangach sut mae integreiddio gwybodaeth berthnasol yn y ddeialog ar lafar (sy'n gallu cynnwys pan nad yw trosleisio'n bosib).

# 7. Iaith arwyddion

## Crynodeb – Newidiadau i'r canllawiau iaith Arwyddion:

- egluro mai dim ond iaith Arwyddion Prydain ac iaith Arwyddion Iwerddon y dylid eu defnyddio i fodloni'r gofynion iaith arwyddion
- ychwanegu canllawiau ar gyfer darparwyr VoD, gan gynnwys ymgynghori â defnyddwyr BSL wrth flaenoriaethu gwahanol fathau o gynnwys ag iaith arwyddion
- \*argymell y dylid defnyddio'r un arwyddwr ar bob pennod o gyfres
- argymell y dylai darparwyr ystyried gwahanol ffyrdd o gael gafael ar gynnwys (ee apiau symudol) wrth benderfynu ar faint yr arwyddwr \*ac ystyried adnoddau personoli i newid maint a safle'r arwyddwr

Mae symbol seren (\*) yn nodi rhai o'r prif newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori.

## Bodloni'r gofynion o ran iaith arwyddion

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 7.1 Roedden ni'n cynnig mai BSL ddylai fod yr iaith ddiodyn ar gyfer cyrraedd y targedau ar gyfer rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion a rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion, ond nodwn efallai y bydd darlledwyr hefyd yn dymuno defnyddio iaith Arwyddion Iwerddon (ISL) ar gyfer rhai cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 7.2 Roedd grwpiau defnyddwyr (BSLBT a RNID) yn cefnogi ein cynnig mai BSL yw'r iaith ddiodyn ar gyfer bodloni gofynion o ran iaith arwyddion. Awgrymodd RNID ein bod yn ei gwneud hi'n glir bod BSL ac ISL yn cael eu defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, ac y dylid ystyried darparu'r ddwy iaith wrth gomisiynu cynnwys ag iaith arwyddion.
- 7.3 Cytunodd BT mai BSL ddylai fod yr iaith ddiodyn ar gyfer cyrraedd targedau iaith arwyddion, ond roedd yn tynnu sylw at yr her y mae hyn yn ei chreu gyda chynnwys rhyngwladol (er enghraifft mae llawer o gynnwys yr Unol Daleithiau ar gael yn iaith Arwyddion America – iaith sy'n gwbl wahanol i iaith Arwyddion Prydain). Roedd hefyd yn awgrymu bod Ofcom yn annog darparwyr i gydweithio i rannu cost cynnwys ag iaith arwyddion ac osgoi dyblygu, gan fod yr adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig, a gallai dyblygu cynnwys ag iaith arwyddion amharu ar wasanaethau iaith arwyddion yn y gymuned.

### Ein barn

- 7.4 Mae'r Canllawiau arfaethedig eisoes yn egluro bod BSL yn iaith benodol sy'n cael ei chydnabod gan Lywodraeth y DU, ac mae dolen ynddynt i Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 i gael rhagor o wybodaeth. Yn unol â sylwadau RNID, rydyn ni wedi egluro y gellid defnyddio BSL ac ISL ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

- 7.5 Rydyn ni'n cydnabod y gallai bodloni'r gofynion iaith arwyddion mewn BSL gynnwys creu arwyddion o'r newydd, gan gynnwys ar gyfer cynnwys rhyngwladol. Fodd bynnag, mae cymesuredd yn rhan o'r gofynion iaith arwyddion ar gyfer darlledu; dim ond darlledwyr mwy sydd angen darparu 5% o'u cynnwys gydag iaith arwyddion, ac mae angen i ddarlledwyr sydd â chynulleidfaoedd llai wneud cyfraniad ariannol llai i ddarparu'r cynnwys iaith arwyddion trydydd parti (BSLBT) neu mae angen iddynt gynhyrchu nifer is o raglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion. Mae rhai darlledwyr wedi'u heithrio'n llwyr o'r gofynion hygyrchedd ar sail fforddiadwyedd. Byddwn yn ystyried trefniadau tebyg ar gyfer cyrraedd y targedau llofnodi arfaethedig i wasanaethau ar-alw pan fyddwn yn ymgynghori ar y Cod ar-alw (gweler [map gweithredu'r Bil Cyfryngau](#)), gan ystyried unrhyw bryderon ynghylch adnoddau a dyblygu cynnwys.

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 7.6 Rydyn ni'n argymhell bodi darlledwyr yn amserlennu rhaglenni perthnasol pan fydd defnyddwyr iaith arwyddion yn debygol o fod yn gwyllo. Cyn belled ag y bo modd, roedden ni'n dweud y dylai darparwyr osgoi amserlennu rhaglenni yn oriau mân y bore.
- 7.7 Roedden ni hefyd yn annog darparwyr i integreiddio cynrychiolaeth o siaradwyr BSL mewn rhaglenni a wneir yn bennaf mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Saesneg.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 7.8 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n hargymhelliad i osgoi darlledu cynnwys ag iaith arwyddion yn oriau mân y bore a dywedodd RNID y dylai darlledwyr ymgynghori â chynulleidfaoedd b/Byddar wrth wneud penderfyniadau amserlennu. Pwysleisiodd GALMA hefyd y gall darlledu cynnwys ag iaith arwyddion yn ystod yr oriau brig fod yn ddull hanfodol o ddangos rhaglenni o'r fath i gynulleidfaoedd ehangach.
- 7.9 Hefyd, roedd cyfranogwyr ein hymchwil wedi mynegi eu rhwystredigaeth ynghylch yr arfer hwn, gyda rhai yn dweud nad oeddent yn gwyllo cynnwys ag iaith arwyddion oherwydd ei fod yn cael ei ddarlledu pan oeddent yn annhebygol o fod yn gwyllo. Nododd rhai eu bod wedi recordio'r cynnwys hwn ar eu setiau teledu fel ateb, ond dywedodd eraill nad oeddent yn gallu gwneud hynny (gweler adran 3.5.2 o'n hymchwil).
- 7.10 Dywedodd ITV nad yw amserlennu cynnwys ar ei sianeli darlledu mor bwysig ag yr oedd yn y gorffennol. Dywedodd ei fod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o ran cynulleidfaoedd BSL yn cael gafael ar gynnwys ar-alw, a gostyngiad cyfochrog yn ffigurau gwyllo cynnwys sy'n cael ei ddarlledu'n fyw. Mae wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar ddarparu cynnwys ar ei lwyfan ar-alw i gynulleidfaoedd BSL, gan gynnwys drwy lansio sianel BSL FAST bwrpasol. Nododd Paramount Global y gall fod yn heriol amserlennu rhaglenni ag iaith arwyddion yn ystod yr oriau brig fel rhan o amserlen rhaglenni amrywiol ar sianeli llinol.

### Ein barn

Rydyn ni'n cadw'r argymhelliad i ddarlledwyr osgoi amserlennu rhaglenni yn oriau mân y bore, o ystyried canfyddiadau ein hymchwil a'r ffaith y dylai darlledwyr ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ar-alw o bosib, yn unol â thelerau ein Cod.

## Rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion/wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 7.11 Roedden ni'n cydnabod bod cynulleidfaoedd yn mwynhau gwyllo rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion a rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion, ond y gallai'r dull sy'n cael ei ffafrio amrywio yn ôl genre. Er enghraifft, mae dehongliad iaith arwyddion yn gallu bod yn arbennig o bwysig ar raglenni newyddion a materion cyfoes, ac mae cynnwys wedi'i gyflwyno mewn iaith arwyddion yn gallu bod yn haws i blant ei ddeall.
- 7.12 Mae gofynion darlledu ar gyfer dehongliad iaith arwyddion a/neu gyflwyno mewn arwyddion wedi'u nodi yn y Cod ar hyn o bryd. Roedd ein Canllawiau arfaethedig yn awgrymu y dylai darparwyr VoD ymgynghori â'u cynulleidfaoedd wrth benderfynu pa opsiwn i'w ddarparu ac ar ba raglenni<sup>25</sup>. Roedd hyn yn disodli canllawiau blaenorol, sef bod defnyddwyr iaith arwyddion yn gwerthfawrogi rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion yn arbennig.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 7.13 Cytunodd RNID a GALMA y dylid ymgynghori â chynulleidfaoedd Byddar wrth ddewis rhwng gwahanol fathau o raglenni ag iaith arwyddion. Fodd bynnag, mynegodd BLSBT bryderon ynghylch sut y bydd darparwyr yn cyflawni hyn, gan awgrymu sefydlu grŵp cynghori.
- 7.14 Roedd BSLBT hefyd yn cytuno â chadw'r argymhellion ynghylch rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion ar gyfer plant, gan ddweud bod gan raglenni fel 'Magic Hands' ar CBeebies (rhaglen wedi'i chyflwyno mewn BSL) ffigurau gwyllo uchel a bod grwpiau ffocws/adborth wedi dangos bod plant byddar a phlant sy'n clywed yn mwynhau rhaglenni mewn BSL. Mae plant byddar yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli, ac mae plant sy'n clywed yn gallu dysgu iaith arwyddion (nododd BSLBT y bydd TGAU newydd mewn BSL yn cael ei gyflwyno). Yn fwy cyffredinol, soniodd RNID hefyd am fanteision ehangach cynnwys ag iaith arwyddion o ran helpu pobl i ddysgu iaith arwyddion, gan awgrymu bod hyn yn cael ei ychwanegu at y canllawiau.
- 7.15 Yn gyffredinol, roedd yn well gan gyfranogwyr ein hymchwil raglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion na rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion gan nad oedd yn rhaid iddynt droi eu ffocws oddi ar y cynnwys i weld yr arwyddwr, ac roedd yr iaith arwyddion yn gyffredinol yn gliriach ac yn fwy diddorol (gweler adran 3.5.3 o'n hymchwil am ragor o fanylion). Roedd BSLBT yn anghytuno â'n cynnig i ddileu ein hargymhelliad bod defnyddwyr BSL yn gwerthfawrogi rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion yn arbennig gan fod pobl Fyddar yn gyffredinol eisiau gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y sgrin. Roedd y cyfranogwyr yn ffafrio rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion yn fwy amlwg (o'i gymharu ag isdeitlo yn unig) ar gyfer rhai genres: er enghraifft newyddion, materion cyfoes, cyfweiliadau, dadleuon a rhaglenni dogfen penodol sy'n cynnwys llai o weithgarwch a lle mae pynciau

---

<sup>25</sup> Byddwn yn ymgynghori maes o law ar God hygyrchedd ar-alw sy'n nodi sut bydd gofynion arfaethedig y Bil Cyfryngau ar gyfer hygyrchedd VoD (gan gynnwys iaith arwyddion) yn gweithio'n ymarferol. Yn ein hargymhellion yn 2021 i'r Llywodraeth ar gyfer rheoliadau VoD, fe wnaethom ddweud y dylai darparwyr VoD gael y dewis o ddarparu dehongliad iaith arwyddion, cyflwyno mewn iaith arwyddion neu ariannu darparwr cymeradwy o raglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion.

cymhleth yn cael eu trafod. Cytunodd BSLBT ac RNID fod iaith arwyddion yn gallu bod yn bwysig ar gyfer newyddion a materion cyfoes.

## Ein barn

- 7.16 Rydyn ni'n cydnabod yn ein Canllawiau bod pobl anabl yn gallu wynebu rhwystrau ychwanegol rhag darparu adborth, ac rydyn ni'n annog darparwyr i sicrhau bod eu llwybrau adborth a chwyno ar gael ar bob cam o'r broses. Rydyn ni'n disgwyl i'r gweithgor edrych ar ffyrdd o gyfathrebu'n effeithiol â chymunedau anabl, gan gynnwys y gymuned Fyddar, er mwyn casglu adborth. Rydyn ni'n nodi ei bod hi'n debygol y bydd hyn yn arbennig o berthnasol pan ddaw gofynion newydd y Bil Cyfryngau ar gyfer iaith arwyddion i rym.
- 7.17 Mae ein canllawiau eisoes yn nodi bod rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion yn caniatáu i bobl Fyddar weld eu diwylliant a'u cymuned yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin. Er ein bod yn annog darparwyr i ystyried canfyddiadau ein hymchwil yn y maes hwn, nid ydym yn dymuno bod yn rhy rhagnodol wrth argymell rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion oherwydd gallai dewisiadau newid dros amser/yn ôl darlledwr. Felly, rydyn ni wedi cadw ein canllawiau i ddarparwyr VoD ystyried dewisiadau cynulleidfaoedd o ran dehongliad iaith arwyddion neu gyflwyno mewn iaith arwyddion.
- 7.18 Rydyn ni hefyd wedi cadw ein canllawiau y gallai dehongliad iaith arwyddion fod yn arbennig o bwysig ar gyfer newyddion a materion cyfoes, a oedd yn wedi'i gefnogi gan ganfyddiadau ein hymchwil.
- 7.19 Rydyn ni wedi ychwanegu y gallai rhaglenni ag iaith arwyddion hefyd helpu pobl i ddysgu BSL.

## Ansawdd rhaglenni ag iaith arwyddion

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 7.20 Roedden ni'n cynnig y dylai dehongliad iaith arwyddion gael ei gysoni cymaint â phosib â'r lleferydd, y dylai adlewyrchu geiriau a thôn y siaradwyr yn gywir, ac y dylai dehonglwyr nodi gwybodaeth nad yw ar lafar, fel nodi pwy sy'n siarad ac effeithiau sain pwysig.
- 7.21 Fe wnaethom ddweud y dylai dehonglwyr a chyflwynwyr iaith arwyddion feddu ar gymwysterau priodol.
- 7.22 Roedden ni hefyd yn argymell y dylai pob rhaglen ag iaith arwyddion gael is-deitlau er mwyn ei gwneud hi'n haws deall.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 7.23 Nododd cyfranogwyr yn ein hymchwil rwystredigaeth ynghylch ansawdd iaith arwyddion a hynny o ran eglurder, cywirdeb a chydamseru (gweler adran 3.5.3 o'n hymchwil). Awgrymodd BSLBT ein bod yn ychwanegu nodyn at y canllawiau ar leihau hepgoriadau gan fod gwybodaeth hanfodol (ee mewn newyddion) yn aml yn cael ei hepgor mewn rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion i 'ddal i fyny'. Nododd RNID ac S4C fod amrywiadau rhanbarthol mewn BSL (sy'n rhan o'r un iaith) a nododd RNID y dylem annog dehonglwyr i ystyried hyn.
- 7.24 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein hargymhelliad bod gan ddehonglwyr a chyflwynwyr iaith arwyddion gymwysterau priodol. Fodd bynnag, nododd RNID fod hyn yn llai angenrheidiol ar gyfer cynnwys wedi'i gyflwyno mewn iaith arwyddion gan ei fod yn gyfle

i ddefnyddwyr BSL Byddar adrodd straeon yn eu hiaith eu hunain er nad ydynt yn meddu ar gymwysterau iaith arwyddion uwch o bosib.

- 7.25 Gofynnodd BSLBT i ni argymhell cymhwyster penodol ar gyfer cyfieithwyr Byddar, yn enwedig ar gyfer rhaglenni newyddion/materion cyfoes â dehongliad iaith arwyddion lle mae gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu, gan fod perygl y bydd defnyddwyr BSL brodorol yn cam-gyfieithu os nad oes ganddynt y sgiliau y gellir eu hennill drwy'r cymhwyster yn unig.
- 7.26 Cytunodd GALMA â'n cynnig y dylai rhaglenni ag iaith arwyddion, lle bo'n bosib, gynnwys isdeitlau, ond dywedodd y dylid hefyd ystyried ail-leisio a chynnwys disgrifiadau sain ar raglenni ag iaith arwyddion er mwyn eu gwneud yn hygyrch i bobl heb fynediad at y lluniau neu sy'n ffafrio ail-leisio.
- 7.27 Roedd ein hymchwil ein hunain wedi canfod bod llawer o gyfranogwyr yn ffafrio cael yr un dehonglydd iaith arwyddion ar draws penodau o gyfres deledu; roedd rhai yn credu ei fod yn tynnu sylw pan ddefnyddir arwyddwyr gwahanol yn yr un gyfres deledu oherwydd mae hynny'n golygu bod angen ymgyfarwyddo ag arddull arwyddo pob arwyddwr newydd (gweler adran 3.5.5 o'n hymchwil).

## Ein barn

- 7.28 Gan ystyried pwynt RNID, rydyn ni wedi dileu'r cyfeiriad at yr angen i gyflwynwyr iaith arwyddion feddu ar gymhwyster i fod yn rhan o raglenni, ond wedi cadw'r argymhelliad y dylai dehonglwyr iaith arwyddion feddu ar gymhwyster priodol. Nodwn fod nifer o gymwysterau cydnabyddedig ar gyfer dehonglwyr BSL ar draws y diwydiant. Fodd bynnag, yn unol â'n dull cyffredinol o ganolbwyntio ar ganlyniadau, nid ydym yn pennu'r cymhwyster/cymwysterau penodol y dylai dehonglwyr feddu arnynt.
- 7.29 Rydyn ni'n cydnabod y gall osgoi hepgoriadau fod yn arbennig o bwysig pan fydd gwybodaeth allweddol yn cael ei chyfleu (er enghraifft mewn rhaglenni newyddion). Yn yr un modd â'n hargymhellion ar isdeitlo (gweler 5.26), rydyn ni wedi ychwanegu at y canllawiau y gall cywirdeb iaith arwyddion fod yn arbennig o bwysig pan fydd gwybodaeth bwysig yn cael ei chyfleu (er enghraifft mewn rhaglenni newyddion), hyd yn oed os yw hyn yn cynyddu oedi. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu y dylai dehonglwyr ystyried amrywiadau rhanbarthol mewn BSL.
- 7.30 Rydyn ni wedi adlewyrchu canfyddiadau ein hymchwil ein hunain ac wedi ychwanegu 'cyn belled ag y bo modd, dylai darparwyr gadw'r un arwyddwr/wyr ar bob pennod mewn cyfres'. Rydyn ni'n teimlo bod hyn yn bwysig i greu ymdeimlad o ddilyniant i gynulleidfaoedd, gan gynnwys pan fyddant yn debygol o wyllo mwy nag un bennod mewn cyfres.
- 7.31 Rydyn ni'n cydnabod awgrym GALMA y dylai darparwyr hefyd ystyried disgrifiadau sain ac ail-leisio rhaglenni ag iaith arwyddion, ond rydyn ni'n credu bod ein hargymhelliad i ddarparwyr gynnig mwy nag un gwasanaeth mynediad ar raglenni (gweler 4.38) yn mynd i'r afael â hyn yn ddigonol.

## Maint a chyflwyniad delwedd y dehonglydd iaith arwyddion

---

### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

- 7.32 Roedden ni'n cynnig y dylai dehonglwyr iaith arwyddion fod yn hawdd eu gweld yn erbyn y cefndir, er enghraifft drwy wisgo dillad o liw cyferbyniol. Mae hyn yn disodli ein canllawiau blaenorol a oedd yn argymhell y dylai'r arwyddwr ddefnyddio math o ddillad sy'n briodol i arddull y rhaglen, gan ganiatáu iddynt gael eu gweld yn glir ar yr un pryd.
- 7.33 Roedden ni wedi dweud y dylai dehonglwyr fod yn ddigon mawr i fynegiant eu hwyneb a'u hystumiau llaw fod yn hawdd eu gweld a'u deall, heb guddio gwybodaeth bwysig ar y sgrin.
- 7.34 Roedden ni'n cynnig y dylai dehonglwyr iaith arwyddion ymddangos ar ochr dde'r sgrin a chymryd o leiaf 1/6 o arwynebedd y sgrin deledu yn gyffredinol. Wrth bennu maint a safle isdeitlau, roedden ni wedi dweud y dylai darparwyr ystyried y gwahanol lwyfannau y bydd y cynnwys yn cael ei chwarae arnynt hefyd.

### Ymatebion rhanddeiliaid a chanfyddiadau ein hymchwil

- 7.35 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r newid i Ganllawiau mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- 7.36 O ran cyflwyniad dehonglwyr, awgrymodd RNID y dylai dehonglwyr iaith arwyddion osgoi gwisgo patrymau sy'n tynnu sylw. Ategwyd y safbwynt hwn gan ganfyddiadau ein hymchwil. Nid oeddent yn dangos unrhyw deimladau cryf o ran sut mae arwyddwyr yn cyflwyno eu hunain cyn belled â bod cyferbyniad lliw da rhwng croen, dillad a chefnidir yr arwyddwr, a bod ei ddillad yn blaen heb dynnu sylw'n weledol (gweler adran 3.5.5 o'n hymchwil).
- 7.37 O ran maint a gwelededd yr arwyddwr, pwysleisiodd RNID y dylai blaen corff a chorff uchaf yr arwyddwyr fod yn weladwy bob amser, ynghyd â'u hwyneb a'u dwylo, gan fod hyn yn sicrhau bod pob symudiad ysgwydd yn weladwy i ddefnyddwyr BSL. Mae hyn yn bwysig er mwyn deall yr iaith yn llawn.
- 7.38 O'n hymchwil ein hunain ac o'r ymchwil a nodwyd yn yr ymatebion, rydyn ni'n sylwi nad yw'n ymddangos bod consensws ynghylch maint dehonglydd iaith arwyddion. Soniodd cyfranogwyr ein hymchwil am eu rhwystredigaeth os yw'r arwyddwyr yn rhy fawr ac yn tynnu sylw oddi wrth brif lun y rhaglen, neu os ydynt yn rhy fach i fod yn ddealladwy. Dywedodd rhai y gallai eu ffafriaeth o ran maint yr arwyddwr amrywio yn dibynnu ar y math o raglen roedden nhw'n ei gwyllo neu'r ddyfais roedden nhw'n ei defnyddio. Gwelwyd y byddai'n fanteisiol gallu addasu maint y dehonglydd iaith arwyddion (gweler adran 3.5.5 o'n hymchwil). Argymhellodd RNID hefyd y dylai darparwyr gynnig meintiau dehonglydd y gellir eu haddasu. Cefnogir hyn gan eu hymchwil [Subtitle It](#).
- 7.39 Hefyd, cyfeiriodd BT at ymchwil<sup>26</sup> sy'n dod i'r casgliad bod genre'r cynnwys hefyd yn berthnasol wrth benderfynu ar faint y dehonglydd iaith arwyddion. Mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai arwyddwr mwy fod yn well ar gyfer rhaglenni fel y newyddion, ond ar gyfer ffilmiau, cyfweiliadau neu raglenni dogfen, lle mae angen i'r gwylwr brosesu mwy o

---

<sup>26</sup> [Redón Sala, Núria. \(2014\) Qualitat en la interpretació de llengua de signes a la televisió: accessibilitat a la cultura. Barcelona: Universitat Autònoma de Barcelona. Trabajo Final de Grado en Logopedia.](#)



wybodaeth ar y sgrin y ar wahân i'r iaith arwyddion, efallai y bydd arwyddwr llai yn fwy priodol.

- 7.40 Dywedodd BSLBT a BT y byddai rhywfaint o hyblygrwydd yn cael ei groesawu o ran fframio a safle'r arwyddwr. Gofynnodd BT i ni ddileu'r argymhelliad rhagnodol i osod yr arwyddwr ar ochr dde'r sgrin, gan gyfeirio at ymchwil a oedd yn awgrymu bod mantais i gael hyblygrwydd o ran safle'r arwyddwr.
- 7.41 O ran safle'r arwyddwr, dywedodd y rhan fwyaf o'n cyfranogwyr ymchwil y byddai'n well ganddynt pe bai'r dehonglydd iaith arwyddion y tu allan i ffrâm y rhaglen yn hytrach na chael ei droshaenu ar y rhaglen. Roedden nhw'n teimlo ei bod hi'n haws dilyn arwyddwyr os oes cefndir plaen a monocrom y tu ôl iddynt (gweler adran 3.5.5 o'n hymchwil).

## Ein barn

- 7.42 Mewn ymateb i adborth RNID, a chanfyddiadau ein hymchwil, rydyn ni wedi ychwanegu y dylai dillad yr arwyddwr fod yn glir a heb batrwm.
- 7.43 Rydyn ni hefyd wedi diwygio ein Canllawiau i argymhell y dylai corff uchaf y dehonglydd iaith arwyddion fod yn hawdd ei weld (ynghyd â'i wyneb a'i ddwylo), yn unol ag argymhellion RNID.
- 7.44 Er bod ein canllawiau'n argymhell isafswm maint arwyddwr (o leiaf 1/6 o'r sgrin deledu), rydyn ni'n cydnabod y dylai darparwyr wneud penderfyniad gwybodus ar sail nifer o ffactorau. Yn unol â'r ymchwil a amlinellwyd uchod, rydyn ni hefyd wedi ychwanegu y dylid ystyried genre'r rhaglen, gan gynnwys maint/math y gweithgarwch ar y sgrin, wrth bennu maint a safle'r llofnodwr. Rydyn ni hefyd wedi dileu'r awgrym y dylai dehonglwyr iaith arwyddion ymddangos ar ochr dde'r sgrin. Yn hytrach rydyn ni wedi tynnu sylw at y ffaith mai dyma lle maen nhw'n ymddangos yn gyffredinol.
- 7.45 Er mwyn adeiladu ar hyn, ac ystyried canfyddiadau'r ymchwil, rydyn ni wedi ychwanegu y dylai darparwyr ystyried adnoddau personoli i newid maint yr arwyddwr lle bo hynny'n bosib. Rydyn ni'n cydnabod nad oes gan ddarparwyr bob amser yr opsiwn i ddarparu adnoddau personoli, fodd bynnag, yn yr un modd â'n hargymhellion ar ddewis a phersonoli uchod, rydyn ni'n annog darparwyr i arloesi yn y maes hwn lle bo hynny'n bosib.
- 7.46 Rydyn ni'n gwybod bod y darlledwyr a'r darparwyr gwasanaethau yn wahanol o ran sut maen nhw'n arddangos eu dehonglwyr iaith arwyddion. Er bod ein canllawiau'n cynnig hyblygrwydd i ddarparwyr o ran arddangos dehonglwyr iaith arwyddion oddi ar y sgrin neu wedi'u troshaenu ar y brif raglen, rydyn ni'n nodi canfyddiadau ein hymchwil sy'n awgrymu bod lleoli'r dehonglydd iaith arwyddion oddi ar y sgrin yn gallu ei wneud yn fwy amlwg i'r gynulleidfa. Felly, rydyn ni wedi darparu hyn fel enghraifft o sut gall dehonglwyr iaith arwyddion fod yn weladwy yn erbyn cefndir y sgrin.

# A1. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- A1.1 Rydyn ni hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd ein newidiadau i'r Cod a'r Canllawiau yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys, yn fras, hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r aseiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998. (Mae rhagor o fanylion yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998).
- A1.2 Nid ydym yn edrych yn benodol ar ein dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn yr aseiad hwn gan ein bod yn credu bod yr eithriad ar gyfer darlledu (gan gynnwys gwasanaethau mynediad) yn berthnasol<sup>27</sup>. Fodd bynnag, nodwn ein penderfyniad y dylai iaith isdeitlau a disgrifiadau sain fod yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio a'i ffafrio/ei disgwyl gan gynulleidfa darged y rhaglen yn y DU. Rydyn ni'n pennu y gellir darparu isdeitlau ar gyfer rhaglenni Cymraeg yn Saesneg, os mai dyna sy'n cael ei ffafrio ar ôl ymgynghori â chynulleidfa oedd anabl.
- A1.3 Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol tebygol ar bobl sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.
- A1.4 Ein nod cyffredinol wrth wneud y newidiadau hyn yw cynyddu defnyddioldeb gwasanaethau mynediad i gynulleidfa oedd anabl.
- pobl ag anabledau
  - pobl y gallai eu cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran eu gwneud yn fwy agored i niwed (yr ydym yn eu hystyried o dan y nodwedd warchoddedig 'oedran')
  - pobl sy'n perthyn i'r grwpiau cydraddoldeb hyn neu grwpiau cydraddoldeb eraill i'r graddau y mae'r bobl hynny'n defnyddio gwasanaethau mynediad am resymau ar wahân i golli golwg neu glyw.
- A1.5 Mae nifer o ffyrdd y credwn fod ein newidiadau i'r Canllawiau yn debygol o fod o fudd i'r grwpiau cydraddoldeb uchod. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod.
- A1.6 Rydyn ni wedi ehangu ein Canllawiau i gynnwys pobl â chyflyrau gwybyddol yn well ac i annog darparwyr i ystyried manteision a defnydd y grwpiau hyn o wasanaethau mynediad yn eu rhaglenni.
- A1.7 Er bod ein Canllawiau presennol yn rhoi argymhellion i ddarlledwyr, rydyn ni hefyd yn cryfhau ein neges na ddylid defnyddio ein Canllawiau ar eu pen eu hunain a bod angen i ddarparwyr hefyd ymgynghori â'u cynulleidfa oedd/elusennau sy'n cynrychioli cynulleidfa oedd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer.

---

<sup>27</sup> Gweler yr Eithriad ar gyfer Darlledu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Rhan 4, Pennod 9 (67).

- A1.8 Bu cynnydd amlwg ym mhoblogrwydd gwasanaethau ar-alw yn ystod y blynyddoedd diwethaf<sup>28</sup>. Felly, mae ein Canllawiau Arferion Gorau ar wasanaethau mynediad teledu wedi cael eu diweddarau i gynnwys argymhellion i ddarparwyr gwasanaethau fideo ar-alw ar sicrhau ansawdd a defnyddioldeb eu gwasanaethau mynediad, a fydd yn arwain at ragor o foddhad a chynhwysiad yn y gymdeithas gan y grwpiau cydraddoldeb uchod.
- A1.9 Rydyn ni'n credu y bydd y newid yn ein canllawiau o ganolbwyntio ar y modd o ddarparu gwasanaethau mynediad i annog darlledwyr a darparwyr gwasanaeth i ganolbwyntio ar amrywiaeth o ganlyniadau allweddol i gynulleidfaoedd yn arwain at gynnwys hygyrch sy'n fwy creadigol ac effeithiol. Mae ein canllawiau'n ystyried ymgysylltu helaeth â grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, ymatebion rhanddeiliaid a'n hymchwil ansoddol gyda chynulleidfaoedd anabl. Yn ystod y gwaith ymchwil hwn, roedden ni wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion yn y grwpiau a restrir uchod, gan gynnwys cyfweiliadau ag unigolion sy'n colli eu clyw, sy'n colli eu golwg, sy'n colli eu clyw a'u golwg, a defnyddwyr BSL, yn ogystal â phobl â chyflyrau gwybyddol a niwroddatblygiadol. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cynrychioli amrywiaeth o ddemograffeg gan gynnwys oedran, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol a chrefydd.

---

<sup>28</sup> Roedd munudau gwyllo cyfartalog yr holl unigolion (dros 4 oed) ar wasanaethau fideo ar-alw tanysgrifio a gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr wedi cynyddu o 27 munud y diwrnod yn 2017 i 73 munud y diwrnod yn 2021. Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wyllo sain/fideo. Wedi'i fodelu o ddata BARB, Comscore a TouchPoints. Gweler [Ofcom Cyfryngau'r Genedl: Adroddiad y DU 2022](#), Ffigur 27 (tudalen 50).